This is a digital copy of a book that was preserved for generations on library shelves before it was carefully scanned by Google as part of a project to make the world's books discoverable online.

It has survived long enough for the copyright to expire and the book to enter the public domain. A public domain book is one that was never subject to copyright or whose legal copyright term has expired. Whether a book is in the public domain may vary country to country. Public domain books are our gateways to the past, representing a wealth of history, culture and knowledge that's often difficult to discover.

Marks, notations and other marginalia present in the original volume will appear in this file - a reminder of this book's long journey from the publisher to a library and finally to you.

Usage guidelines

Google is proud to partner with libraries to digitize public domain materials and make them widely accessible. Public domain books belong to the public and we are merely their custodians. Nevertheless, this work is expensive, so in order to keep providing this resource, we have taken steps to prevent abuse by commercial parties, including placing technical restrictions on automated querying.

We also ask that you:

+ *Make non-commercial use of the files* We designed Google Book Search for use by individuals, and we request that you use these files for personal, non-commercial purposes.

+ *Refrain from automated querying* Do not send automated queries of any sort to Google's system: If you are conducting research on machine translation, optical character recognition or other areas where access to a large amount of text is helpful, please contact us. We encourage the use of public domain materials for these purposes and may be able to help.

+ *Maintain attribution* The Google "watermark" you see on each file is essential for informing people about this project and helping them find additional materials through Google Book Search. Please do not remove it.

+ *Keep it legal* Whatever your use, remember that you are responsible for ensuring that what you are doing is legal. Do not assume that just because we believe a book is in the public domain for users in the United States, that the work is also in the public domain for users in other countries. Whether a book is still in copyright varies from country to country, and we can't offer guidance on whether any specific use of any specific book is allowed. Please do not assume that a book's appearance in Google Book Search means it can be used in any manner anywhere in the world. Copyright infringement liability can be quite severe.

About Google Book Search

Google's mission is to organize the world's information and to make it universally accessible and useful. Google Book Search helps readers discover the world's books while helping authors and publishers reach new audiences. You can search through the full text of this book on the web at `http://books.google.com/`

Gift 5160.68.30

Harvard College Library

FROM

Fred N. Robinson

CANIADAV

GAN

JOHN MORRIS JONES

RHYDYCHEN: FOX·JONES
& CO·KEMP HALL·1907

Celt 5160.68.30

HARVARD COLLEGE
APR 23 1930
LIBRARY

Fred N. Robinson,
Cambridge

" Y fun a wnaeth wayw yn f'ais,
" A garaf ac a gerais,"
Pob cerdd a blethais erddi,
Pob cân serch i'w hannerch hi,
A'u cyflwyno i honno wnaf,
A gerais ac a garaf.

AT Y DARLLENYDD

Y Mae'r rhan fwyaf o'r *Caniadau* hyn wedi ymddangos o'r blaen mewn gwahanol gyhoeddiadau. Ymddanghosodd llawer o Gathlau Heine yng *Nghymru Fydd* am 1890, ac amryw o honynt yng *Nghymru* ryw flwyddyn neu ddwy yn ddiweddarach. Cyhoeddwyd yr awdl 'Cymru Fu : Cymru Fydd' yng *Nghymru* am Awst 1892. Argraffwyd rhai o'r dyrïau a'r mân gyfieithiadau o bryd i bryd ym *Magazine* Coleg y Gogledd. Diau i rai o'r darnau ymddangos hefyd mewn papurau wythnosol a mannau eraill; ond, hyd yn oed pe gallwn eu holrhain, nid yw o bwys yn y byd. Yn yr holl ddarnau hyn, ni phetrusais yn unman newid gair neu ymadrodd, lle gwelwn angen, i ddiwygio'r iaith neu gywiro bai mewn mydr neu odl.

Ymysg y caniadau a ymddengys am y waith gyntaf yn y llyfr hwn y mae Awdl Famon a Phenillion Omar Khayyâm. Ysgrifennwyd Awdl Famon yn ddarnau digyswllt tua'r flwyddyn 1893 neu 1894 ; yr oeddwn yn darofun iddi fod yn hwy o lawer, ond wedi ei rhoi heibio am amser mi dybiais ei bod yn ddigon maith o watwargerdd o'r fath, ac mi lenwais y bylchau, gan ei gadael yn awdl o dair rhan fel y'i gwelir. Yn

Nhachwedd 1898 (wedi bod yn dysgu ychydig Berseg rai blynyddoedd ynghynt) y meddyliais am geisio Cymreigio penillion Omar; cyfieithais ddeg neu bymtheg a thrigain o honynt y gaeaf hwnnw, ac ychwanegais ambell bennill pan gaffwn hamdden o dro i dro.

Dymunaf yma ddiolch i Mr. William Watson am ei ganiatad caredig imi i gyhoeddi 'r aralleiriad o'i gân 'Duw cadw'n gwlad'; ac i Dr. Douglas Hyde am ei ganiatad caredig yntau i gyhoeddi'r cyfieithiadau o bedair o'r cathlau a gasglwyd ganddo oddi ar lafar y werin yn Iwerddon, ac a gyhoeddwyd gyda chyfieithiad Saesneg yn ei *Love Songs of Connacht.*

JOHN MORRIS JONES.

Llanfair Pwll Gwyngyll,
Gorffennaf 1907.

CYNHWYSIAD

DYRÏAU

	Tudalen
Cymru Rydd	1
Toriad y Dydd	2
Y Bachgen Main	4
Y Ddinas Ledrith	5
Y Seren Unig	5
Cwyn y Gwynt	6
Y Wennol	7
Fy Ngardd	7
Rhieingerdd	8
Cwyn yr Unig	9
Y Crythor Dall	10
Môn a Menai	12
Y Gwylanod	13
Yn y Cwch	13
Seren y Gogledd	14
Ar Hyd y Nos	15
Lili Lon	16
Yr Haul a'r Gwenith	17
Ti f'Anwylyd yw 'Mrenhines	18
Yr Afon yn y Coed	19
Seiriol a Chybi	20
Y Morgrug	21
Yr Afonig	24
Fy Mreuddwyd	24
Syr Lawrens Berclos	25
Pa le mae Gwen?	27
Y Cwmwl	28
Arianwen	29
Yr Hwyr Tawel...	30
Duw Cadw'n Gwlad	31

LLYTHYRAU

At O.M.E.	
I.	33
II.	34
III.	37

ENGLYNION

Moes	39
Iaith y Blodau	39
Dafydd Llwyd Siôr	40
Ieuenctid	40
Henaint	40

CYWYDDAU

Cywydd Hiraeth 41
Cywydd Priodas Owen M. Edwards 44
Cywydd Priodas W. Llewelyn Williams 49

AWDLAU

Cymru Fu: Cymru Fydd 55
Salm i Famon 71

CYFIEITHIADAU

O'R ALMAENEG:

Cathlau Heine:

I. Codi'r bore wnaf a gofyn 93
II. Brydferth grud fy holl ofalon 93
III. Fy machgen, cyfod, dal dy farch 95
IV. O'm dagrau i, fy ngeneth 95
V. Ers myrddiwn maith o oesoedd 96
VI. Pe gwypai'r mân flodeuos 96
VII. Paham, fy nghariad deg, yn awr 97
VIII. E saif pinwydden unig 98
IX. Er pan aeth f'anwylyd i 98
X. I'r ardd ryw fore hafaidd 99
XI. Ymgrynhoi y mae'r tywyllwch 99
XII. Drwy'r coed yn drist y rhodiwn 100
XIII. Ti ferch y morwr tyred 100
XIV. Pan fyddwyf yn y bore 101
XV. Pa fodd, a mi'n fyw eto 101
XVI. Mewn breuddwyd tywyll safaf 102
XVII. Breuddwydiwn weld y lloer yn brudd ... 103
XVIII. Fel y lloerwen oleu'n dianc 103
XIX. Yr ydwyt fel blodeuyn 104
XX. Dinistr iti fyddai 'ngharu 105
XXI. Eneth â'r perloywon lygaid 105
XXII. Mae iddynt gwmpeini heno 106
XXIII. O na allwn gynnwys mewn ungair 106
XXIV. Mae gennyt emau a pherlau 107
XXV. Fel rhyw freuddwydion tywyll 107
XXVI. Mae iar fach yr haf yn caru'r rhos 108
XXVII. Fel y lloer a'i delw'n crynu 109
XXVIII. Y lili ddwr freuddwydiol 109
XXIX. Rhyw adeg yr oedd hen frenin 110
XXX. Fry ar eurdroed ofnus esmwyth 110
XXXI. Crwydraf y freuddwydiol goedwig 111
XXXII. Mi wyddwn iti 'ngharu 112
XXXIII. Yr eneth ger y waneg 112
XXXIV. Ni soniais am dy ffalster 113
XXXV. Mae'r môr yn loyw'n nhywyn haul 113

XXXVI. Yn seren wen tywynni yn fy nos 113
XXXVII. Mor llon wyt yn fy mreichiau 114
XXXVIII. Mynyddgan—i 115
—ii 117
Dwy galon yn ysgaru.—*Geibel* 121
Pan ddiflanno gwrid.—*Ernst Schulze* 122
Cân y Bedd.—*Arndt* 123
Colli'r Baban.—*De La Motte Fouqué* 124
Cathlau'r Hesg.—*Lenau*... 125
Y Gaer sy ger y Lli.—*Uhland* 128
Blodeuyn yr Alaw.—*Geibel* 129

O'R FFRANGEG:

Cwyn y Gwrthodedig.—*Alfred de Musset*... 131
Cynghorion Cariad.—*De Jouy* 132

O'R EIDALEG:

Cathlau Serch.—*Vittorelli* 133
Y Dymuniad.—*Ugo Foscolo* 138
Y Blodeuglwm.—*Ugo Foscolo* 138
Llateiaeth yr Awelon.—*Ugo Foscolo* 139

O'R LLYDAWEG:

Dychweliad y Gwanwyn,—*F. M. Luzel* 141

O'R WYDDELEG:

Cathlau Serch Connacht 143

O'R SAESNEG:

Cân.—*Shakespeare* 147
I Anthea.—*Herrick* 148
Eiddigedd y Saint.—*Duke of Buckingham* 149
Y Cusan.—*Anhysbys* 149
I Celia.—*Ben Jonson* 150
Ffyddlondeb.—*Syr John Suckling* 150
I'r Gog.—*Wordsworth* 151
Mary fy Mun.—*John K. Casey* 153
Annabel Lee.—*Edgar Allan Poe*... 154
Hoff Wlad.—*Sliabh Cuilinn* 156
Gobeithion Bore Oes.—*Thomas Davis* 157
Eisteddfod Aberffraw.—*W. T. Parkins* 158
Coelcerthi'r Mynydd.—*Felicia Hemans* 159

O'R BERSEG:

Penillion Omar Khayyâm 161
Nodiadau ar Omar Khayyâm a'i Benillion 183

DYRÏAU

CYMRU RYDD

Mi ganaf gerdd i'r wenwlad,
Y wlad y'm ganed i ;
Gwlad fwynlan yw fy henwlad,
Heb ei chyffelyb hi.
Mae ysbryd dewr Llywelyn
Yn fyw, a byw yw'r delyn,
A'r iaith er pob rhyw elyn
Yn para yn ei bri.

Ei nentydd glân rhedegog
A ennill bennill bardd ;
Ei bryniau gwyllt caregog,
Cyfoethog ŷnt a hardd ;
A thanynt mewn tawelwch,
A hyfryd ddïogelwch,
Ei theg ddyffryndir welwch
Yn gwenu megis gardd.

Mae'n wir nad yw ei gwerin
Yn meddu o honi gŵys,
Na'r Cymro ond pererin
Ar ddaear Cymru lwys;
Y trawsion a'i meddiannodd,
A mynych y griddfannodd
Y genedl a'i trigiannodd,
Mewn du gaethiwed dwys.

Er hyn i'm gwlad y canaf,
Oherwydd Cymru fydd
Ddedwyddaf gwlad a glanaf,
A dyfod y mae'r dydd
Pan na bydd trais i'w nychu,
Nac anwr i'w bradychu,
Na chweryl i'w gwanychu,
A phan fydd Cymru'n rhydd!

TORIAD Y DYDD

'R wy'n hoffi cofio'r amser,
Ers llawer blwyddyn faith,
Pan oedd pob Cymro'n Gymro gwir
Yn caru'i wlad a'i iaith;
Llefarai dewr arglwyddi
Ein cadarn heniaith ni,

Parablai arglwyddesau heirdd
Ei pheraidd eiriau hi ;
Pan glywid yn y neuadd
Y mwynion dannau mân,
Mor fwyn yr eiliai gyda hwy
Ragorol iaith y gân.
Ond wedi hyn trychineb
I'r hen Gymraeg a fu,
Ymachlud wnaeth ei disglair haul,
Daeth arni hirnos ddu.

O'r plasau a'r neuaddau
Fe'i gyrrwyd dan ei chlais ;
Arglwyddi, arglwyddesau beilch
Sisialodd iaith y Sais ;
A phrydferth iaith y delyn
Fu'n crwydro'n wael ei ffawd,
Ond clywid eto'i seiniau hoff
Ym mwth y Cymro tlawd ;
Meithrinodd gwerin Cymru
Eu heniaith yn ei chlwy',
Cadd drigo ar eu tafod fyth,
Ac yn eu calon hwy.
Gogoniant mwy gaiff eto,
A pharch yng Nghymru fydd ;
Mi welaf ddisglair oleu 'mlaen,
A dyma doriad dydd !

Y BACHGEN MAIN

Lleddf y canai'r llanc ei delyn
Fel ochenaid brudd y gwynt;
Cofio'r oedd am bob rhyw fawredd
A fu 'n harddu Cymru gynt;
Meddwn wrtho, "Harddach eto
"Nag erioed fydd Cymru gain;
"Cân obeithiol geinciau heini,
"Gwn y medri, fachgen main."

Canai'r bachgen main ei delyn,
Canai fyth yn lleddf ei sain;
Cofio'r oedd am bob anghydfod
Sydd yn rhannu Cymru gain;
Meddwn wrtho, "Dyma'r brwydro
"Sydd i buro gwlad y gân;
"Deffro beraidd leisiau'r delyn,
"'Tyn y mêl o'r tannau mân.'

"Cymru fu! ni raid ochneidio
"Am a fu i Gymru gain;
"Cymru sydd! ni raid it ganu
"Am y sydd yn lleddf dy sain;
"Cymru fydd! hi fydd yn lanach,
"Ardderchocach fyrdd na'r rhain;
"Boed dy gerdd yn llawen heno,
"Can am honno, fachgen main!"

Y DDINAS LEDRITH

Saf ennyd yma, f'annwyl,
A rho dy law i mi,
Ac edrych ar gyfaredd
Y dref sy dros y lli.

Mae niwlen ysgafn oleu
Yn do am dani hi :
Hi saif fel dinas ledrith
Ar lan y distaw li.

'R wyf innau'n dwyn rhyw fywyd
Cyffelyb ger y lli ;
Yn llen oleuwen drosto
Y daeth dy gariad di.

Rhyw fywyd ysgafn oleu
Awyrol sydd i mi,
Mewn byd o hud a lledrith
Ar lan y distaw li.

Y SEREN UNIG

Y gwridog haul fachludodd,
Ac yn y nef uwchben
Y gwelir yn tywynnu
Ryw unig seren wen.

Mi sylwais ar ei llygad
  Yn gloywi yn y nef,
Fel petai ddeigryn disglair
  Yn cronni ynddo ef.

Mi glywaf ddeigr yn llenwi
  Fy llygad innau'n awr ;
'R wyf innau'n unig unig ;
  Fy haul a aeth i lawr.

CWYN Y GWYNT

Cwsg ni ddaw i'm hamrant heno,
  Dagrau ddaw ynghynt.
Wrth fy ffenestr yn gwynfannus
  Yr ochneidia'r gwynt.

Codi 'i lais yn awr, ac wylo,
  Beichio wylo mae ;
Ar y gwydr yr hyrddia'i ddagrau
  Yn ei wylltaf wae.

Pam y deui, wynt, i wylo
  At fy ffenestr i ?
Dywed im, a gollaist tithau
  Un a'th garai di ?

Y WENNOL

Mae 'nghariad fel y wennol,
  Hed honno dros y don,
A gado'i hen gynefin
  Sydd yn yr ynys hon ;
Ond nid â'r wennol dros y lli
Heb ei hanwylyd gyda hi.

Gadawwyd finnau 'n unig,
  A'm llygaid fyth a deifl
Ryw olwg ddwys hiraethus
  Dros leision drumau'r Eifl ;
Tu hwnt i'r rhain mae'r môr a'i li,
A thros y môr mae 'nghariad i.

FY NGARDD

Mae gennyf fi ryw geinaf ardd
Bereiddied byth a breuddwyd bardd ;
  Ni welwyd dan yr heulwen,
    Er Eden, un mor hardd.

Mae lili'n gylch o amgylch hon,
A rhos sydd ynddi'n llwyni llon,
  A mefus aeddfed hefyd
    Mor hyfryd ger fy mron.

Dyrïau

Dwy ffynnon welir, glir a glân,
Yn loyw 'mysg y lili mân ;
O'u goleu, pan eu gwelais,
Y cefais ysbryd cân.

A goelit hyn pe gwelit ti
Y geinaf ardd sy gennyf fi ?
Dy ddrych a rydd it ateb—
Dy wyneb ydyw hi.

RHIEINGERDD

Main firain riain gain Gymraeg.—*Casnodyn.*

Dau lygad disglair fel dwy em
Sydd i'm hanwylyd i,
Ond na bu em belydrai 'rioed
Mor fwyn a'i llygad hi.

Am wawr ei gwddf dywedyd wnawn
Mai'r cann claerwynnaf yw,
Ond bod rhyw lewych gwell na gwyn,
Anwylach yn ei liw.

Mae holl dyneraf liwiau'r rhos
Yn hofran ar ei grudd ;
Mae'i gwefus fel pe cawsai 'i lliw
O waed y grawnwin rhudd.

A chlir felyslais ar ei min
A glywir megis cân
Y gloyw ddŵr yn tincial dros
Y cerrig gwynion mân.

A chain y seinia'r hen Gymraeg
Yn ei hyfrydlais hi ;
Mae iaith bereiddia'r ddaear hon
Ar enau 'nghariad i.

A synio'r wyf mai sŵn yr iaith,
Wrth lithro dros ei min,
Roes i'w gwefusau'r lluniaidd dro,
A lliw a blas y gwin.

CWYN YR UNIG

Dacw'r coedydd gyda'i gilydd
Yn rhyw ddedwydd lu,
Minnau yma 'n gwywo'n ara'
Mewn unigedd du.

Draw mae'r adar mân yn trydar
Oll yn llon eu llef ;
Pob aderyn gân ei emyn
I'w anwylyd ef.

Dyna seiniau llawen leisiau,
Clywaf bawb yn llon ;
Minnau'n ddistaw wedi 'ngadaw,
Trom a thrist yw 'mron.

Y CRYTHOR DALL

Pa fodd y cluda'r awel
Ryw leddf ac isel gainc
Trwy nwyfiant a llawenydd
Heolydd Paris Ffrainc ?

Hen grythor dall ac unig
O ryw bellennig fro
Sy'n canu dwys acenion
Ei dirion henwlad o.

Fy nghyfaill, pe baut yno
Yn gwrando ennyd awr,
Ti glywit "Forfa Rhuddlan,"
Ti glywit "Gyda'r Wawr ;"

Y dyrfa lon ddistawai,
Arafai ar ei hynt ;
Erioed ni chlywsynt ganu
Mor brudd a pheraidd cynt.

Ond wele, at y crythor
Gwr ifanc hawddgar aeth,
A chymryd, gyda'i gennad,
Y crwth o'i law a wnaeth,

A seinio arno odlau
Mwy peraidd fyth a phrudd,
Fel swŷn dyhëad awel
Fwyn dawel fin y dydd.

"Fy machgen, O fy machgen,"
Dolefai'r henwr dall;
Ei anwyl fab crwydredig
Colledig oedd y llall;

A'r tad ei hun fu'n dysgu
I'w gynnil fysedd gynt
Y gainc wylofus honno
A suai yn y gwynt;

Ac ni bu law ar dannau
A seiniai byth mor brudd
A pheraidd ei chyffyrddiad
Hen ganiad "Toriad Dydd."

MÔN A MENAI

Llon y gwenai
Afon Fenai
Gyda glennydd Môn ;
Coedydd tirion,
O, mor irion
Ddechreu'r haf y trôn'.
Mae dy wên fel tegwch Menai,
Tirf wyt ti fel gwanwyn Môn.

Yng nghanghennau
Irion brennau
Clir a phêr yw tôn
Adar llawen
Yn eu hawen
Gyda glennydd Môn.
Mae dy lais fel llais yr adar
Sydd yn canu 'nghoedydd Môn.

Mwy y'm denai
Môn a Menai
Nag y gallaf sôn ;
Mi ddychwelwn
Awn lle'r elwn
Fyth yn ol i Fôn.
Mwy y'th gerais di, f'anwylyd,
Mwy na Menai, mwy na Môn.

Y GWYLANOD

Rhodio glan y mor yr oeddwn,
Meddwl fyth am danat ti ;
Hedai cwmwl o wylanod
Buain llwyd uwchben y lli.

Troelli'n ebrwydd ar yr adain
Wnaeth yr adar llwyd-ddu hyn ;
Yn y fan, yngoleu'r heulwen,
Gwelir hwynt yn ddisglair wyn.

Bu fy nyddiau gynt yn llwydaidd,
Ac heb lewych yn y byd ;
Twynnodd gwawl dy gariad arnynt—
Gwyn a goleu ŷnt i gyd.

YN Y CWCH

Mewn cwch eisteddem, eneth wen,
Ar fynwes Menai dlos ;
Tywynnai yn y nef uwchben
Frenhines loyw'r nos.

Rhyw briffordd arian ar y don
O'n blaen a daflai hi ;
Ar hyd y briffordd honno'n llon
Y llithrem gyda'r lli ;

A'r cwch a gurai'r tonnau mân
Onid adseiniai'r rhain
O'n hamgylch megis adlais cân
Rhyw glychau arian cain.

O, na chaem deithio byth ynghyd,
Dan wenau'r nef uwchben,
Yn sŵn ariannaid glychau hyd
Ryw ffordd ariannaid wen!

SEREN Y GOGLEDD

Fe grwydra llawer seren wen
Yn y ffurfafen fry;
Ac i bob seren trefnwyd rhod,
Ac yn ei rhod y try.

O amgylch rhyw un seren wen
Y trônt uwchben y byd;
Ym mhegwn nef mae honno 'nghrog,—
Dïysgog yw o hyd.

Mae gennyf innau seren wen,
Yn fy ffurfafen i;
Holl sêr fy nef sydd yn eu cylch
Yn troi o'i hamgylch hi.

AR HYD Y NOS

Er tywylled ydyw'r ddaear,
Ar hyd y nos,
Gwelir llawer seren lachar,
Ar hyd y nos;
Bu ryw hirnos drom ar Gymru,
Ond bu iddi yn tywynnu
Lawer seren wen er hynny,
Ar hyd y nos.

Fel y gwyliwr ar y ceyrydd,
Ar hyd y nos,
Yn hiraethu am y cyfddydd,
Ar hyd y nos,
Felly yr hiraethodd Cymru
Am yr adeg i'w gwaredu
O'r tywyllwch fu'n ei llethu,
Ar hyd y nos.

Rhaid i'r dydd o'r diwedd wawrio,
Ar ol y nos;
Rhaid i haul y nef ddisgleirio,
Ar ol y nos;
Wele'r wawr ar Gymru'n torri,
Fe ddaw'r huan llon i'w llenwi
O lawenydd a goleuni,
Ar ol y nos.

LILI LON

Gwelais lwyni gwynion drain,
Pob blodeuyn gwyn mor gain ;
Yn fy ngardd mae gennyf lili
Lanach, lanach na'r holl lwyni ;
Lili lon ydyw hon,
Lili lon ydyw hon ;
O, ni welais yn fy mywyd
Un mor hyfyd â hon.

Gwelais wledydd hardd eu drych,
A goludog wledydd gwych ;
Tecaf, mwynaf im o unman
Ydyw f'anwyl wlad fy hunan ;
Cymru lon ydyw hon,
Cymru lon ydyw hon ;
O, ni welais yn fy mywyd
Fro mor hyfryd â hon.

Dysgais lawer enwog iaith
Wedi llafur, myfyr maith ;
Godidocach iaith na'r cyfan
Yw fy heniaith i fy hunan ;
Heniaith lon ydyw hon,
Heniaith lon ydyw hon ;
O, ni ddysgais yn fy mywyd
Iaith mor hyfryd â hon.

Clywais gerdd a chlywais gân
Pob rhyw offer mawr a mân ;
Telyn, telyn gwlad y bryniau,
Mwyna'i sain i'm mynwes innau ;
Telyn lon ydyw hon,
Telyn lon ydyw hon ;
O, ni chlywais yn fy mywyd
Ddim mor hyfryd â hon.

Gwelais lwyni gwynion drain,
Pob blodeuyn gwyn mor gain ;
Yn fy ngardd mae gennyf lili
Lanach, lanach na'r holl lwyni ;
Lili lon ydyw hon,
Lili lon ydyw hon ;
O, ni welais yn fy mywyd
Un mor hyfryd â hon.

YR HAUL A'R GWENITH

Un o ddychmygion Henry Rees

Ar gae o wenith tremiai'r haul i lawr :
" Wyt ddigon glas dy wedd," medd ef, " yn awr ;
" Ond dal i edrych yn fy wyneb i,
" Mi ddaliaf innau i edrych arnat ti ;
" Ac yna byddi'n gwenu ag wyneb cann
" Un lliw a'm hwyneb innau, yn y man."

TI F'ANWYLYD YW 'MRENHINES

Ti, f'anwylyd, yw 'mrenhines,
Minnau yw dy deyrnas di ;
O, f'anwylyd, dychwel ataf,
Gweddw hebot ydwyf fi.

Yn fy nghalon mae d'orseddfainc,
Gwag yw honno hebot ti ;
Tyrd i lenwi'r gwagle anial
Sy'n diffeithio 'nghalon i.

Anllywodraeth sy'n dy deyrnas,
A rhyw gynnwrf hebot ti ;
Eistedd eilwaith ar d'orseddfainc,
Estyn dangnef drosti hi.

Os dychweli, fe dry'r cynnwrf
Yn orfoledd ynof fi ;
A dylifo wna'm serchiadau
Allan oll er d'arfoll di.

O, f'anwylyd dychwel ataf,
Gweddw hebot ydwyf fi ;
Ti, f'anwylyd, yw 'mrenhines,
Minnau yw dy deyrnas di.

YR AFON YN Y COED

'R wy'n cofio'r nos y safem
  Ar ben y bontbren draw,
A'r afon fach yn ddedwydd
  Yn llithro is ein llaw.

Y coed yn dduon dduon,
  A'r afon hithau'n wen,
Lle twynnai'r lleuad arni
  Trwy frigau'r coed uwchben.

Rhoist imi lân gusanau,
  A'r lleuad wen yn dyst ;
Sibrydais eiriau dedwydd
  Yn glodrydd yn dy glust.

Breuddwydiaf eto'n fynych
  Fy mod yn gweld y fan,
A'th wyneb annwyl dithau
  Yngoleu'r lleuad gann ;

Mi wela'r duon goedydd,
  Mi wela'r glaerwen donn—
Ynghanol dyddiau duon
  Rhyw orig wen oedd hon.

SEIRIOL A CHYBI

Seiriol Wyn a Chybi Felyn—
Mynych fyth y clywir sôn
Am ddau sant y ddwy orynys
Ar dueddau Môn.

Ynys Cybi 'm Môr Iwerddon,
Trosti hi'r â'r haul i lawr;
Ynys Seiriol yn y dwyrain
Tua thoriad gwawr.

Seiriol Wyn a Chybi Felyn—
Cyfarfyddynt, fel mae'r sôn,
Beunydd wrth ffynhonnau Clorach
Yng nghanolbarth Môn.

Seiriol, pan gychwynnai'r bore,
Cefnu wnâi ar haul y nef;
Wrth ddychwelyd cefnai hefyd
Ar ei belydr ef.

Haul y bore'n wyneb Cybi
A dywynnai'n danbaid iawn;
Yn ei wyneb y tywynnai
Eilwaith haul prynhawn.

Wyneb Cybi droes yn felyn,
  Wyneb Seiriol ddaliai'n wyn ;
Dyna draetha'r cyfarwyddyd
    Am y ddeusant hyn.

Mi ni wn ai gwir yr hanes,
  Ond mae'i faich yn wir o hyd ;
Dengys anghyfartal dynged
    Dynion yn y byd.

Caiff y naill, aed ffordd yr elo,
  Mewn cysgodion rodio'n rhydd ;
Rhaid i'r llall o hyd wynebu
    Pwys a gwres y dydd.

Y MORGRUG

Aeth Culwch, cefnder Arthur,
  At Ysbaddaden Gawr,
I erchi 'i unig eneth,
  Sef Olwen deg ei gwawr.

Erioed ni welwyd geneth
  Mor lân â'r eneth hon—
Ei gwallt fel blodau'r banadl,
  Ei gwddf fel ewyn tonn.

Ac Olwen deg y'i gelwid
O ran, lle sangai'r ddôl,
Fe dyfai yno bedair
Meillionen *wen* o'i *hôl.*

Edrychodd Ysbaddaden
Yn sarrug ac yn erch :
"Pa fodd y meiddi ddyfod
"I erchi i mi fy merch ?

"Ni cheffi byth mo'r eneth
"Heb wneuthur imi hyn :
"A wel' di megis braenar draw
"Yn goch ar ochr y bryn ?

"Pan gyfarfûm i gyntaf
"Â dinam fam y fun,
"Had llin a hëwyd ynddo—
"Ni thyfodd eto'r un.

"Dwg hwn i'w hau bob hedyn
"(Mae'r cyfrif gennyf fi) ;
"A'i wau'n benllïain gwyn i'm merch
"I'w neithior hi a thi."

* * *

Rhyw ddiwrnod, pan oedd Gwythyr—
A marchog dewr oedd ef—
Yn rhodio'r bryn, fe glywai
Ryw wan wylofus lef.

Ac wedi syllu ennyd,
Fe welai'r grug ar dân,
A'r ṭan yn araf gropian
At nyth y morgrug mân.

Dadweiniodd yntau'i gleddyf,
A thorrodd dan y nyth ;
A'i godi wnaeth a'i gludo i fan
Na ddelai'r fflamau byth.

" Boed iti," meddynt, " fendith
" Y nef, a'n bendith ni ;
" A'r peth nis gallai dyn sy fyw
" A wnawn yn dâl i ti."

Ac yna'r aeth y morgrug
I'r cae yn fyddin gref,
A dwyn yr had a wnaethant
Yn gryno iddo ef.

Un hedyn oedd yn eisiau,
Nad oeddynt yno'n llwyr ;
A'r hen forgrugyn cloff a ddaeth
A *hwnnw* cyn yr hwyr.—

Ar ddydd priodas Culwch
A'r feinir eglur wen,
'R oedd gwe o liain fel y gwawn
Gan Olwen ar ei phen.

YR AFONIG

Mae 'nghalon, lân afonig,
Yn dilyn dawns dy li ;
A dedwydd iawn wyf innau—
Dy gân a'm llonnodd i.

A dedwydd iawn wyf innau
Yn canu gyda thi ;
Mae llon feddyliau ynof
Yn dilyn dawns dy li.

Mae llon feddyliau ynof—
Dy gân a'm llonnodd i ;
Mae 'nghalon, lân afonig,
Yn canu gyda thi.

FY MREUDDWYD

Breuddwydiais—paid a digio dro—
Fy mod yn caru dwy ;
Ni welwn ragor yn fy myw,
Na dewis rhyngthynt hwy.

Ni charwn un yn llai na'r llall,
Ni charwn un yn fwy ;
Ac mewn rhyw benbleth faith y bum
Y nos o'u hachos hwy.

Ond wedi deffro gyda'r dydd,
Mi chwerddais,—canys pwy
Dybygit oeddynt ?—Wel, tydi
Dy hunan oedd y ddwy !

SYR LAWRENS BERCLOS

'R oedd Cymru wen yn dechreu 'mysgwyd
Dan gadwyni heyrn y Sais ;
Od oes raid i'r Sais orthrymu,
Oes raid i'r Cymro ddioddef trais ?
"Na raid," medd Glyn Dŵr yn ffyrnig,
A chododd Cymru wrth ei lais.

Yr adeg hon, 'r oedd gwr bonheddig
Yn tramwy Cymru gyda'i was ;
Gŵr anarfog oedd, ac estron,
Ond fe hoffai, ym mhob plas,
Glywed am Lyn Dŵr a holi
Pwy oedd ei ffrind a phwy ei gas.

Fe ddaeth i blas Syr Lawrens Berclos,
Llefarodd yn nhafodiaith Ffrainc ;
A mawr y croeso gafodd yno,
Fe'i rhoddwyd ar yr uchaf fainc ;
Hyfryd, hyfryd fu'r ymddiddan,
Llwyr y canwyd llawer cainc.

"Cyn hir, 'r wy'n disgwyl," medd Syr Lawrens,
"Gweld Glyn Dŵr gynllwynwr mall;
"Mae pawb o'm gwŷr dan dwng i'w ddala
"A'i ddwyn ef yma gynta' gall."
"Gwaith da fai dïogelu hwnnw,
"Od oes a allo," medd y llall.

Ni chyfarfu Lawrens Berclos
Â gŵr bonheddig, yn ei oes,
Ail i hwn ym mhob syberwyd,
Pob rhyw geinder, mwynder moes.
Deisyfodd arno'n daer i dario,
A phedwar diwrnod yr ymdroes.

Wedi rhodio, ymddifyrru
Yn y ddawns ac wrth y bwrdd,
Fe ddaeth yr awr i'r gŵr ymado—
Gobeithiai Lawrens eto 'i gwrdd;
Rhoes yntau 'i law a'i ddiolch iddo
Wrth gychwyn gyda'i was i ffwrdd:

"Diolch am dy holl ledneisrwydd,
"Am bob rhyw fwyniant, pob rhyw fri;
"O barth i'th fwriad dithau ataf,
"Dyma'm llaw a'm llw i ti
"Na chofiaf mono, chwaethach dial—
"Yn iach," medd ef, "Glyn Dŵr wyf fi!"

Fel y gwelaist gysgod cwmwl
  Yn diflannu dros y bryn,
Felly'r aeth Glyn Dŵr a'i gyfaill,
  A Lawrens mewn mudandod syn ;
Ac ni chadd Lawrens byth ei barabl,
  Os gwir yr hanes, wedi hyn.

PA LE MAE GWEN?

Glas ydyw'r awyr,
  A'r ddaear sy werdd,
A phob rhyw aderyn
  Yn canu mwyn gerdd,
Tywynnu mae'r heulwen
  Yn gannaid uwchben,
A minnau'n pryderu
  Pa le mae fy Ngwen.

Nid ydyw na'r awyr
  Na'r ddaear i mi,
Na'r heulwen na'r adar
  Yn ddim hebddi hi ;
Nid oes yn eu lloniant
  Ond somiant a sen,
A minnau'n pryderu
  Pa le mae fy Ngwen.

A weli di, heulwen,
O'th awyr las di,
A ddwedi di, ddaear,
Pa fan y mae hi ?
Ehed, yr aderyn,
O frigyn y pren,
A chân iddi 'nghwynion.—
Na, dacw fy Ngwen !

Glas fyddo'r awyr,
A'r ddaear fo werdd,
A phob rhyw aderyn
A gano 'i fwyn gerdd,
Tywynned yr heulwen
Yn gannaid uwchben ;
Caf finnau ymlonni
Yng nghwmni fy Ngwen.

Y CWMWL

Mae 'r eigion fel yr arian draw
Gan belydr haul y nef,
A chwmwl ar yr haul ei hun
Yn cuddio'i wyneb ef.

F'anwylyd, pan ddaeth cwmwl gynt
Am ennyd rhyngom ni,

Tywynnai ar fy nghof o hyd
Dy hyfryd wenau di.

Daeth awel o ddeheuwynt teg,
A'r cwmwl dudew ffoes;
A goleu pur dy eglur wedd
Sy fyth yn heulo f'oes.

ARIANWEN

Pan ganai'r adar ar y pren
Y wen Arianwen roed
I orwedd mwy mewn pridd a main,
Yn rhïain ugain oed.

Ei thad a'i mam yn ymdristau,
Llifeiria'u dagrau dwys;
A llawer sydd yn llaith eu grudd
Roi honno'n gudd dan gŵys.

Ond ni wybuant archoll un,
Pan roed y fun i fedd;
Ar hwnnw 'n wir ni sylwodd neb
Na'i wyneb gwael ei wedd.

YR HWYR TAWEL

Mae'r ddaear yn tawelu,
A'r haul yn cyrchu 'i wely
Dros eang feysydd Môn ;
A'r adar mân ni chlywir mwy,
Distawsant hwy a sôn.

Mae Menai'n huno'n dawel,
Ni chofia am un awel
Fu gynt yn blino'i lli ;
Heb arni ol na chraith na chrych,
Fel drych yr edrych hi.

A'r badau ar ei minion,
Â hwyliau swrth a blinion
Yr hepiant hwy mewn hedd ;
A thawel ydyw'r fynwent draw,
A distaw ydyw'r bedd.

Ac yno dan wyrdd gangau
Yn huno hun yr angau
Mae annwyl rai i mi ;
Ac effro iawn, a'm dagrau'n llyn,
Wrth gofio hyn, wyf fi.

DUW CADW'N GWLAD

Ar ol William Watson

Duw, cadw'n hannwyl wlad,
Duw, cadw Gymru fad,
Duw, cadw'n gwlad ;
Rhag newyn a rhag plâu,
Rhag cledd a'i ddychrynfâu,
Rhag gormes a phob gwae,
Duw, cadw'n gwlad.

Duw, dyro farwol glais
I bob cam fraint a thrais
Sy'n llethu'n gwlad ;
Mae'r beilchion ym mhob man
Yn gwledda ar bwys y gwan ;
Duw, dwg y tlawd i'r lan ;
Duw, cadw'n gwlad.

Ni phery bri na nerth ;
Cyfiawnder sydd o werth
I godi gwlad ;
Os araf deg y daw,
Pan ddêl ni chilia draw ;
Duw, llwydda'i ffordd rhag llaw ;
Duw, cadw'n gwlad.

Duw, cadw'n hannwyl wlad,
Duw, cadw Gymru fad,
Duw, cadw'n gwlad ;
Er myned heibio i gyd
Deyrnasoedd mawr y byd,
Duw, cadw Gymru o hyd ;
Duw, cadw'n gwlad.

LLYTHYRAU

AT O.M.E.

I

Mehefin 1886.

* * *

Mi wela'r Wyddfa draw yn las,
A glas yw'r awyr hithau,
Ac ar y chwith mae Menai'n las,
Gwyrddlasach tua'r glannau,
Lle teifl y coed eu glesni glwys
Ar lesni dwys y tonnau.

* * *

Gyr imi hanes, gynnes gân,
"Morynion glân Meirionydd,"
Fel yr addewaist imi'r pryd
Y'u gwelit gyd a'i gilydd;
Mi ganaf innau ganig lon
Am lannau'r afon lonydd.

Ac hefyd am forynion Môn
Y clywaist "sôn am danynt,"

Pan gaffwyf brofi peth o'r gwin
Ar fin rhyw un ohonynt,
A mwy na darn o un prynhawn
I ganu'n iawn am danynt.

II

Rhagfyr 1886.

I Fynwy fawr o'r Fona fau,
O lannau Menai lonydd
I lannau Hafren lydan lon,
At union bert awenydd,
Cyfeirio cerdd am gerdd a wnaf,
Os medraf, megis mydrydd.

Yr oedd dy awen degwen di,
Pan ganai hi ers dyddiau,
Yn chware'n nwyfus ac yn llon
Ar hyd y tynion dannau,
Â bysedd ysgeifn iawn, a'i llais
"Fel adlais nefol odlau."

Ond mae yr awen feinwen fau
Dan ocheneidiau 'n nychu—
Yr eira ar Eryri wen,
A'r awen bron a rhynnu ;
Ac yn fy myw ni fedrwn i
Gael ganddi gynnig canu.

Hiraethu mae am dywydd braf,
Am haf a mis Mehefin,
A thyner chwa i gusanu'i min,
A'i hafaidd hin gysefin ;
Er hyn, os gall, hi byncia dro
Ryw eco yn y ddrycin.

Pan geisiodd ddwaethaf eilio cerdd,
'R oedd daear werdd o'i hamgylch,
A Menai'n gwenu'n nhywyn haul,
Ac araul las awyrgylch ;
Yr heulog haf amryliw cain
Ddisgleiriai'n wiwgain ogylch.

Nid oes yn awr ond daear wen,
A nen a Menai dduaf ;
Fy Menai arian, lân, liw tes,
A'i chynnes wên Orffennaf—
Yn awr hi dremia gyda gwg,
Haearnaidd gilwg arnaf.

Er hyn i gyd, mi godais
Gyda'r wawr ;
Trwy eira yr anturiais,
Gyda'r wawr ;
A thrwy'r gaeafwynt oerddig,
Ac at y llyn cloëdig,
A gwelais deg enethig
Yn llwybro yno'n unig, gyda'r wawr.

Eisteddodd ennyd wrth y llyn
I siarad gair â mi ;
Rhois innau'r llithrell dan ei throed,
Ysgafndroed, hoywdroed hi.

Ac yna gwibio freichfraich
Hyd wyneb llathr y llyn ;
Ehedeg yma ac acw
Ar draws, ar hyd y llyn ;
Anghofio oerwynt gaeaf,
Anghofio'r eira gwyn.

Ac wrth i ni brysuro'n
Gyflymach ar ein hynt,
Ei lliwddu wallt chwareuai
Yn ddifyr yn y gwynt,
A'r gwynt yn paentio'i deurudd
Yn gochach fyth na chynt.

Dywedodd, wrth ymado,
Na chawn mo'i gweled eto
Tan yr haf a than y caf
Droi adre'r amser honno.

A phan ddaw'r atgof imi
Na wela'i 'rhawg mohoni,
"Tros fy ngran, ledchwelan lif,"
Rhed dylif hylif heli.

* * *

III

Rhagfyr 6, 1889.

Aeth llawer diwrnod dros fy mhen
O heulwen a chymylau,
Mi welais wenau'r byd a'i ŵg—
Ond mwy o'i ŵg na'i wenau—
Er pan ges weld dy wyneb llon
I dirion wrando d'eiriau.

Ac yn y misoedd meithion hyn
Un emyn ni chylymais,
Na chân na salm ni chenais i,
Na rhigwm ni rigymais ;
Anghofiodd fy neheulaw'n lân
Y gynnil gân a genais.

Pan oedd pob pren o brennau'r maes
Yn llaes ei fantell werdd,
A phob aderyn yn y llwyn
Yn gorllwyn melys gerdd,
A'r ddaear dan ei chwrlid gwyrdd
A'i myrdd o flodau mân,
Yr oeddwn i mewn cyni maith,
Heb afiaith chwaith na chân.

Distawodd cerdd y llwyn yn awr,
Diflannodd gwawr y rhos,
Fe gwympodd dail fe giliodd haf,
Daeth gaeaf a daeth nos.

Rhyw lili'r eira ydwyf fi,
Ond bod y lili'n dlos,
Neu eos, heb ei miwsig hi,
Yn canu yn y nos.

Pa fodd y canaf it fy hynt ?
Fy helynt a fu flin ;
Mi ges o wermod gwpan llawn,
A chydig iawn o win.

Ni wn paham y canwn am
Y wermod ar fy min ;
Ac mae i ti athrylith gref
A wybydd am y gwin . . . .

* * *

Gan hynny'n awr distewi wnaf,
Ni chanaf yn ychwaneg,
Ond imi gael gan fawr ei glod,
Wr hynod y ddwyfronneg,
Dy fod ar fedr ymweld ar frys
Â'r ynys ar y waneg.

Ac os i Ynys Fôn y doi,
(A pham na ddoi di weithion ?)
Mae aelwyd ŵyl a rydd i ti,
Os coeli, groeso calon ;
Hyd hynny derbyn gyfarch cu
Dy gyfaill gyd a'i gofion.

ENGLYNION

MOES

Moes gusan mwynlan i mi ;—ac ar hyn,
Rhag i'r rhodd dy dlodi,
Cei gan cusan am dani—
Dyna dâl am dy *un* di!

IAITH Y BLODAU

Pan rodiaf harddaf erddi,—e sieryd
Siriol flodau'r llwyni
Am dy wedd, fy nyweddi,
Hawddgared, teced wyt ti.

Dyna'r ddwys liwlwys lili,—hyawdl iaith
Am dy liw sydd iddi ;
A'r rhos tan wrido'n honni
Hardded yw dy ddeurudd di.

Pob un yn teg fynegi—ei ganiad,
Ac yna'n ymroddi
Yn un côr i'th glodfori—
"Onid teg y lluniwyd hi?"

DAFYDD LLWYD SIÔR

1903

Dafydd Llwyd a fedd y llu,—Siôr enwog
Sy arweinydd Cymru ;
Dwyn ei genedl dan ganu
I 'mosod ar ormes du.

Dafydd Llwyd a faidd y llu—a gyfyd
O ogofau'r fagddu ;
Ni cha'r fall â'i holl allu
Ol ei garn ar Walia gu.

IEUENCTID

Llawn hyder llon ydyw'r llanc,—syberw yw
Yn ei asbri ieuanc ;
Edrych am hoender didranc,
Heb un drwg, heb enw o dranc.

HENAINT

" Henaint ni ddaw ei hunan ";—daw ag och
Gydag ef, a chwynfan,
Ac anhunedd maith weithian,
A huno maith yn y man.

CYWYDDAU

CYWYDD HIRAETH

a ganwyd ar gais Cymdeithas Dafydd ap Gwilym ar ol Cymdeithion a'i gadawsai, 1887

Dwyfol y canai Dafydd
Am y gog ac am y gwŷdd,
" A mwyn adar a'm carai,
" A merch a welais ym Mai ; "
Am Forfudd a'r gwallt rhuddaur,
Y gwallt melynach nag aur.
Hiraeth trwstan am dani
Oedd ei ddyri hebddi hi ;
A'i gywydd yn y gaeaf,
Hiraeth am wên heulwen haf.
Amled yr ydoedd trymlef
Hiraeth yn ei araith ef—
" Hwn a'm gyr heno i'm gorwedd :
" Hiraeth, myn Mair, a bair bedd. "

Hiraeth blin sydd i minnau
Am gyfeillion mwynion mau ;
Hiraeth am yr Archdderwydd—
O, am wên yr awen rydd

I mi i ddisgrifio modd
Y medrus lyfn ymadrodd ;
Imi ganu am gynneddf
Y llais a'r parabliad lleddf,
A'r dull digrifbert o wau
Y dedwydd ddywediadau.
Ond pa un all adlunio,
Pa ddyn ei wymp ddoniau o ?
Ni cheisiaf, ni fedraf fodd
I'w mydru ; gwell im adrodd
Enghraifft o eiriau anghryg
Dafydd ar ol Gruffudd Gryg :
" Tros fy ngran, ledchwelan lif,
" Try deigr am ŵr tra digrif ;
" Lluniwr pob deall uniawn,
" A llyfr cyfraith y iaith iawn."
Ond dan fy mron i'm llonni,
Y mae gobaith, â'i hiaith hi,
Yn ateb y cawn eto,
Ar ol ei daith hirfaith o,
Ganfod y teg awenfardd
Yn Rhydychen hên a hardd.

Dyfnach erchach ein harcholl
A'n cŵyn am gymdeithion coll.
I. O. Thomas aeth ymaith ;
Do, do, gwelodd ben ei daith ;
Ei drigfan sy'n y drygfyd,
Efô 'n sancteiddio'r hen fyd.

Iê, W. D. hefyd aeth ;
Ond dilys erys hiraeth,
A'i Hiraethgan wiwlan o
Yn dôn er cof am dano.

Ymaith aeth Owen Bencerdd,
" Primas ac urddas y gerdd ;
" Edn glwys ei baradwyslef,
" Aderyn oedd o dir Nef. "
Collodd ein cerdd bencerddor
A'i lais mwyn fel su y môr.
Pwy wêl gantor hefelydd
I hen ganiad " Toriad Dydd " ?
Pwy gân cyn fwyned wedyn
Unwaith gerdd " y Gwenith Gwyn " ?

Bellach, f'awen a ballawdd ;
Yn hwy ni chanaf yn hawdd.
Bydded pob rhwydd-deb iddynt
I'w llwyddo oll, a hawdd hynt.

CYWYDD PRIODAS

OWEN M. EDWARDS

Mehefin 19eg, 1891

Llyna haf llon i hoywfardd,
A llyna fyd llon i fardd ;
Llawen lawen, Owen, wyt,
O, ddedwydd ddedwydd ydwyt.
Llonned y wledd, llawn dy lys—
Mi 'n unig ym Môn Ynys,
A dychmygion llon a lleddf
Yn gwanu pob rhyw gynneddf :
Cofio am aur oriau'r Rhyd,
A dyddiau'r hen ddedwyddyd,
Oriau gwyliau Ap Gwilym,
Areithiau llon, ffraeth a llym ;
Hwyl dirion mewn gwlad arall,
Ac mor Gymreig ym mro all.

Arweiniwyd rhai o honom
O'r oreu dref ryw awr drom ;
E fu wedyn ddyfodiad
I rai i lon dir y wlad
Gyrhaeddir wedi'r adwy—
Heddwch mawr dedwyddwch mwy.

D. M. a aeth—dyma un ;
Gwelodd enethig wiwlun

A'i denodd â'i dewiniaeth,
Ac ef a'r fun yn un aeth.

T. G. hefyd, ti gofi,
Ganai 'n hên ganuau ni,
Bynciai ganiad "Toriad Dydd"
Yn hwyliog ddihefelydd,
A dodi 'i brofiad wedyn
Yn iaith goeth "y Gwenith Gwyn."
Iddo torrodd dydd terwyn,
A Th. G. gadd wenith gwyn.

Dyna Bulston radlonair
Aeth o'u hôl, ŵr ffraeth ei air.
Nid yw'n eilio'r dôn "Elwy"
Ar sain "y Bachgen Main" mwy ;
Yn awr aeth yn ŵr i'w Wen,
A chawr bochgoch yw'r bachgen.
Gadawodd y wers bersain
Yn gân i mi, fachgen main.

Goreuddyn hygar heddyw
Aeth i'r wlad wen, Owen yw.
Pe'm holid pam mae heulwen
Heddyw i gyd yn hardd a gwen,
Ac anian, pam y gwena,
Pam mae'n llafar adar ha',
Buan iawn atebwn i,
'Eu brawd sydd i'w briodi,

'Adwaenai lendid anian,
'Garai'r adar mwynwar mân.'
Mae fy mron innau'n llonni,
Bu'n gyfaill mwyn, mwyn i mi;
A'i eiriau gwâr a gerais,
A'i wên lon, addfwyn, a'i lais.
Cofio'r wyf i mi'r hiraeth
A fu'n wir, yn hir, pan aeth
Ar led i dramor wledydd;
Erchais 'wên yr awen rydd
'I mi i ddisgrifio modd
'Y medrus lyfn ymadrodd,
'I mi ganu am gynneddf
'Y llais a'r parabliad lleddf,
'A'r dull digrifbert o wau
'Y dedwydd ddywediadau.'
Cofiais iaith, "ddwbliaith ddyblyg,"
Dafydd wedi Gruffudd Gryg—
"Lluniwr pob deall uniawn,
"A llyfr cyfraith y iaith iawn."

Mwy, Elin, ŷe, milwaith,
Na gair fy ngwan egwan iaith,
Nac amcanion dynion doeth,
A gefaist heddyw o gyfoeth.
Am aur clogwyni Meirion,
Neu blasau heirdd, ba les sôn?
Gyfoeth i'w ebargofi,
Werthid er dim wrth d'ŵr di.

Chwiliwch yn ystig ddigoll
Am ryw un drwy Gymru oll,
A geir un mwy rhagorol ?
Nid ych yn nes. Dowch yn ôl.

Onid cyfion oedd lonni
Elin deg o'th galon di ?
A thrysor i ragori
(O Elin deg, bydd lon di !)
Ar ei ddawn lawn goleuni,
Ar enw a dysg yw'th ran di.
Gwir gariad gŵr a geri,
Decaf ystad, gefaist ti.

Oreu gŵr fe ŵyr garu,
Carodd ei " wlad, geinwlad gu " ;
Yn fore, rhoes i Feirion,
Euraid fro, gariad ei fron ;
Gwelodd Wen liw goleu ddydd
Hyd fryniau gwlad Feirionydd,
Ac eilwaith ei holl galon
A'i carodd hi, lili lon.

Morynion bro Meirionydd—
Ba raid sôn ?—yn hoywbryd sydd,
Yn hyfryd lân rianedd
Fal blodau'r drain, gain eu gwedd.
Ymysg y drain eiriain, hi,
Y loyw Elin, oedd lili.

Nid yw clod (cefaist glodydd—
Enw a saif, it, Owen, sydd),
Nid yw aur bath, na da'r byd
I'w ddymuno ddim ennyd ;
Ac afraid yw ei gyfri
Wrth dy wyn flodeuyn di.
Wele Elin, dy lili,
Yn eiddo teg heddyw i ti.

Onid cyfion oedd lonni,
Owen, o'th fron dirion di ?
A mwy fil na'i phryd lili,
A'i golwg ŵyl annwyl hi,
Oedd gariad merch a serchi ;
Eithr hynny, daeth i'th ran di.

Gwyddost gyfrin ddoethineb
Lawer, yn llwyr, na ŵyr neb ;
A oes dim a wyddost ti
Ar gariad yn rhagori ?

Hyfryd yw y fro dawel,
Llyna fan yn llawn o fêl ;
Y ddeuddyn hwyliodd iddi,
Hudol oedd, a'm gadael i.
Minnau i'r ddau ddymunaf
Fyth yno wên heulwen hâf ;
Bydded tiriondeb iddynt,
A Duw yn nawdd, a hawdd hynt.

CYWYDD PRIODAS

W. LLEWELYN WILLIAMS

Gynt o Goleg y Trwyn Pres, Rhydychen, a chynt Arch-arogldarthydd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym; y pryd hynny yn Olygydd 'Seren y Deheu'; yn awr yn Seneddwr dros Fwrdeisdrefi Sir Gaerfyrddin.

Rhyw lon newyddion heddyw
Yrrwyd im—a hyfryd yw.

O'm da ethol gymdeithion,
Ac ni bu un llu mor llon,
Y llonnaf oll ohonynt,
Heddyw llonnach yw na chynt.
A mi'n aros mewn hiraeth,
Mewn oer gŵyn yma'n rhy gaeth,
Mewn hiraeth am hen oriau,
A chyfeillion mwynion mau,
Hiraeth am gwmni goroff,
A chŵyn am Rydychen hoff.

Oriau, dyddiau dedwyddion,
Rhy ddedwydd i brydydd bron!
O, hen ddyddiau rhy ddiddan—
Cofiaf yr addfwynaf fan;
Cyrddau gwyliau ap Gwilym,
A'u llond o ffraethineb llym;
Llu dírif o fellt eiriau
O gylch y cwmpeini'n gwau;

Pob ystŵr, pawb a'i stori—
'D oedd neb mor ddedwydd a ni.

Siarad am hen amseroedd,
A beirdd byd, a hyfryd oedd ;
A mwyn iawn darllennem ni
Gu harddaf rieingerddi.
O, pe gwelai Ap Gwilym,
Ennyd, y llon fwynhad llym—
Ap Gwilym, edlym odlau,
Fwyn ei gerdd, a fu'n eu gwau.

O bob rhyw hardd fardd a fu
Erioed yn diddan brydu,
Neu fwyn sôn wrth fun ei serch,
Neu gwynfan am ei geinferch,
Ni bu erioed neb o rym,
Neb o galibr Ab Gwilym.

Prydydd i'w lwys Forfudd fu,
Ac i hon bu'n hir ganu :
" Prydydd i Forfudd f'eurferch
" I'm hoes wyf, a mawr yw'm serch ;
" Er yn fab, bryd eirian ferch,
" Y trosais iddi'm traserch."

A fu dyn o'n tyrfa deg
Yn gwrando cân gywreindeg
Ab Gwilym, heb i'w galon

Feddwl am ryw Forfudd lon
Yn rhywle'n yr oreuwlad,
Rhyw annwyl le'n yr hen wlad ?

Ond ofer fu serch Dafydd ;
Ni chadd ei Wen wych i'w ddydd.
I'w deg henaint y cwynwys
Ei hynt hir a'i somiant dwys :
" Hir oedi'm serch a'm rhydawdd,
" A byw o hyd ni bu hawdd.
" Dan fy swydd, lawer blwyddyn,
" Gorfod bod hebod, er hyn."

Ni bu'r galed dynged hon
Yn gwbl i'r hen ddisgyblion.
Diameu in, D. M. ŵyl
Oedd ddisgybl na chadd ddisgwyl,
Na'r Pencerdd hoywgerdd yn hir,
Na fynnodd yntau 'i feinir.
A phuraidd Archoffeiriad
Yn mynnu Gwen gymen gad,
Ac Archdderwydd dedwyddair,
A'r dôn leddf, a'r doniol air.
Daeth pob un o honun' hwy
Ymaith o'r Rhyd i dramwy ;
Ac wrth rodiaw yn llawen
Ar ei hynt yng Nghymru wen,
Cyfarfu â'r decaf Forfudd,—
Canu'n iach bellach ni bydd ;

Di ball eu mwynhad bellach,
Heb draha 'r un Bwa Bach.

Heddyw ym Môn rhyw sôn sydd
Wrthyf am Arogldarthydd
A aeth ac a wnaeth, yn wir,
Yr un modd a'r rhain, meddir.

Y llonnaf oll hwn a fu
O'r dilesg hygar deulu ;
Ac ef a faith gofiaf fi—
Ystyriaf ei ffraeth stori ;
Ac yn aml dychmygu wnaf,
Yn bur ddedwydd breuddwydiaf
Fy mod yn canfod y cylch
Yn ymgom fyth o'm hamgylch ;
Hyglod ŵr yr arogl darth
Yn didor greu ei dewdarth,
Ac aml y mae 'i gwmwl mwg
Yn ei gelu o'n golwg ;
Ond wrth ffrwd ei araith ffri,
Hynod bob gair o honi,
Wrth ei nâd a'i chwerthin o,
Adweinir ei fod yno.

A gwir iawn mai gŵr hynaws
A llon oedd, didwyll ei naws ;
Aml awr bu fawr fy hiraeth
Am wir ffrind, ac un mor ffraeth.

Wedi byr gerdded y byd
E welodd ei anwylyd ;
Ei anwylyd oedd Neli,
A'i Forfudd ddedwydd oedd hi ;
Ac o flodeu Deheudir
Ni welai ail Neli, wir ;
Neli oedd ei lili lon,
A Neli aeth a'i galon.

E gadd y lleill, gwiwddull wedd,
O geinaf flodau Gwynedd,
Neu bwysi teg Bowys dir,
Hyfrydwch penna'r frodir.

Oni welais mo Neli
Irdwf hardd, ni chredaf fi
Fod o fun yn Nyfed faith
Ail i Neli wen eilwaith.
E ŵyr y llanc geinder llun,
A Neli gaffai'n eilun.

Anwylodd ef ei Neli,
A cha'r tâl o'i chariad hi ;
Ca ryw nef o dangnefedd
Yn awr yn ei hinon wedd
A'i golygon hoywlon hi,
Ac yn heulog wên Neli ;
A Neli wen ei haul yw,
Hyn a wyddom ni heddyw.

Ef yn siriol fwyn Seren
Yn tywynnu bu uwchben
Ryw eirian belydr araul—
Yn Neli wen wele 'i haul.

A chaffed ef dangnefedd
Fyth yn llewych gwych ei gwedd;
A'i londer ef fo'n peri
Lonni o'i hoff galon hi,
I gynnal yn ei gwiwnef
Ei heulaidd wawl iddo ef.
A hyd byth, byth, felly bid
I Londer ac i Lendid.

Nac anghofiant chwaith, weithiau
I'w hoenedd oll, ffrind neu ddau
Mewn oer som yn aros sydd,
A du ofid fel Dafydd.
Ond er dim na rwystred hyn
Eu mwynhad un munudyn.

Bendithion haelion y nef,
A'i heddwch ar eu haddef!

Rhagfyr 1891.

AWDLAU

CYMRU FU : CYMRU FYDD

I wlad Gymru bu mil beirdd,—a'u mêl wawd
Aml ydoedd ; a phrifeirdd
Ynddi yn gwau odlau heirdd.

Wele, di gêst, wlad y gân,
Do, beraidd wawd y beirdd hên ;
Cefaist Ddafydd gywydd gwîn
Yn eu mysg, a Gronwy Môn.

Hen feirdd fu i Gymru gynt—
Oedd gynnes cerdd a genynt,
Annisbur odlau 'sbrydlon
Yn frwd o eigion y fron.

O, fal y cenid, o fawl acenion,
Gerddi dwys agwrdd i dywysogion,
Didlawd ofegwawd i bendefigion,
Hen wŷr i daro dros Gymru dirion,
Colli eu gwaed dan draed er hon,—wladgar
Wyr dewrwych, a hygar eurdorchogion.

Molai Taliesin
Urien ac Elffin
Gynt, ac Aneirin gant gân hiraeth—
Canu Gododin
"Cydwyr cyfrenin,"
Wylo am fyddin cytrin Catraeth.

Oer och oedd i Lywarch Hen
Alaru ar ol Urien ;
Eilwaith wedi Cynddylan
Erys co'i alarus gân :

"Stafell Gynddylan ys tywyll—heno,
"Heb dân heb gerddeu ;
"Dygystudd deurudd dagreu."

Meilir gynt, molai ar gân,
Cwynai ar ol Ap Cynan ;
Gwalchmai'n hoyw i'r gloyw ei gledd
A ganai—Owain Gwynedd ;
Cynddelw yn unddelw a wnâi,
Neu Gyfeiliog a folai ;
E gant Cyfeiliog yntau,—
Llyw oedd a bardd, llwydd ei bau,—
Ys moli aerweis Maelor,
Nifer gwych, yfwyr ei gorn.

I'w lyw y canai Lywarch
Ap Llywelyn—myn fy mharch ;

Godidog eurfant gantawr
Fu ef i Lywelyn fawr.

Bleddyn fardd a'i wawd harddaf,—a'r enwog
Ap yr Ynad gofiaf,
Os cofiaf y dewraf dyn,
"Llywelyn ein llyw olaf."

Nid oes i ni dywysog,
A gwir yw, wedi ei grog.
Walia wen, O, alanas!
Ei holaf lyw, ef a las.

O lwyr ing i wylo'r af,
I ddirgeledd ergiliaf,
Och! fy nhud, a chofio wnaf
Lywelyn dy lyw olaf.

Ar ol Llywelyn eraill a welaf,
Yn urdd o ryw gewri, feirdd rhagoraf.
Iolo Goch, ynad glew gwych a enwaf;
Engir ydd eiliodd wawd angerddolaf
Yn hwyrddydd ei oes harddaf—i Lyn Dŵr—
Mawr ddiffynnwr Cymru oedd a'i phennaf:

"Dyre i'n gwlad, dur iawn gledd,
"Deyrnaswr drwy ynysedd;
"Dyga ran dy garennydd,
"Dwg ni o'n rhwym dygn yn rhydd!"

Cofiaf gu harddaf gerddi—hael awen
Lewis o Lyn Cothi ;
Goleuddawn fawl arglwyddi,
Golud a nawdd ein gwlad ni,—
Dewr i'w gwàrchadw rhag archoll,
Neu gam ran, hen Gymru oll.

Yntau â'i gân a'u taniai,
Yn enw y Nef, hynny wnâi :
" Arth fry ydwyt wrth fradwr ;
" Tâl frad, trwy gennad un Gŵr."
I ryfela, dewr filwyr ;
Fuon' hwy, a chyfiawn wŷr :
" Ar gelwydd y gyr gilio,
" Ac ar y ffals y gyr ffo."
Gwŷr iawn a garai heniaith,
Gwŷr hael a garai eu hiaith :
" Yn y plas cwmpas y caid
" Brud heniaith y Brutaniaid."

Ein hiaith i'n bonedd heddyw,
" Barb'rous jargon " weithion yw ;
Sŵn traws y " peasant," a rhu
I'r " ignorant " i'w rygnu.

Bwy, fy ngwlad, yn geiniad gai
I philistiaeth a'i phlasdai,
Tref Gath a'i Goliathau ?
Am salmydd, Ddafydd neu ddau !

Uchel loyw-wawd, na chlywem !—sain hygar
I Seisnigaeth falchdrem ;
Rhydd eilier rhyw gerdd hoywlem—megis tân,
Hoyw brysur fo'r gân i breserfwyr gêm.

Rhown arwyrain aur-eiriog—am radau
Ein Nimrodiaid nerthog ;
Heliant gadarn 'sgyfarnog
Heb eiliw ofn, ac heb lôg !

Geir adrodd eu gwrhydri
A'u glewdid i'w hymlid hi ?

A dygwch ddethol folawd,
A pharch i chwareuon ffawd,
A dygwch i redegwyr
Ceffylau—a gorau gwŷr ;
Moeswch, llefwch yn llafar
Eu peraidd glod, giwdod gwâr !

Rhyw chwai eiriau rhy chwerwon ?
Chwerw, fy mrawd, a chur fy mron.
Hen fonedd a fu unwaith
I'n gwlad gu, loywed eu gwaith !
I'w lle daeth bonedd heddyw,
A'u goreu waith gware yw ;
Gware yw eu goreuwaith,
Ba waethaf eu gwaethaf gwaith ?

Yn rhyw garn Saeson trawsion y troesant,
A'r groyw-iaith wiwdeg Gymraeg wrthodant,
Sarhaus, trahaus y'i diystyrasant.
Eres trwy oesoedd eu gwlad rwystrasant,—
Yn lle'i llywyddu i wellwell lwyddiant,
O'u calon yn gyson dirmygasant
Ei holl ddyhewyd, ei chŵyn a'i mwyniant;
A'i chrefydd lwys, dwys y'i herlidiasant;
Un da o Walia welant:—y rhenti
Â rheibus egni o'r bau a sugnant.

Ond prif wyddfod
Yr Eisteddfod
Am aur y god, O Gymru! gânt;
Ac yn y lleoedd uchaf y safant,
Dieithr eu drych, odiaeth, yr edrychant,
A'u Saesneg carnbwl geciant—i foli
(Ys diwerth stori!) iaith ddiystyrant.

Adrodder teg, hardd-deg hynt,
A hanes un ohonynt.

Am ei ddawn ef, meddiannu
A chydio maes wrth faes fu;
Gormesu bu ar y bobl,
O dir cŷd myned a'r cwbl,
I'w feddu oll ef oedd abl.
I wirion tlawd yn aros
Yr oedd ochr ffordd a chwr ffos.

Daw rhyw wan truan un tro,
Ag amrant ŵyl, rhyw Gymro,
Yn isel iawn i geisio
Lle i'w fwth, y lleiaf fo ;
Gofyn darn i fyw arno
O annwyl dir ei wlad o !

A'r lleidr mawr, mor llawdrwm yw !
Rhyw gidwm terrig ydyw ;
'Dos,' medd ef, 'os dewisi,
'Yno dod dy fwthyn di ;
'Ac i'th arglwydd bob blwyddyn
'Rhoi'n rhent ryw hyn a rhyw hyn.'
Mwy yna o swm enwir
Na holl werth y diwerth dir.
'Ond cofia, daw y cyfan
'Yn eiddo i mi'n y man.
'Dos, fel hyn, os dewisi,
'I fyw'n rhad ar fy nhir i.'

O wron ! O wladgarwr !
O haelionus serchus wr !
" Oes genau na chais ganiad,
" A garo lwydd gŵyr ei wlad ?"

Awn ymlaen ddeugain mlynedd,
Y mawr fawr ysbeiliwr fedd
Faith dref a'r holl gartrefi
A wnaeth ei thrigolion hi ;

Ni fu raid i'w fawrhydi—godi maen,
Na rhoi ar faen un maen o'i meini.

Yna'r hocedwr cadarn
Aeth o fyd yn noeth i farn.

A ddywedwyd yn ddidwyll
Erioed am ei ddirfawr dwyll,
Am i'r gwr orthrymu'r gwan,
A'i hynaws garu'i hunan ?

Neu gadd yr arglwydd a'i lwyddiant—ei droi
Yn drist i fro'i haeddiant,
Bro gyfiawn ebargofiant,
Yn ddison, heb dôn, heb dant ?

Naddo ; eithr fe gyhoeddir
Eisteddfod hynod cyn hir ;
A rhennir cadair honno
Am ddidawl fawl iddo fo.
Gyda'r ferth gadair e fydd
Melynaur i'r moliennydd.

Yna'r beirdd er y wobr ddaw
I eiliaw cân o foliant ;
Yn ddilesg iawn ydd eiliant,—ei ddirif
Haelioni foliannant ;
Wedi gwau ei radau gant,
Ei haelioni ail enwant.—

Y wlad a'r tai ladrataodd,—yna
Ambell geiniog rannodd ;
Weithion ei waith (a thawn ni)
Heb wyrni Duw a'i barnodd.

Wenhieithwyr, gwybyddwch chwithau,—melltith
A malltod i'n ffroenau
Yw'ch odli gwag, a'i chwedl gau,
Anfadwaith eisteddfodau.

Ai er gwobr, neu am ryw ged
Yr wylodd Tudur Aled ?—
A hynny am wŷr uniawn,
Ac am wŷr oedd Gymry iawn.
Wedi'u marw dyma'i araith—
A mawr ei ofn am yr iaith—
" Duw gwyn, er digio ennyd,
" Ai difa'r iaith yw dy fryd ? "

Yr awr hon, nid er yr iaith—na'n cenedl
Hen y cawn gywreinwaith ;
Ond cawn aflerw oferwaith,
Lawer, er mael—gwael yw'r gwaith.

Iê'r wobr a â a hi,
A'r elw sydd yn rheoli ;
Rhyw genedl gaeth—saeth yw sôn—
Yma ŷm yn llaw Mamon.

Arglwyddi, yn wir, gwleddant
Yn segur ar gur rhyw gant ;
A beirdd sydd ofer gleriach
Yn brefu am ryw wobr fach ;
A gweision Iôn, hyn sy'n waeth—
Boddio am gydnabyddiaeth,
Neu ymladd am hen waddol,
A'r wir efengyl ar ol.

Am ysbryd dewr y cewri
Welid un waith i'n gwlad ni !
Ymosod ar bechodau,
Dinoethi pydrni ein pau ;
Pregethu'r Mab a'i aberth,
A'i fyw hardd, mwyaf ei werth.

Nid un budd, cydnabyddiaeth,—na degwm
A'u dug i'r filwriaeth ;
Taniodd Iôn eu calonnau
Â'i rasusau, hwythau aeth.

Nid rhyw ffurfiol reolau,—a dadwrdd
Gosodedig eiriau ;
Un allor na chanhwyllau,
Nid rhwysg gwag a rhodres gau.

Nid naddu diwinyddiaeth,—a hollti
Gwelltyn coeg athroniaeth,

A hedeg uwch gwybodaeth,
O olwg gŵr, i niwl caeth.

Ond yn goedd, argyhoeddi—y byd drwg
O bob trais drygioni ;
Ni wyrent genadwri
Crist ei hun—ein heilun ni.

A fu ail neu hefelydd,—neu goethed
Pregethwr y Mynydd ?
Paul oedd burion athronydd—
Ond awn at Ffynnawn y ffydd.

Hyd ddaear werdd bu'n cerdded,—a rhoes wir
Esiampl i'w dynwared ;
Ac athro fu 'mhob gweithred,
A geiriau *Crist* yw gwir Cred.

Ni ddaeth i ddiddymu'r ddeddf :
E roddes in oreuddeddf
Gyflawnach na'r ddeddf arall,
Fanylach, llymach na'r llall.
A nod angen ei gennad—
'A *wnêl* ewyllys fy Nhad !'
Pa le y mae gwŷr ëon
A faidd fynegi'r ddeddf hon ?

Ym mryn a dyffryn mae Cymru'n deffro—
'Mae y cyfryw oedd i'm cyfarwyddo ?

'Mae y dewrion, heb ofni ymdaro,
'El i wyneb y gelyn heb gilio—
'Wŷr o ffydd a'i gyr ar ffo?—mae'r cyfiawn?
'Mae im wŷr uniawn? Mae a'm harweinio?'

Eithr os du yw, na thristawn;
Mewn da bryd, cyfyd cyfiawn
I'th arwain o gaeth oror
I rydd wasanaeth yr Iôr;
Dwyn o aflan wasanaeth
Gau Famon feibion dy faeth:
E dyr gwawr, wlad ragorwen,
Nac wyla, O Walia wen.

Di fegi bendefigion,—oreugwyr,
Uchelwyr, â chalon
I'th garu, fy nglân fanon,
A charu 'th iaith, heniaith hon.

Ac fe ddaw it heirdd feirddion—i ganu
Gogoniant y cyfion;
Ac â newydd ganeuon,
A thanbaid enaid y dôn'.

Gwyr crefydd a geir, cryfion—yn nerth Duw,
Wrth y dyn, yn eon
Gryf a lefair air yr Iôn—
Ofni Duw'n fwy na dynion.

Ystryw ac anonestrwydd—celwyddog
Gladdant mewn gwaradwydd ;
Rhagrith diafl a'i bob aflwydd,
Gweniaith, ffug waith, ffy o'u gŵydd.

Ni bydd rhith lledrith anlladrwydd—drwot,
Distrywir pob arwydd ;
Gwlad ry eurglod i'r Arglwydd,
A thi'n wlad o faith iawn lwydd.

Ni thrig annoeth ddrygioni—ynod mwy,
Na dim ol gwrthuni ;
Nac anwybod na thlodi,
Yn wir, nid adwaeni di.

Ynod bydd pob daioni,—hoff bau deg,
A phob digoll dlysni ;
Pob gwybod a medr fedri ;
Aml fydd dy ddrud olud di.

Gras a dysg, oreu ystôr,
Ynod gaf yn dygyfor ;
Ba ryw wall a fydd i'm bro ?
Ba ddawn a'r na bydd yno ?

Geiriau annwyl Goronwy,
Yr awr hon fe'u gwirir hwy :
"Yn lle malais, trais, traha,
"Byddi 'n llawn o bob dawn da,

"Purffydd, a chariad perffaith,
"Ffydd yn lle cant mallchwant maith ;
"Yn lle aflwydd, tramgwydd trwch,
"Digon o bob rhyw degwch,
"Undeb, a phob rhyw iawnder,
"Caru, gogoneddu Nêr."

Dyma wlad wen ysblennydd,
O feirdd, wele Gymru fydd !

Och wŷr, na syllwch arni
Heddyw am ei bod ddu hi ;
Caeth yw, ac ar ei haraul
Hoff wedd hi y craffodd haul ;
Ac ym mro Aifft, Gymru wiw,
Os du wlad, ys telediw !

Bwy gei o'th feib, o gaeth fan,
A'th ddwg yna i'th Ganaan ?
Chwi feib awen, eleni,
Cyfodwch, cychwynnwch chwi :
I'r anghred rhodder enghraifft,
Rhodder her i dduwiau'r Aifft.

Cenwch ogoniant Canaan,
Cenwch ei phryd, gloywbryd glân ;
Amled ynddi lili lon,
A rhyw siriol ros Saron ;
Ac O, yr enwog rawnwin

A geir i'w gwinllannoedd gwin !
Gwridog o ryw deg aeron
Llwyni a pherllannau hon ;
A'i ffrydiau hoff a redodd
Laeth a mêl, helaeth y modd ;
O chenwch, cenwch bob cân
Ag wyneb tua'r Ganaan.

* * *

A gâr rhyw fab gwir ei fam ?
Un eilfydd i'w anwylfam ?
Minnau, ai hoff i'm henaid
Fal Cymru gu un fro gaid ?
Gweddw fam gynt a'm magodd fu,
Hon gerais os gwn garu ;
Gymru lân, wyt ychwaneg—
Chwaer wyt im, a chariad deg.
Pob rhyw aur, rhuddaur roddwn,
Mwy na gwerth pob meini, gwn,
Rhyw iesin feini crisiant,
Neu iasbis gwych hysbys gant ;
A pha'r oroff fererid,
Neu ba'r em fyddai'n rhy brid ?
Mwy na pherl, gem na phuraur,
Rhof iddi well rheufedd aur—
Rhoi'r fron a'r galon i gyd,
A'r llaw fau, a'r holl fywyd,
Pob myfyr pwyllig digoll,
Yn barod iawn a'm bryd oll :

Fy nyddiau rof yn addwyn,
Iẽ, rhoi'm hoes er ei mwyn.

Ac mae rhyw fil, Gymru fau—
Dynion canmwy eu doniau—
Ddyry eu hardd einioes ddrud,
Ddihefelydd fyw olud !
O, deced ymysg gwledydd,
Ac O, mor fawr Gymru fydd !

Dy loyw ddawn dy gyfiawnder—yna geir
Yn deg wawl goleuber ;
A thi, ys hardd ymhlith sêr,
Dywynni'n gannaid Wener ;

Ac ar goedd, holl bobloedd byd
A wêl hefyd dy leufer.

Fy nhudwedd, dyma 'ngweddi—
Weld awr deg dy loywder di.
A thithau, gorthaw, f'awen ;
Doed yr awr, Iôr mawr. Amen.

SALM I FAMON

I

Canaf, brwd eiliaf ryw dalm—o loyw fawl
O ufelin arial ;
Molaf un naf dihafal,
Mydraf, dadseiniaf ei salm.

I Famon fawr f'emyn fydd ;
Yn fore dof, wawr y dydd,
Cludaf ei wiwdeg glodydd.

Â rhyw hoyw orohïan—o ferw cerdd,
O frig gwawd a chyngan,
Y pynciaf ei geinaf gân.

Ewybr y canaf bêr acenion,
A thalaf emog gathl i Famon ;
Ti sy agwrdd uwch tywysogion,
A'th oruchwyliaeth ar uchelion ;
Duw'r meddiant a'r moddion,—ydwyt lywiawdr,
A drud ymhérawdr duwiau mawrion.

Un ei le ac un ei wlad,
I un y bo traean byd :
Nid darn a berthyn arnad,
Ond ti gest ei blant i gyd.

Cyfled yw dy gred â daear gron,
Tery ffiniau tir a phennod tonn ;
Hyd yr êl yr hylithr awelon,
Hyd y tywyn haul, duw wyt yn hon.

Trech wyt na Christ yng ngwlad y Cristion,
Bwddha'n yr India hwnt i'r wendon ;
Arafia anial a ry 'i chalon,
Nid i Fahomet, ond i Famon.

Gini neu ddoler gawn yn ddelwau ;
Câr yr Iddew codog ei logau ;
Câr y Cristion faelion ei filiau.
Am elw o hyd y mae holiadau,
Cregin, wampum, a gloywdrem emau,
Digon o bres, digon o brisiau,
Degwm, pob incwm, a llog banciau ;
Am elw y mae'r gri a'r gweddïau,
A'th aur yw pob peth i wŷr pob pau.

Dy gu ddelwau
Gloywon dithau, glân a dethol,
Dyma ddelwau
A wna wyrthiau grymus nerthol.

Pa ryw fudd na phryn rhuddaur,
A pha ryw nerth na phryn aur ?
Yr isa'i drâs â, drwy hwn,
I swperu 'mhlas barwn ;

Yn neuadd yr hen addef
Y derw du a droedia ef,
A daw beilch ddugiaid y bau
Ar hynt i'w faenor yntau.
Beth yw ach bur wrth buraur,
A gwaed ieirll wrth godau aur ?
Un yw dynol waedoliaeth,
Ac yn un Mamon a'i gwnaeth.

Aur dilin a *bryn* linach,
Pryn i'r isel uchel ach ;
Pais arfau, breiniau a bryn,
E ddwg arlwydd o gerlyn ;
Pryn i hwn dras brenhinol,
A phraw o'i hên gyff a'i rol.

Beth a dâl dawn a thalent
Wrth logau a rholau rhent ?
Pwy yw'r dyn piau'r doniau ?
Rhyw was i un â phwrs aur.
Aur mâl a bryn ei dalent,
Gwerrir hi er gŵr y rhent ;
Cyfodir tecaf adail
A chaer gan bensaer heb ail ;
Pob goreugwyr crefftwyr Cred
Yr honnir eu cywreinied,
Pob dodrefnwyr, gwydrwyr gwych,
Gemwyr ac eurwyr gorwych,
Pob perchen talent, bob tu,

Aeth i'w byrth i'w haberthu.
Y lluniedydd celfydd cain,
Bwyntl hoyw, a baentia'i liain,
Aeth hwnnw a'i waith enwog
I euro llys gŵr y llog;
A phob trysor rhagorol
O ddawn uwch oesoedd yn ol,
Canfas drud pob cynfeistr hardd,
Yno ddaw yn ddi-wâhardd:
Dillynder ffurfiau perffaith
Raffaèl oroff ei waith;
Awyr las a disglair liw
Tizian eglurlan glaerliw;
Hy a chwimwth ddychymig
Tintorèt yno y trig,
A helaethgamp Velazquez,
Sy ddrych byw fel y byw beth,
Neu Rembrandt rymiant tramawr,
Ac yn ei wyll ryw gain wawr;
Y campau gorau i gyd
A feiddiodd y gelfyddyd,
Draw gludwyd i'r goludog,
Yng nghaer hwn y maent ynghrôg.

Eiddo ef bob llyfr hefyd,
A "rholau gwybodau byd";
Cynhaeaf pob dysg newydd
A hanes hên yno sydd:
Y gorau gwaith a gâr gwŷr,

Gorhoffwaith hen argraffwyr ;
Llyfrau llafur llaw hefyd,
O ba werth nis gŵyr y byd—
Llond cell, yno wedi'u cau,
O ryw enwog femrynau,
Cywreindeb nas gŵyr undyn,
A geiriau doeth nas gŵyr dyn ;
Perlau gwymp ar helw y gŵr
A welwai berl ei barlwr ;
Gemau'r Gymraeg, mwy eu rhin
Na'r main claer mewn clo eurin,
Heb freg oll, yn befr eu gwedd
Yng ngheinwaith y gynghanedd ;
Hyn, a mwy na hyn, yn wir,
Yn y gell hon a gollir ;
Yr iarll ni fedr eu darllain,
Dieithr yw i deithi'r rhain.
O Famon ! addef imi,
Pa sud oedd y'm pasiwyd i ?

Ond pam weithion y soniwn
Am dlysau neu emau hwn ?
Onid yw wyneb daear
A'i thai i'w ran, a'i thir âr ?
Holl ystôr ei thrysorau,
Eiddo ef ŷnt, a'i chloddfâu ;
Ei faeth ef yw ei thyfiant,
A chynnyrch hon ar ei chant ;
Pob enillion o honi—

Fe'u medd hwynt, ac fe'i medd hi.
A'r rhyfedd ŵr a fedd hon,
E fedd hwnnw fyw ddynion ;
Fel aeron gwylltion a gwŷdd
Y tyfasant o'i feysydd ;
Tir y gŵr fu'u magwrfa,
A phorthwyd hwynt o'i ffrwyth da ;
Cynnyrch rhad ei 'stad ydynt,
Rhyw hoyw ddull ar ei bridd ŷnt.
O'i fodd y mae'n eu goddef
Ar ei dir a'i weryd ef :
Gall atal eu cynhaliaeth,
A'u troi o'u man a'u tir maeth :
Cadarn ei afael arnun',
Dĕyrn draw 'n ei dir ei hun ;
Iôr agwrdd y diriogaeth,
Yn ddarn o dduw arni 'dd aeth :
Plygu'n llu, megis i'r llaid,
I'w addoli wna'i ddeiliaid ;
Yn gaeth y'i gwasanaethant,
Rhodio'n ei ofn erioed wnânt ;
Ei air ef yw eu crefydd,
A'i ffafr yw sylfaen eu ffydd :
Os eu henaid a syniwn,
Ni wyddant am dduw ond hwn.

A phwy yw'r dwyfol ŵr a iolant ?
Corr ydyw o blith cewri dy blant :
Efô a'i eiddo sy'n dy feddiant,

A'i geyrydd enwog a'i ardduniant ;
A hwythau pan wasanaethant—eu naf,
Ti, o dduw alaf, ti addolant.

A mi, llwyr oll y collais—dy fendith,
Ni bum gyrrith, ni'th wasanaethais :
I'm buchedd, am a bechais,—codi 'mhen
O nythle angen ni theilyngais.

Ydwyf bechadur,
Rheidus greadur,
Yn wir, difesur ydyw f'eisiau ;
Gwae im ddrwg ymddwyn,
Ynfyd ac anfwyn
Dorri, dduw addfwyn, dy heirdd ddeddfau.

Canwaith rhoi ceiniog
I un anghenog,
Neu i ddifuddiog, yn ddifeddwl ;
Eirchiaid fai'n erchi,
Rhennais i'r rheini,
Yn lle eu cosbi yng nghell ceisbwl.

Erioed afradus,
Rhyffol wastraffus,
Esgeulus, gwallus, gwelais golled ;
Ar lesg ni wesgais,
Isel nis treisiais,
Gwobrau nis mynnais, collais bob ced.

Di lun a di les,
Hyn yw fy hanes ;
Erglyw wir gyffes y fynwes fau ;
Ydd wyf ddiofal,
Ofer, annyfal,
Eiddilaidd, meddal ; O dduw, maddau !

II

Ti'n uchaf a ddyrchafwyd—a'th gryfion
Alon a ddymchwelwyd ;
A duw drud a hydr ydwyd—
Diau duw y duwiau wyd.

Assyriaid ac Eifftiaid gynt,
Yn ddilys y'th addolynt.
Merodach, duw mawr ydoedd,
Istar, hi, duwies dêr oedd ;
Osiris, Isis, a Hor,
A rhyw ugain yn rhagor—
Nid yw'r un duw o'r rheini
Ond mal dim yn d'ymyl di.

Yr hen enwog frenhinoedd,
Diau dydi eu duw oedd.
Aml ryw deml i'r duwiau hyn,
Temlau, delwau adeilynt ;
Ac un waedd ddwys, ddwys, ddlseml,
Yrrid i'r duw o'i aur deml ;

Sef oedd hon, " Moes feddiannau,—rho rwysg,
" Rho oresgyn llwythau ;
"Dinasoedd, tiroedd, tyrau—
" O dduw, am lwydd i'w hamlhau ! "

Ennill o hyd, ennill oedd
Hen anian y brenhinoedd ;
Un duw, ac un dyhewyd,
Henwyr beilch—meddiannu'r byd.

I *enwau* duwiau dïeithr
Ffrydia mawl hoff o'r deml, eithr
Nid yw hyn ddim ond enwi—
Tu ol i'r teitl yr wyt ti.

Am ennyd awr, Famon, dos
Heibio i ael wemp Olympos ;
Duwiesau sydd a Zeus hên
Yma'n llu mwyn a llawen :
Nosau a gwleddau, O'r glod !
Duwiau odiaeth eu duwdod.

Pa gred onest a estyn
Goreugwyr Groeg i'r rhai hyn ?

Cred fod ced i'r rhai a'u câr,
Da dduwiau cnwd y ddaear ;
Dal fod alaf o'u dilyn—
Heiniar y ddaear i ddyn,

A haul nef, a glaw hefyd,
A bwyd i bawb, a da byd.

Kroisos, y cu oreusant,
Fu'r mwyaf, blaenaf o'th blant ;
Helaethaf ei alafoedd,
Cyfoethocaf, uchaf oedd.—

Alexander goncwerwr,
Tydi gynt oedd tad y gŵr ;
Mab Zeus, medd ef ; addefwn ;
Ti eisoes oedd y Zeus hwn.
Rhwyf daearfyd a'i wirfab—
Duw'r byd yn rhoi'i fyd i'w fab.

Pa dduw iôr pioedd arwain—ym mrwydrau
Ymerodrol Rhufain ?
Ai Mawrth, anghenfil milain ?
Ai Iau eu rhi ? Neb o'r rhain.

Pwy ond ti ym mhob hynt oedd
I annog y byddinoedd ?
Ysbryd y byd a'i bywhâi,
Ti i ennill a'u taniai,
A thi'n iôr yn llywio'r llu,
Drwy drachwant, draw i drechu.—
Duw'r digonedd a'r meddiant
A bair, abl yw, wobr i'w blant.

Ploutos, pa elw yw iti
Dan d'enw dy hun d'enwi di ?
Deiliaid sydd yn adolwyn
Dan bob rhith dy fendith fwyn—
Dy annerch dan enw Merchyr
Am fasnach elwach i wŷr,
Dan rith Ceres, dduwies dda,
A phryd denol Fortuna.
A geir o enwau gorwych
O gwrr y pantheon gwych,
Yr ucha'u gradd onaddynt,
Enwau teg arnat ti ŷnt.

Beth am dy uchel Elyn,
A'i hap Ef yn wyneb hyn ?
Un genedl, yn ei gyni,
Feddai, ac—anufudd hi ;
Anhydyn ac anwadal,
Addoli bu ddelwau Baal ;
Troi'i hwyneb at y rheini,
A'i adaw Ef, ei Duw hi.
Yn gybyddion ddynionach
Ymroi y bu mawr a bach ;
Ei phlant gwâr yn gynnar gynt,
Dy ddelwau di addolynt.
Yn dyner Ef a'i denai,
Ymliw'n aml â hi a wnâi ;
Taerion fu'i genhadon Ef
Arni droi'n hydrin adref.

Ond gwatwarwyd ei broffwydi,—a'i deg
Weinidogion ganthi ;
Diystyrodd heb dosturi
Acen daer eu cenadwri ;
Briwiodd, bwriodd hwy â beri
Brathog, ac ysgythrog gethri ;
Ie'u diosg a'u llosgi—'n wen goelcerth
Fu'i cherth ddigrifwch hi.

Ond Ef, mad oedd,
Oediog ydoedd,
Di lid ei law,
Hir cyn taraw.
Dwys bwys ei bai
Oll ni allai,
Na'i gwŷn na'i gwâd,
Oeri'i gariad.
O'i ged wedi
Ei thost waith hi,
Hwn anfonodd
Ei Fab o'i fodd,
I'w throi i'w thref—
Wiwdda addef.
Ni bu'i hateb hi eto
Ond yr un a phob rhyw dro.
Os mathrwyd y proffwydi,
A'u dryllio hwnt drwy'i llaw hi,
Bu ran y mab yr un modd—
Caersalem a'i croeshoeliodd.

Yna'i diddig Iôr a ddigiwyd,
A llid Hwn yn deryll daniwyd ;
A'i lofr genedl au
Drwy'n byd o'r hen bau
I'w gyrrau wasgarwyd.

Ond ar led ein daear lydan
Od ai'r genedl draw o Ganaan,
Cafas ddïal mawr yr awran ;
Rhoes ei hynni, rhoes ei hanian,
Yn llawn oll o hynny allan
It', a'i henaid hi ei hunan.

Yn dy demlau golau gwiwlan,
Wrth brif fyrddau'r aur a'r arian,
Y ceir hithau a'i hocr weithian,
O sêl y deml yn ysol dân.

Yn ei haddoliant santaidd
Llym iawn y traidd ei haidd hi :
Yma'n ei fyd Mamon fawr
A gad yn awr gyda ni.

O, fal y llifodd arni'th fendithion !
A'th dda y'i doniwyd uwch gobaith dynion ;
A dirym wrhydri ymherodron
At amnaid ei dugiaid goludogion ;
Yn eu rhodd hwy mae'r moddion—a'r darpar—
Llywir y ddaear â llaw'r Iddewon.

Atat, arglwydd arglwyddi,—anfonaf
Innau fy nhaer weddi ;
Rho dy wên, dduw'r daioni,—
Tirionaf wyt,—arnaf fi !

III

" Dy gymydog," eb Nebun,
" Geri fel tydi dy hun."
Breuddwydiwr a bardd ydoedd,
A rhyw wyllt ddychmygwr oedd,
Ar fyr, " anymarferol "—
Nid un hawdd rhodio'n ei ol.

Ond am efengyl Mamon,
Mor hollol wahanol hon !
Mor fawr, mor " ymarferol " ;
Nid an-hàwdd rhodio'n ei hôl.

" Pawb ei siawns " gysurlawn sydd
Ddigrifiaith ei hardd grefydd :
O chei fantais, ti dreisi ;
Os methi, trengi—wyt rydd !

" Trecha' treisied,
" Gwanna' gwaedded," gain egwyddor ;
Ni ddaw iti,
Oni threisi, aur na thrysor.

Rhyddid i bawb a rodder—yw rheol
Ei athrawon tyner ;
Yn eu cain iaith datganer
Y ddilys ffydd—"*laissez faire!*"

Rhodder i eiddo ryddid—i elwa
Lle gwŷl angenoctid ;
Ac i'r tlawd, O, pob siawns bid—
Iawnach, callach nis gellid.

Cafwyd athrawiaeth gyfiawn—
Seinied pob sant "pawb ei siawns!"
Rhyfeddod o adnod yw,
Athrawiaeth odiaeth ydyw.

Athrawiaeth iachus, a grymusaf
Er dwyn y gweithiwr dan iau gaethaf,
A thwyllo llibin werin araf
O ffrwyth ei llafur a'i chur chwerwaf,—
Canys dyna'r hawddgaraf—alluoedd
A ddwg ei filoedd i gyfalaf.

O dduw cyfoeth, doeth wyt ti ;
On'd oedd elwach d'addoli ?
Ac nid duw dig, eiddig wyd ;
Duw odiaeth haelfryd ydwyd.
Yn lle cenfigen y Llall,
Ti ni ddori Dduw arall.
Dywaid y Llall heb dewi—

"Nid cyson Mamon â Mi":
Tithau, "Y gorau i gyd,
"Yn ddíffai, gwnewch o'r ddeufyd."
O dduw gwych, bonheddig wyt,
Caredig—gorau ydwyt.

Onid hawdd it ei oddef,
A gwenhieithio iddo Ef?
Ac onid hoff gennyt ti
I ddyliaid ei addoli?
Da odiaeth i'th benaethiaid
Weled coel y taeog haid;
Gado'r ffydd i gyd i'r ffŵl,
A da fydd i'r difeddwl;
A bryd calon dynion doeth,
Ti a'i cefaist, duw cyfoeth.

Pa raid malio fod Prydain
Ar y Sul, â sýberw sain,
Yn rhyw ffugiol addoli
Y Gelyn sy'n d'erlyn di?

Pob ffalster rhodder iddo,—neu salmau
Ac emynau mwynion;
Beth yw i ti byth eu tôn?
Gwelaist pwy piau'r galon.

A thi dy hun, ddoeth dduw da,
Hoff gennyt y ffug yna;

Byddi'n ei ffugiol foli
Yn dy deg adnodau di :
" Pob un drosto'i hun," yna—
Ba beth ?—" Duw dros bawb ! " A ha !
Ni wybu llofrudd Abel
Mo'r ffordd i'w glymu mor ffêl.

O mor ddoeth, a choeth, a chall,
D'eiriau am y Duw arall ;
Nid ffrochi gan genfigen,
Na, " Duw dros bawb."—Da dros ben.

Llwyr hawdd y gellir addef,
Wyt gryfach, gallach nag Ef.

Yn gyfrwys i'w eglwysi,
Yn ddistaw iawn treiddiaist ti ;
Ni thynnaist yn wrthwyneb,
Ond yn gu, na wybu neb,
Cynhyddaist, gan ei oddef,
Onis di-feddiennaist Ef.

Yna troist i weini trefn
Yn ddidrwst ar ei ddodrefn :
Rhoist y rhain " ar osod " draw—
Am arian y mae'u huriaw ;
Wrth rif y'u trethir hefyd,
Fel siopau, neu bethau'r byd.
Os oedd dewisol seddau,

Fe'u rhoist oll i'th ffafrweis tau ;
I dorf o'th ddeiliaid eurfawr
Y mynnaist fainc mewn sêt fawr ;
Yna'i dlodion Ef hefyd,
O'th ras, a gafas i gyd
Ryw gonglau a seddau sydd
Oerach gwaelach na'i gilydd.

I gyd ? Na ; mewn gwŷd yn gwau,
Mae rhai is, mawr eu heisiau,
Heb ran na chyfran ychwaith
Yn ei delaid adeilwaith.
O fewn i'w glaer drigfan gled,
Pa fan i garpiau fyned ?

Y Gŵr a ddaeth i gyrrau
Rheidusa 'rioed i'w sarhau,
Yn ŵr tlawd gyda'r tlodion,
Ar ei hynt trwy'r ddaear hon,
I ddwyn newyddion iddynt
O obaith gwell i'w bath gynt,—
Erbyn hyn, i'r rhai hynny,
Wele nid oes le'n ei dŷ.

Y frwydr fawr i'w dir Ef aeth,
A chefaist oruchafiaeth !
Wele un o'i ganlynwyr,
Un o'r deuddeg, wiwdeg wŷr,
Yn dyfod i'w draddodi,

O fawr chwant dy ariant di:
Fe'i gwerthodd er rhodd o'r rhain,
Rhyw hygar ddeg ar hugain!

Ti enillaist yn hollol,
A'i wyrda Ef aeth ar d'ôl.
Onid dinod bysgodwyr
A rifai Ef yn brif wŷr?
Rhoddaist o'th drysor iddynt
Radau gwell na'u rhwydi gynt;
A phrifiodd, drwy dy roddiad,
Y rheini'n arglwyddi gwlad;
Yn y Senedd eisteddant,
A thrawster noeth a rhwystr wnânt.—
Dilynwyr pysgodwyr gynt,
Goludog lywiau ydynt.

Gwir, rhaid i gurad gwirion—fyw'n o fain
Ei fyd, ar ryw loffion;
Ond hynny sydd (tawn a sôn!)—er amlhau
Braisg wobr o sgubau i'r esgobion.

Be gwneid i bob gweinidog—yn ei dy
Fod o'r da'n gyfrannog,
Ystyr pwy o'i holl wŷr llog
A ai fyth yn gyfoethog!

Nid dyna mo ddull Mamon;—y dull yw
Bod llawer yn dlodion,

I'r chydig etholedigion—fyw'n wych,
Yn uchel degwych oludogion.

Ond Iesu, ceisio lluoedd
I wych stad mawrhad yr oedd ;
Dyfod a wnaeth i'w codi
O dlodi i oludoedd.

I'w rhoi'n fonheddig ddigoll
Ei dda 'i Hun a wariodd oll.

Ond pa ryw ddrud oludoedd,
Pa ryw eiddo iddo oedd ?
Iddo nid oedd ond ei wan,
Ei wael anadl ei Hunan.

A'r Gŵr ei Hun ar y groes,—ynghanol
Ing enaid a chwèrwloes,
Yn ddewr a rhydd, wir, y rhoes
Ei hoedl, anadl ei einioes.

Yr eiddo oll a roddes,
Iẽ'n hael iawn ; ond pa les ?
Wedi'i ddiarbed ddirboen,
I ba beth y bu ei boen ?
Be delai i'r byd eilwaith,
A cheisio gweithio'r un gwaith ;
Annerch uchelwr gwrol
Â lleferydd ei ffydd ffôl :

" Gwerth bob rheufedd a feddi
" Yn y fan, a chanlyn fi."

" Haws i'r camel bwrnelaidd
" Yrru naid drwy grau nodwydd
" Nag i ŵr ag aur gyrraedd
" I nwyfiant teyrnas nefoedd."

A chyfarch clerigol urddasolion—
" Chwi ragrithwyr, twyllwyr, ffyliaid, deillion,
" Cadw rhyw ffurfiau, defodau ynfydion,
" Llu o fân wyliau, a'ch holl fanylion,
" A gadaw'r pethau mawrion—bendigaid—
" Rhannu i weiniaid, gwneuthur barn union.

" Ni laddasech chwi'r proffwydi gwirion ?
" O, ragrithwyr, twyllwyr, ffyliaid, deillion,
" Dywedaf, chwai'r haeraf, mai chwi'r awron
" Ydyw cywir hil eu lleiddiaid creulon,
" Ufuddaf etifeddion—i'ch tadau,
" Ac i'w traddodiadau hwythau weithion."

Och ! bwy a'i hachubai Ef ?
Oni haeddai ddïoddef ?

Pa esgob coeth cyfoethog—a drôi draw
Drem o'i esmwythbluog
Gerbyd glanwedd mawreddog
Tua rhyw Grist ar ei grôg ?

Diau y dwedai, "Adyn
"Anfoddog, diog, yw'r dyn;
"Ar ei barabl yn cablu—
"Cablwr a therfysgwr fu;
"Drwy wydiau chwyldroadol
"Rhedai rhyw haid ar ei ol;
"Da gweled gwayw a hoelion
"Fyth i daro'i fath.—*Drive on!*"

Y frwydr fawr i'w dir Ef aeth,
A chefaist oruchafiaeth.

Ti'n uchaf a ddyrchafwyd,—a'th gryfion
Alon a ddymchwelwyd,
A duw drud a hydr ydwyd—
Diau, duw y duwiau wyd.

I Famon fawr f'emyn fydd;
Yn fore dof, wawr y dydd,
Cludaf ei wiwdeg glodydd.

* * *

Ac eto, eto, beth ytwyd?—Mamon,
Mae imi ryw arswyd,—
Er o druth a daer draethwyd,
A'm hodlau oll,—mai diawl wyd.

CYFIEITHIADAU

D'r Almaeneg

CATHLAU HEINE

Ganed Heinrich Heine, o rieni Iddewig, yn nhref Düsseldorf ar y 23ain o Ragfyr, 1799. Bywyd helbulus a fu iddo. Yn 1831 fe aeth o'i wir fodd i drigo'n alltud yn ninas Paris; ac yno, wedi cystudd maith a phoenus, y bu farw, ar y 17eg o Chwefror, 1856. Seinier yr enw Heine yn ddwy sillaf, fel petai'n air Cymraeg.

I

Codi'r bore wnaf, a gofyn,
"Ddaw f'anwylyd i?"
Gorffwys yn yr hwyr, a chwyno,
"Draw'r arhosodd hi."

Gorwedd yno'r nos yn effro,
Gyda'm gofid prudd;
Wedyn crwydro'n hanner huno
Dan freuddwydio'r dydd.

II

Brydferth grud fy holl ofalon,
Brydferth fedd fy heddwch i,

Brydferth ddinas, rhaid im d'adael,
Rhaid im ganu'n iach i ti.

Canu'n iach i'r santaidd hiniog,
Lle'r ymdrŷ ei hysgafn droed ;
Canu'n iach i'r fangre santaidd,
Lle gwelais f'annwyl gynta' rioed.

Pe erioed na'th ganfuaswn,
Ti frenhines deg fy mron,
Heddyw ni buaswn isel
Yn fy mhrofedigaeth hon.

Ni fynnais fennu ar dy galon,
Am dy serch ni cheisiais i ;
Digon im oedd byw yn dawel
Lle'r ehedai d'anadl di.

Tithau sy'n f'alltudio ymaith,
Gair dy enau chwerw yw ;
Mae gwallgofrwydd i'm meddyliau,
Ac mae 'nghalon glaf yn friw.

Llusgaf draw ar ffon pererin
Gorff lluddedig llwyd ei wedd,
Nes cael rhoi fy mhen i orffwys
Yn fy oer bellennig fedd.

III

Fy machgen, cyfod, dal dy farch,
Ac esgyn arno'n hy ;
Dros fryn a dôl carlama i lys
Y brenin Duncan fry.

A llecha tua'r stablau nes
I'r gwas dy weled di,
A gofyn, " pwy'r ddyweddi deg,
" Pa ferch i'r teyrn yw hi ? "

Os dywed ef " y ddu ei gwallt,"
Dwg hynny'n ebrwydd im ;
Os dywed ef " yr oleu 'i phryd,"
Ni raid it frysio dim.

Ond dos i dŷ'r rheffynnwr draw,
A phryn im reffyn praff,
Yn araf tyrd heb yngan gair,
A dyro i minnau'r rhaff.

IV

O'm dagrau i, fy ngeneth,
Y cyfyd blodau glân ;
A thry fy ucheneidiau'n
Eosiaid yn gôr o gân.

Os ceri di fi, fy ngeneth,
Mi rof y blodau i ti ;
Ac wrth dy ffenestr yr eilia
Yr eos ei chanig hi.

v

Ers myrddiwn maith o oesoedd
Mae sêr disigl y nen
Yn syllu ar eu gilydd
Mewn cariad prudd uwchben.

Llefarant iaith oludog,
A phrydferth iaith a phêr ;
Ac ni bu ieithydd eto
A wybu iaith y sêr.

Myfi fy hun a'i dysgodd,
Ac nid anghofiaf hi ;
A'm teg ramadeg ydoedd
D'anwylaf wyneb di.

vi

Pe gwypai'r mân flodeuos
Mor friw yw 'nghalon i,
I leddfu 'ngofid wylai
Y' blodau gyda mi.

Pe gwypynt hwy'r eosiaid
  Mor drist a chlwyfus wyf,
Anadlent hoywon odlau
  I esmwythau fy nghlwyf.

A'r sêr, pe gwypynt hwythau
  O'm dirfawr alar ddim,
Hwy ddoent i lawr o'u nefoedd
  I adrodd cysur im.

Ni ŵyr yr un ohonynt,
  Un ŵyr fy ngofid i ;
A honno 'i hun a wanodd,
  A wanodd fy nghalon i.

VII

Paham, fy nghariad deg, yn awr,
  Y ciliodd gwawr y rhos ?
Paham mae'r fioled las ei lliw
  Mor wyw, fy ngeneth dlos ?

Paham mae'r hedydd fry â thôn
  Mor brudd yn sôn ei salm ?
Ac y daw arogl angeu certh
  O brydferth flodau balm ?

A pham mae'r haul yn edrych fry
Mor oer a du ei wedd ?
A pham mae'n grin y ddaear faith
A diffaith fel y bedd ?

A mi fy hun paham yr wyf
Dan glwyf yn oer fy nghri ?
A thithau, f'annwyl, pam y bu
It gefnu arnaf fi ?

VIII

E saif pinwydden unig
Ar oer ogleddol fryn,
A huna dan ei chwrlid
O rew ac eira gwyn.

Breuddwydia am balmwydden
Ym mhellter dwyrain byd,
Ar eirias lethr alara
Yn unig ac yn fud.

IX

Er pan aeth f'anwylyd i,
Aeth a gwenu gyda hi ;
Llawer geisiodd leddfu 'nghlwy,
Ond ni allaf wenu mwy.

Er pan gollais f'annwyl i,
Collais wylo gyda hi ;
Mae fy nghalon fach yn ddwy,
Ond ni allaf wylo mwy.

X

I'r ardd ryw fore hafaidd
  Yr euthum gyda'r dydd,
A'r blodau'n sisial a siarad,
  A minnau'n rhodio'n brudd.

A'r blodau'n sisial a siarad
  Â threm o dosturi a hedd—
" Na fydd yn ddigllon wrth ein chwaer,
  "Wr trist a gwelw 'i wedd."

XI

Ymgrynhoi y mae'r tywyllwch
  Dudew trwm o'm hamgylch i,
Er pan na thywynna arnaf
  Oleu teg dy lygaid di.

Pallodd imi wawl fy hyfryd
  Seren serch, enhuddwyd hi ;
Dan fy nhraed yr egyr diffwys—
  Nos gynhenid, derbyn fi.

XII

Drwy'r coed yn drist y rhodiwn,
A'r fronfraith yn y gwŷdd
Yn llamu'n llon a chanu,
"Paham yr wyt mor brudd?"

"Dy chwaer y wennol," meddwn,
"All ateb hyn i ti—
"Hi drig mewn nyth bach cywrain
"Wrth ffenestr f'annwyl i."

XIII

Ti ferch y morwr, tyred
A'th gwch o'r dyfroedd draw,
Ac eistedd yn fy ymyl
I 'mgomio law yn llaw.

A pham y rhaid it ofni?
Dy ben dod ar fy mron—
Nid ofni'r môr na'i dymestl,
Nac ymchwydd cryf ei don.

Rhyw fôr yw 'nghalon innau,
Â storm, a thrai, a lli;
A llawer perl tryloywaf
Yn ei dyfnderoedd hi.

XIV

Pan fyddwyf yn y bore
Yn pasio d'annedd di,
Mae golwg ar dy wyneb
Yn llonni 'nghalon i.

Â'th dyner lygaid duon
Gofynni'n fwyn i mi,
"Pwy wyt ti, glaf ddieithrddyn,
"A pheth yw d'ofid di?"

Bardd alltud wyf, ac enw
Sydd imi dros y lli;
Enwer yr enwau goreu,
Ac enwir fy enw i.

A'm gofid i yw gofid
Llaweroedd dros y lli;
Enwer pob dyfnaf ofid,
Fe enwir fy ngofid i.

XV

Pa fodd, a mi'n fyw eto,
Y tawel gysgi di?
Daw'r hen ddigofaint ataf,
Fy iau a dorraf fi.

A glywaist am y bachgen
A ddaeth o'i fedd ryw dro
Am hanner nos i gyrchu
Ei gariad wen i'r gro?

Cred dithau, eneth fwynaf,
A'r eneth lana 'i phryd,
Mai byw wyf fi, a chryfach
Nag ydyw'r meirw i gyd.

XVI

Mewn breuddwyd tywyll safaf,
Edrychaf ar ei llun;
Ac megis ymadfywio
Mae wyneb hardd fy mun.

A rhyfedd wên a chwery
Ar ei dwy wefus bur,
A'i llygaid sy'n disgleirio
O loewon ddagrau cur.

Mae 'nagrau innau'n treiglo
I lawr fy ngruddiau'n lli;
Ac O, ni allaf synio
Im eto 'i cholli hi.

XVII

Breuddwydiwn weld y lloer yn brudd,
A phrudd oedd sêr y nef;
A mi fy hun oddiyma 'mhell
Yn fy nhirionaf dref.

Nesheais at ei chartref draw,
Cusenais drothwy'r drws
Lle 'n aml y gwibiodd ysgafn droed
Ac ymyl gwisg fy nhlws.

Yr oedd y nos yn oer a maith,
A'r garreg honno'n oer;
Ond gwelais wyneb mwyn drwy'r dellt
Yn gann yngoleu'r lloer.

XVIII

Fel y lloerwen oleu'n dianc
O dywyll len y cwmwl du
Y daw im weledigaeth oleu
O ganol dyddiau tywyll fu.

Ar fwrdd y llong i gyd eisteddwn,
Ar hyd y Rhein yn falch yr awn,
A hafaidd lesni'r glannau'n twynnu
Yng ngoleuni haul prynhawn.

Minnau'n eistedd mewn myfyrdod
Wrth ei thraed, enethig hardd ;
Ar ei hannwyl welw wyneb
Rhuddaur oleu'r haul a chwardd.

Lleisiau plant a sain telynau
Yn eu hoen a'n llawenhâi ;
Y nef uwchben âi'n lasach lasach,
Yr enaid yn eangach âi.

Megis chwedl y gwibiodd heibio
Fryn a choedwig, plas a gardd ;
A mi'n eu gweled oll yng ngloywon
Lygaid yr enethig hardd.

XIX

Yr ydwyt fel blodeuyn,
Mor fwyn, a theg, a phur ;
A minnau'n edrych arnat
I'm bron y cyfyd cur ;

Ac ar dy ben y mynnwn
Gael dodi'm llaw, a dwyn
Fy nghais at Dduw i'th gadw
Mor bur a theg a mwyn.

XX

Dinistr iti fyddai 'ngharu,
Ceisio'r wyf dy gadw di
Rhag i'th dirion galon goledd
Y cariad lleiaf ataf fi.

Ond yn awr, mor rhwydd y llwyddaf,
Hyn sydd eto'n flin i mi;
A dymunwn weithiau eto
Iti eto 'ngharu i.

XXI

Eneth â'r perloywon lygaid,
A'r gwefusau fel y rhos;
Ti, f'anwylaf fwynaf eneth,
Sy'n fy meddwl ddydd a nos.

Hirfaith yw'r gaeafnos heno,
O na chawn fod gyda thi;
Wrth dy ymyl yn ymsisial
Ar aelwyd fach a garaf fi.

O na chawn i wasgu 'ngwefus
Ar dy law liw alaw wen;
O na chai fy nagrau ddisgyn
Ar dy law liw alaw wen!

XXII

Mae iddynt gwmpeini heno,
Goleuni sy'n llenwi'r ty,
Cysgod dy lun sy'n ymsymud
Yn y ffenestr oleu fry.

Ni'm gweli obry'n y tywyll
Mor unig, fy ngeneth lon ;
A llai o lawer y gweli
I'r galon dywyll hon.

Fy nghalon dywyll, dy garu,
Dy garu a thorri mae hi,
A thorri a churo a gwaedu,
Ond O, nis gweli di.

XXIII

O na allwn gynnwys mewn ungair
Y tristwch sy dan fy mron ;
Mi a'i rhoddwn i'r llon awelon
I'w gludo ymaith yn llon.

Ei gludo i ti, f'anwylyd,
Y gair o dristwch, hyd pan
Ei clywit ef ar bob adeg,
Ei clywit ef ym mhob man.

A pheunoeth cyn i'th amrannau
  Mewn cwsg ymgyfwrdd ynghyd,
I'th freuddwyd dyfnaf, f'anwylyd,
  Y'th ddilynai fy ngair o hyd.

XXIV

Mae gennyt emau a pherlau,
  A hoff bethau'r byd, a mwy—
Mae gennyt y llygaid tlysaf ;
  F'anwylyd, beth fynnit fwy ?

I'r llygaid tlysion hynny,
  Yn unig iddynt hwy,
Y cenais lu o ganiadau ;
  F'anwylyd, beth fynnit fwy ?

A thi â'th lygaid tlysion
  A roist imi gymaint clwy,
Ac a'm dygaist yn llwyr i ddistryw ;
  F'anwylyd, beth fynnit fwy ?

XXV

Fel rhyw freuddwydion tywyll
  Y sai' rhes tai'r ystryd ;
A minnau'n ddwfn i'm mantell
  Heb sôn af heibio'n fud.

Mae'r gloch yn taro deuddeg
O'i chlochdy uchel hi;
Â swynion a chusanau
Y disgwyl f'annwyl fi.

Y lleuad yw fy nghwmni
A'i theg oleuni glân;
Wel' dyma dŷ f'anwylaf,
Mi ganaf yma gân:

"Can' diolch, hên gydymaith,
"Am roi dy gwmni cyd;
"Yn iach! tywynna eto,
"Heb beidio, ar y byd.

"Os gweli fachgen serchog
"Yn cwyno 'i unig hynt,
"Rho iddo'r cysur roddaist
"I minnau ganwaith gynt."

XXVI

Mae iar fach yr haf yn caru'r rhos,
A hofran o'i gylch y bydd,
A'i charu hithau, a hofran o'i chylch
Mae pelydryn o dywyn dydd.

Ond pwy aeth a serch y gwridog ros?
Mi garwn pe dwedai a'i gŵyr;
Ai'r eos a gân ei melys gainc,
Ai tawel seren yr hwyr?

Fy nghalon ni ŵyr pwy yw cariad y rhos,
Ond caru 'r wyf fi, fe'i gŵyr,
Y rhos, a'r pelydryn, ac iar fach yr haf,
A'r eos, a seren yr hwyr.

XXVII

Fel y lloer a'i delw'n crynu
Ar gynhyrfus donnau'r lli,
Hithau'n tawel grwydro'i hawyr
Las ddigwmwl hi;

Felly crwydri dithau, f'annwyl,
Hyd dy lwybrau tawel di;
Tra mae 'th ddelw'n crynu, crynu
Ar fy nghalon i.

XXVIII

Y lili ddŵr freuddwydiol
A edrych fry o'i llyn,
A'r lloer deifl ati olwg
Hiraethus serchus syn.

A'i phen a blyg y lili,
Wyleiddiaf lili 'rioed ;
A'i chariad gwelw wedyn
A genfydd wrth ei throed.

XXIX

Rhyw adeg yr oedd hen frenin
Trwm ei galon a brith ei ben ;
A'r brenin hen a briododd
Forwynig ifanc wen.

'R oedd gwas ystafell ifanc
Melyn ei ben ac ysgafn ei fron
I gario rhuglwisg sidan
Y frenhines ifanc lon.

A wyddost ti 'r hên hên hanes
Sy'n hanes mor dlws, yn hanes mor brudd ?
Rhy gryf ydoedd cariad ; marw
A orfu i'r ddau 'r un dydd.

XXX

Fry ar eurdroed ofnus esmwyth
Y crwydra pob rhyw seren dlos,
Rhag digwydd iddynt ddeffro'r ddaear,
A hithau'n huno ar lin y nos.

Y goedwig dawel saif i wrando,
A'i dail yn glustiau bach bob un ;
Yntau'r bryn a swrth ymestyn
Ei drom gysgodfraich drwy ei hun.

Ond pwy a alwodd ? Ar fy nghalon
Seiniodd adlais meinlais mwyn ;
Ai llais f'anwylyd oedd ? ai ynteu,
Dim ond eos yn y llwyn ?

XXXI

Crwydraf y freuddwydiol goedwig,
Crwydro'r goedwig gyda'r nos ;
Wrth fy ystlys innau'n wastad
Mae dy ddelw welw dlos.

Onid dyna dy wisg gannaid ?
Onid dyna d'wyneb mwyn ?
Ai nid yw ond goleu'r wenlloer
Dyr drwy wyll y tywyll lwyn ?

Ai fy nagrau dwys fy hunan
Glywaf yma'n ffrydio'n lli,
Ai tydi sy'n wir, f'anwylaf,
Yma'n wylo'n f'ymyl i ?

XXXII

Mi wyddwn iti 'ngharu,
A hyn wybûm yn hir ;
Ond pan addefaist imi,
Daeth arnaf fraw yn wir.

Dringais y bryn a chenais
Yn orfoleddus iawn ;
Cyrchais y môr ac wylais
Wrth fachlud haul prynhawn.

Mae 'nghalon fel yr huan
Pan elai'n dân i lawr,
Mewn môr o serch y sudda
Mor brydferth ac mor fawr.

XXXIII

Yr eneth ger y waneg
Ochneidio'n ddwys a wna ;
Tristau a wnaeth wrth weled
Ymachlud huan ha'.

Fy ngeneth bydd yn llawen,
Hen arfer haul yw hyn ;
Os suddodd yn yr eigion,
Fe gyfyd ar y bryn.

XXXIV

Ni soniais am dy ffalster
Wrth undyn yn y byd,
Ond dwedais wrth y pysgod
Sydd yn y môr i gyd.

Dy enw da adewais
Yn unig ar y tir ;
Ond gwyddant yn yr eigion,
Bob parth, dy warth yn wir.

XXXV

Mae'r môr yn loyw 'n nhywyn haul
Fel aur, ddiderfyn stôr ;
Fy mrawd, pan fyddwyf farw,
O, sudder fi'n y môr.

Bu'r môr yn annwyl annwyl im,
A llawer gwaith â'i li
Yr oerodd wres fy nghalon ;
A da fu'r môr i mi.

XXXVI

Yn seren wen tywynni yn fy nos,
Gwasgeri fwyn gysuron, seren dlos ;
A bywyd im addewi di—
Na thwylla fi.

Fel môr yn llifo tua'i loer uwchben
Y llifa'm henaid innau, seren wen,
Tua'th oleuni annwyl di—
Na thwylla fi.

XXXVII

Mor llon wyt yn fy mreichiau,
Ac ar fy mynwes i!
Dy nefoedd wyf, a thithau,
Fy seren wen wyt ti.

A dwfn o danom heidia
Ynfydion blant y byd,
Yn dadwrdd ac ymgaentach,
A cham a gânt i gyd.

* * *

Mor ddedwydd ydym ninnau
Ein bod mor bell uwchben.— —
Ti guddi yn dy nefoedd
Dy wyneb, seren wen!

XXXVIII

MYNYDDGAN

i

Ar y mynydd saif y bwthyn
  Lle preswylia'r cloddiwr hên ;
Yno'r pinwydd gwyrdd a sua,
  Yno'r lloer sy'n aur ei gwên.

Cadair freichiau sy 'n y bwthyn,
  Eres yw ei cherfiad hi ;
A eistedd arni, dedwydd ydyw,
  A'r dedwydd hwnnw ydwyf fi.

Ar y droedfainc eistedd geneth,
  Ar fy nglin ei gwenfraich dlos ;
Llygaid fel dwy loywlas seren,
  Gwefusau fel y porffor ros.

Y ddwy las seren edrych arnaf
  Fel sêr y nefoedd yn y nos,
A gesyd hithau fys fel lili
  Mor henffel ar y porffor ros.

Na, ni wêl y fam mohonom,
  Mae honno'n diwyd nyddu'i gwlân ;

A'r tad yn taro tannau'i delyn,
Ac yn canu'i hên hên gân.

Distaw y sisiala'r eneth,
Dal ei hanadl a wna hi,
A llawer o gyfrinion pwysig
Addefodd eisoes wrthyf fi.

"Byth er pan fu 'modryb farw,
"Braidd cawn fynd dros drothwy'r drws,
"Na gweld y saethu byth yn Goslar,—
"O, mae hwnnw'n lle bach tlws.

"Ac mae yma le mor unig
"Ar uchelion oer y bryn;
"Wedi'n claddu gydol gaeaf
"Yr ydym yn yr eira gwyn.

"Minnau, geneth ofnus ydwyf,
"Ac arswyd plentyn arnaf fydd
"Rhag ysbrydion drwg y mynydd,
"Sy'n brysur wedi cilio'r dydd."

Tewi'n sydyn wnaeth yr eneth,
Fel pe delai arni fraw
Rhag ei gair ei hun, a chuddiodd
Ei dau lygad â'i dwy law.

Uchel sua'r pîn oddi allan,
A rhua'r droell wrth nyddu'r gwlân ;
A chlywir sain y delyn rhyngthynt,
A chlywir mwmlian yr hên gân :

" Paid ag ofni, f'annwyl blentyn,
" Ysbrydion drwg na'u gallu hwy ;
" Ddydd a nos, fy annwyl blentyn,
" Engyl sydd i'th wylio mwy."

ii

Cura'r pîn â bysedd gwyrddion
Ar y ffenestr fach o hyd ;
Teifl y lloer ei haur oleuni
Drwyddi dan glustfeinio'n fud.

Y tad a'r fam yn eu hystafell,
Huno maent yn esmwyth iawn ;
Ninnau'n dau, parablu'n ddifyr
A pharhau yn effro wnawn.

" Dy fod," medd hi, " 'n gweddïo'n fynych,
" Credu hyn sydd anodd im ;
" Ni ddaeth y tro sydd ar dy wefus
" Yno o weddïo ddim.

"Ac mae'n dro mor oer ddireidus,
"Braidd nad yw'n fy nychryn i ;
"Ond tawelir f'arswyd wedyn
"Gan drem dy lygaid didwyll di.

"Ond ameu'r wyf dy gred a'th grefydd ;
"Dywed imi, wrth y tân,
"Onid wyt mewn difri'n credu
"Mewn Tad a Mab ac Ysbryd Glân ?"

A, fy ngeneth, yn fy mebyd
Ar lin fy mam y credais i,
Credu yn Nuw Dad goruchaf,
Ein mawr a'n mad Reolwr ni.

Ef a luniodd brydferth ddaear,
Ef roes arni brydferth ddyn ;
Haul a lloer a sêr osododd
Yn eu priod rod eu hun.

Ac wrth dyfu'n fwy, fy ngeneth,
Dëellais fwy a mwy o'r drefn ;
Daeth fy rheswm imi 'n oleu,
Credais yn y Mab drachefn.

Yn yr hygaraf Fab, o'i gariad
Ddatguddiodd gariad dwyfol drud ;

Ac yn dâl, yn ol yr arfer,
A groeshoeliwyd gan y byd.

Wedi tyfu'n awr a darllain,
Teithio a gweled mawr a mân,
Chwydda 'mron, ac o'm holl galon
Credaf yn yr Ysbryd Glân.

Gwnaeth y rhyfeddodau mwyaf,
Ac fe wna rai eto mwy ;
Drylliodd geyrydd y gorthrymwyr,
Drylliodd iau eu ceithion hwy.

Mae'n iachau hen glwyfau marwol,
Cyfyd hen iawnderau'n fyw ;
Genir pawb yn gyd-etifedd
O uchel fonedd dynol ryw.

Gyr ar ffo ryw fall gymylau,
A'r dychmygion duon sydd
Yn grwgnach serch a lloniant inni,—
Mingamu arnom nos a dydd.

Dewisodd fil o ddewr farchogion,
Fe'u gwisgodd mewn arfogaeth llawn,
I gyflawni 'i holl ewyllys,
Ac fe'u gwnaeth yn eofn iawn.

A'u cleddyfau draw'n melltennu,
A'u baneri'n chwyfio fry ;
Oni fynnit weld, fy ngeneth,
Un o'r fath ardderchog lu ?

Edrych arnaf fi, fy ngeneth,
Rho i mi gusan wrth y tân ;
'R wyf fy hun yn un ohonynt,
Marchog Urdd yr Ysbryd Glân.

DWY GALON YN YSGARU

Dwy galon yn ysgaru
Fu gynt yn caru'n gu,
Un gofid i'w gymharu
Â'r gofid hwn ni bu ;
Mor drist yw sain eu geiriau hwy—
"Ffarwel, ffarwel, byth bythol mwy !"
Dwy galon yn ysgaru
Fu gynt yn caru'n gu.

Pan adnabûm y gallai
Teg gariad fynd dan gudd,
'R oedd imi fel pe pallai
Yr heulwen ganol dydd ;
A geiriau rhyfedd oeddynt hwy—
"Ffarwel, ffarwel, byth bythol mwy !"
Pan adnabûm y gallai
Teg gariad fynd dan gudd.

Fy hoender ymadawodd,
Mi wn pa fodd y bu ;
Y pêr wefusau dawodd,
Gynt a'm cusanai'n gu ;
A dyma'n unig ddwedant hwy—
"Ffarwel, ffarwel, byth bythol mwy !"
Fy hoender ymadawodd,
Mi wn pa fodd y bu.

Geibel.

PAN DDIFLANNO GWRID

Pan ddiflanno gwrid yr hwyrddydd,
  Dringa'r lloer a'r gloywser tlws ;
A phan welwo'r sêr a'r lleuad,
  E ddaw'r haul o'i euraid ddrws.

Yn rhosynnaidd wrid yr awyr,
  Yn yr heulwen oleu glir,
Yn y lloer ac ym mhob seren,
  Ni welaf ond dy wedd yn wir.

Eraill welaf yn mynd heibio,
  Arnynt hwy ni syllaf fi ;
Am danat ti o bell myfyriaf
  Pan na bwyf yn dy ganfod di.

A phan agoshei ni allaf
  Byth dy weled eneth wen ;
Fe ddaw llonder, poen, a phryder
  Dros fy llygaid megis llen.

Pa fodd y gallaf dy anghofio,
  Pa fodd heb boen dy gofio di,
Pa mor agos bynnag byddych,
  Pa mor bell oddiwrthyf fi ?

Ernst Schulze.

CÂN Y BEDD

O, canwn lawen ganig
I'r bedd ac angeu'n awr,
A seinied yn odidog
I'r olaf wely i lawr.
Yn nhwynpath distaw'r fynwent
Dim bywyd hoff ni bydd ;
Ar ddedwydd adain hedodd
Yr enaid adre'n rhydd.

Ei brudd "Nos dâwch" diwethaf
A roes i dir y byw ;
Pob gwaith, enbydrwydd, angen,
Orffennwyd, gyda Duw,
A thristwch a llawenydd
Marwoldeb gwael i gyd ;
Mae'n gweld garlantau'n tyfu
Yng ngwanwyn bythol fyd.

Gan hynny, llawen ganwn
I'r bedd ac angeu'n awr ;
Caiff nefol gerdd adseinio
I'r gwely pridd i lawr !
Mae'r enaid wedi ennill
Gwawr bore'r bythol hedd ;
O dangnef claer yr edrych
Ar angeu du a'r bedd.

Arndt.

COLLI'R BABAN

Crwydra'r fam drwy bob ystafell,
  Crwydro i fyny, crwydro i lawr ;
Chwilio, ni ŵyr beth, ac wylo,—
  Bwthyn gwag a gaiff yn awr.

Bwthyn gwag !—O, air o alar
  I un y bu gynt ei bryd
Yno'r dydd ar fagu'r baban,
  Yno'r nos ar siglo 'i grud.

Eto daw i'r coed eu glesni,
  Eto daw i'r haul ei fri ;
Ond ni thycia, fam, it chwilio,
  Eto ni ddaw d'annwyl di.

Pan anadlo chwa dechreunos,
  Cyrcha'r tad ei gartref prudd ;
Ceisio gwenu—ceisio'n ofer,
  Rhed y deigryn hyd ei rudd.

Da gŵyr ef mai trwm lonyddwch
  Angeu sy tu mewn i'w ddrws,
Heb ond sŵn mam welw'n wylo,
  Ac heb wên ei blentyn tlws.

De la Motte Fouqué.

CATHLAU'R HESG

I

Haul y nefoedd a fachludodd,
Hunodd a distawodd dydd,
Ac i'r llyn, mor ddwfn a llonydd,
Gwyra brigau'r helig prudd.

Rhaid i mi d'osgoi, f'anwylyd;
Rhed, O ddeigryn, rhed ynghynt!
O, mor brudd y sua'r helig,
A'r hesg yn crynu yn y gwynt.

Yn fy nwfn a llonydd ofid
Mae dy lun yn ddisglair wyn,
Fel llun y seren hwyr yn twynnu
Drwy'r hesg a'r helig ar y llyn.

II

Tywyll yw, a'r glaw'n ymdywallt,
A'r cymylau'n wyllt uwchben;
Croch wylofain y mae'r gwyntoedd:
"Lyn, ple mae dy seren wen?"

Chwiliant am y gwawl a ballodd
Yn y dwfn gythryblus li.—
Nid yw'th gariad dithau'n gwenu
Yn fy alaeth dyfnaf i.

III

Hyd gynefin lwybr y goedwig
Yn yr hwyr y crwydraf fi,
Tua'r glannau brwynog unig,
Dan fyfyrio am danat ti.

Pan dywyllo'r llwyn, pan suo
Chwa gyfriniol yn yr hesg,
Pan alaront, pan sisialont,
Wylo wna fy nghalon lesg.

A thebygaf ar yr awel
Glywed sŵn dy lais yn awr,
A'r dirionaf gân a geni
Yn y llyn yn mynd i lawr.

IV

Suddodd haul, a hed
Du gymylau'n gynt;
O, mor fwll a phrudd
Yw pob awel wynt.

Draw trwy'r nefoedd wyllt
Gwibia'r mellt yn wyn;
Llewych llathr eu llun
Wibia ar y llyn.

Tybio'r wyf dy weld
Yn y mellt mor glir,
Ac yn chwifio draw
Dy sidanwallt hir.

v

Yn y llyn digyffro'r erys
Hyfryd oleu'r lleuad fwyn,
Sydd yn gwau rhosynnau gwelwon
Draw yng nghoron werdd y brwyn.

Crwydra'r hyddod ar y mynydd,
Ac i'r nos y syllant fry ;
Aml aderyn megis breuddwyd
Yn yr hesg yn symud sy.

Wylo wnaf nes pallu 'ngolwg ;
Ond trwy f'enaid, eneth dlos,
Rhed meddylfryd pêr am danat
Fel rhyw dawel weddi nos.

Lenau.

Y GAER SY GER Y LLI

A welaist ti'r uchelgaer,
Y gaer sy ger y lli,
Ac aur a rhos gymylau
Yn hofran drosti hi?

Hi fynnai wyro obry
I'r gloywddwr disglair iawn,
Ac esgyn fry i fflamgoch
Gymylau y prynhawn.

"Mi welais yr uchelgaer,
"Y gaer sy ger y lli,
"A'r lloer yn sefyll drosti,
"A tharth o'i hamgylch hi."

A suai awel hoyw?
A seiniai dedwydd donn?
A glywaist sŵn y tannau
O'r gaer, a lleisiau llon?

"Yn dawel iawn gorffwysai
"Y gwynt a thonnau'r lli;
"A galar gerdd a glywais
"O'r gaer, ac wylais i."

A welaist tithau'r brenin
A'i gydwedd tua'r gaer,
A chwifiad mentyll porffor,
A gwawl coronau claer ?

Ac onid oeddynt ddedwydd
Yng nghwmni eu geneth lon,
A thegwch fel yr heulwen
Yn twynnu'n eurwallt hon ?

" Y tad a'r fam a welais
" Heb goron gan yr un,
" Mewn duon wisgoedd galar—
" Ni welais ddim o'r fun."

Uhland.

BLODEUYN YR ALAW

Fe gyfyd teg flodeuyn
Ei ben o'r gloyw lyn,
A'i leithion ddail yn crynu,
Ac ef fel eira gwyn.

Y lloer a deifl ei llewych
Yn euraid oll o'r nef,
A'i phelydr oll a lifodd
Yn syth i'w fynwes ef.

O gylch yr alaw'r hwylia
Cain alarch gwyn ei liw;
Mor bêr a mwyn mae'n canu
Wrth weld y lili wiw.

Mor bêr a mwyn mae'n canu,
Mewn cân bydd farw ef;
Wyt ti, wen alaw, 'n deall
Ei beraidd lathraidd lef?

Geibel.

D'r Ffrangeg

CWYN Y GWRTHODEDIG

Os tybiwch y dywedaf pwy
A garaf fi,
Ni chymrwn deyrnas faith a mwy
A'i henwi hi.

Ond parod wyf, os mynnwch chwi,
I addef hyn,
Mai geneth gain a theg yw hi,
Fel gwenith gwyn.

Mi wnawn bob gorchwyl yn ddi-gŵyn,
Os archai hi;
A rhoi fy mywyd er ei mwyn
A allwn i.

Fy nghariad a ddirmygodd hi
Â dirmyg mawr;
A chlwyfus yw fy nghalon i
Hyd angeu 'n awr.

Er hyn nid enwaf byth mo'r ferch
A garaf fi ;
Pe byddwn farw er ei serch,
Nid enwn hi.

Alfred de Musset.

CYNGHORION CARIAD

O gwrando arnaf, eneth,
Achubwn flaen y dydd,
Oherwydd bore einioes
I serch yn gweddu sydd ;

Gad i ddoethineb watwar
Ein hocheneidiau ni ;
Gwell ydyw tristwch cariad
Na'i hoer bleserau hi.

De Jouy.

D'r Ëidaleg

CATHLAU SERCH

I

Os gweli yn blaguro
  Ymysg y llwyni drain,
Pan syrthio d'olwg arnynt,
  Un gwridog rosyn cain;

Os daw un awel hyfryd
  I'th gyfwrdd ar yr allt,
A chywrain hoffi chware,
  Irenë, a'th aur wallt;

Os ar dy lwybr y cyfyd
  Llysieuyn teca 'rioed,
Na ofyn it roi arno
  Ond ôl dy ddillyn droed;

Myfi, trwy rinwedd cariad,
  O, gwybydd, eneth dlos,
Myfi fydd y llysieuyn,
  A'r awel fwyn, a'r rhos.

II

Y mis a gâr teg Wener
Yn awr a ddaeth yn ôl,
A heddyw adnewyddu
Mae bryn a phant a dôl.

Ymysg y gwyrddion lysiau,
Y fioled lân yn ail
I wyry ŵyl y gwrida;
A'r tiwlip leda'i ddail.

A'i wisgo'i hun ag aeron
Gwridgochion y mae'r llwyn,
A'r goedwig hithau'n gwasgar
Rhyw beraroglau mwyn.

Holl natur yn blaguro
Mor hardd i'w thymor hi;
Ond ni flagurodd cariad
Fyth yn dy fynwes di.

III

O, ddedwydd bren a blennais,
Yr wyt ymysg y coed
Mor hardd a'r un a gododd
Ei frig i'r nef erioed.

Pa fodd yr ymestynnaist
  Ebrwydded ddail a brig,
Heb argyweddu arnat
  O'r stormydd grymus dig ?

Yr enw hoff a dorrais
  Yn d'iraidd risg ryw dro
A'th gadwodd rhag tymhestloedd,
  A'u gyrrodd hwynt ar ffo.

Mae'r enw'n fy mron innau,
  A serch a'i cerfiodd ef ;
Ond storm sydd yn fy nghalon
  Yn curo'n greulon gref.

IV

O, gwrando freuddwyd welais,
  Anghywir feinir fun ;
Wrth ogof yr hen ddewin
  Y safwn trwy fy hun.

Wrth ogof yr hen ddewin
  A godai'r hudlath gynt
Nes peri i'r lleuad welwi,
  Nes peri codi'r gwynt.

O, ddewin, yn fy ystlys
Mae imi ofid blin;
Iachâ fi o dosturi
Â'th lysiau mawr eu rhin.

Y dewin hen a chwarddodd—
"Ffo rhagddi heb ymdroi;
"Ni chei ragorach llysiau
"At wella'r clwyf na ffoi."

v

Gwêl ganned ydyw'r lleuad,
Gwêl lased ydyw'r nos.
Un awel nid yw'n murmur,
Ni chryn un seren dlos.

A hed aderyn unig
O'r gwrych i frigau'r onn,
A geilw dan ochneidio
Ar ei anwylyd lon.

A hithau'n prin ei glywed,
O lwyn i lwyn yr â;
Ac fel pe'n ateb iddo,
"'R wyf yma, na thristâ."

Cyffelyb serch, Irenē,
Sydd im, cyffelyb gŵyn ;
Ac O, na roddit tithau
Gyffelyb ateb mwyn.

VI

Na thyred at y beddrod
Lle'm rhodded dan y gŵys ;
Mae'r fangre'n gysegredig
I'm cur a'm dolur dwys.

Ni fynnaf mo'th wylofain,
Na'th flodau teg eu gwawr ;
Pa les i mi yw blodau,
Pa les yw dagrau'n awr ?

Dylasit estyn gronyn
O gymorth imi 'r pryd
Y gwelaist fi'n dihoeni,
Ymboeni yn y byd.

A diles ydyw d'alar
Am danaf mwy, fy mun ;
Gad i luddedig enaid
Ei dawel isel hun.

Vittorelli.

Y DYMUNIAD

Pr beirdd nid eiddigeddaf
Eu clodydd a'u cadeiriau,
A chwennych aur na chreiriau
Un teyrn nid ydwyf fi;
Ond gwyn fy myd na welwn
Flodeubleth i'm coroni,
Pob lliwiog glwm o honi
O waith dy fysedd di.

A gwyn fy myd na byddwn
Dan wŷdd caeadfrig irion,
A gwedd dy wyneb tirion
I'm llonni danynt hwy;
Newidio mwyn olygon
Lle suai'r dail yn donnau;
A dwedyd, "Hoff galonnau,
"Paham y curwch mwy?"

Ugo Foscolo.

Y BLODEUGLWM

Fugeiliaid cesglwch imi
O flodau detholedig,
Addewais glwm plethedig
O'r rhain i Wenno dlos;

Mi a'i gwnawn i gyd fy hunan,
Ond hwyr yw'r awr i hynny ;
Mae'r wawrddydd yn tywynnu
Yn wridog fel y rhos.

Dywedaf fi mai minnau
A'i gwnaeth i'r eneth fwynaf;
Ond O, pam y difwynaf
Fy ngwefus wrthi hi ?
Nis mynnaf ; a phes mynnwn,
Hi wyddai wrth eu nodau,
O fil a mil o flodau,
Pa rai fai 'mlodau i.

Ugo Foscolo.

LLATEIAETH YR AWELON

Awelon, ewch at Forfudd
Sy'n rhodio'r coedydd hyfryd,
Heb glywed cwynion dyfryd
Un cywir fab a'i câr ;
Gall mai ar lan afonig
Y'i cewch ymysg y blodau,
Neu'n gorffwys dan gysgodau
Canghennog frigau'r ddâr.

Awelon, ewch at Forfudd,
Sibrydwch fy uchenaid,

Mynegwch alar f'enaid,
A'm cariad cywir i ;
Chwareuwch â'i sidanwallt,
Ac at ei grudd cyfeiriwch,
Ac yna cyniweiriwch
Yn bêr i'w chalon hi.

"O, tro, addfwynaf eneth,"
Dywedwch wrthi 'n araf,
"O, tro, y fun hawddgaraf,
"Dy feddwl at dy fardd."
Y mwyn awelon tyner,
O un i un cydsyniant,
Dan addaw yr erfyniant
Dosturi'r eneth hardd.

Mae'r lili'n plygu'u pennau,
A'r manddail yn ymdonni,
Maent hwythau'n digalonni
Wrth weld fy nhrallod i.
Os tostur gan y blodau
A chan awelon mwynion
Fy ngalar dwys a'm cwynion,
Pa wedd na wrendy hi ?

Ugo Foscolo.

D'r Llydaweg

DYCHWELIAD Y GWANWYN

Pan godais yn y bore hardd,
Fe wenai'r haul yn llon;
Disgynnais innau draw i'm gardd
Yn ysgafn iawn fy mron.

O, dlysed yw y blodau gwiw
Ymysg y gwellt a'r dail,
Rhai melyn a rhai glas eu lliw
A gwyn a choch bob ail.

Y blodau wrth im basio fel
Pe'n cyfarch "bore da";
Pob un yn codi 'i ben mor ffel,
A gwenu arnaf wna.

Mi glywaf lais aderyn bach
Yn canu ar bob pren;
A chlaear ydyw'r awyr iach,
A glas yw'r nef uwchben.

Mae'r dryw yn adrodd yma'n gu,
A'r fronfraith dirion draw,
Fod wedi'r gaeaf caled du
Ryw ddyddiau gwell gerllaw.—

Pan oeddwn ddoe mor friw fy mron,
A'm calon bach mor brudd,
Paham mae hon yn awr mor llon
Yn canu gyda'r dydd?

Fel adar hoff neu flodau'r ardd,
A'r haul a'r awel bur,
Neu fel y nef a'r ddaear hardd,
Anghofiodd hithau 'i chur.

F. M. Luzel.

D'r Wyddeleg

CATHLAU SERCH CONNACHT

I

Fy nghariad i, fy nghariad i,
Y ferch a'm clwyfodd ydyw hi;
Anwylach yw er peri im loes
Na merch yn f'oes liniarai 'nghri.

Y deg ei gwedd, y deg ei gwedd,
Hi aeth a'm hysbryd i a'm hedd;
Ochenaid nid anadlai hi
Am danaf fi uwchben fy medd.

Fy mhrydferth em, fy mhrydferth em,
Y ferch ni ddyry arnaf drem;
Ni chaf dangnefedd byth gan hon,
Mae dan ei bron elyniaeth lem.

Fy nghalon i drywanodd hi,
A'm hocheneidiau sydd heb ri;
Os balm ni chaf i wella 'nghlwy,
Dim einioes mwy nid oes i mi.

II

Gwae fi o'r eigion,
  Ef sydd yn fawr!
Ef sy'n mynd rhyngof
  A'm cariad yn awr.

Gadawwyd fi adref
  I alar fy mron,
Heb obaith cael myned
  Byth byth dros y don.

Gwae fi na welwn
  Fy nghariad mwyn i
Eto am unwaith
  Tu yma i'r lli.

Gwae fi na byddwn
  Ac ef ger fy llaw
Ar fwrdd llong yn cyrchu
  America draw.

Neithiwr fy ngwely
  Oedd lasfrwyn ar lawr,
A theflais ef ymaith
  Pan dorrodd y wawr.

Fy nghariad ddaeth ataf
  Pan hunwn yn flin,
Ei ysgwydd ar f'ysgwydd,
  A'i fin ar fy min.

III

Pe byddem ar foel Neffin,
  Myfi a'm cariad wen,
Mor ddedwydd y cydfydiem
  A'r adar ar y pren.

Ei genau bach parablus
  Yn llwyr a aeth a'm hedd,
Ac ni chaf gysgu 'n dawel
  Byth eto cyn fy medd.

Mor ddedwydd ydyw'r adar
  Sy'n esgyn fry i'r nen,
A huno gyda'i gilydd
  Ar un o frigau'r pren.

Mor bell y gwelir finnau
  Oddiwrth f'anwylyd i
Pan gyfyd haul y nefoedd
  Bob bore arnom ni !

IV

Gwrando arnaf, eneth wen,
Ar dy ben yr aur a drig;
Ymdonni mae'n llywethau llaes,
Hyd wellt y maes y tyf ei frig.

Dy felys wefus liwus lân
A'th ddannedd mân a'm gwnaeth yn syn;
Lluniaidd dâl a gên fach gron,
Gwddf a bron fel alarch gwyn.

Mae dy rudd sydd fel y rhos,
Eneth dlos, a'th feinael di,
Mae d'olygon araf mwyn
Wedi dwyn fy mywyd i.

D'r Saesneg

CÂN

Pwy yw Silvia ? Beth yw hi
  Fod pob mab yn ei chanmol ?
Santaidd, teg, a doeth yw hi ;
  Y nef roes iddi rasol
Ddoniau fel yr hoffid hi.

Os teg, ai mwyn yw hi 'r un modd ?
  Â mwynder trig tlysineb :
Cariad i'w ḍau lygad ffodd,
  I'w helpu o'i ddallineb ;
Ac yno, o gael help, ymdrodd.

Gan hyn i Silvia canwn gân
  Fod Silvia yn rhagori,
Rhagori ar bopeth mawr a mân,
  Ar ddaear ddwl sy'n oesi ;
Rhown iddi blethi blodau glân.

Shakespeare.

I ANTHEA

A ALL ERCHI UNPETH IDDO

Arch imi fyw, a byddaf byw
  Yn Brotestant i ti ;
Neu arch im garu, ac iti rhof
  Fy nghalon serchog i.

Calon mor dyner ac mor fwyn,
  Calon mor iach a ffri
A'r un a gei'n y byd i gyd,
  Rhof honno i gyd i ti.

Arch iddi sefyll, ac hi saif
  O barch i'th archiad di ;
Arch iddi nychu ymaith oll,
  Hyn hefyd a wna hi.

Arch imi wylo, ac wylo wnaf
  Tra pery'm llygaid i ;
Ac hebddynt, cadwaf galon byth
  I wylo erot ti.

Arch im dristau, a hynny dan
  Y gypres draw wnaf fi ;
Neu arch im farw, a beiddio wnaf
  Yr angeu i farw i ti.

Fy hoedl a'm serch a'm calon wyt,
  Cannwyll fy llygad i ;
A chennyt feddiant ar bob rhan
  I fyw a marw i ti.
Herrick.

EIDDIGEDD Y SAINT

Yr eneth hoff a aeth a'm serch
Oedd gymaint uwch na neb rhyw ferch,
Ar saint y nef rhagorem ni,
Mewn glendid hi, mewn cariad fi.

A hwythau, am na fynnynt fod
Yn ail i rai sydd is y rhod,
A gymerth hon i'w plith eu hun,
A'm gadael innau'n druan ddyn.
Duke of Buckingham.

Y CUSAN

Mae'r enaid, medd athronwyr byd,
Fel meudwy yn ei gell fach glyd,
Yn byw'n ymennydd dyn o hyd.
Nid wyf athronydd, eto gwn
Yn llygaid Gwen im ganfod hwn ;
I'w gwefus llithrodd, a myfi
Gusenais yno 'i henaid hi.—*Anhysbys.*

I CELIA

Yf im, pe na bai ond â'th drem,
A'm trem a yf i ti ;
Neu gusan yn dy gwpan gad,
A gwin ni fynnaf fi.
Rhyw ddwyfol ddiod im sy raid
At syched f'enaid i ;
Ond gwell na medd y duwiau im
Yw medd dy wefus di.

Mi yrrais gynt it bwysi rhos,
Nid gymaint er dy fri
Ag er rhoi gobaith iddo ef
Na wywai gyda thi.
Anadlu wnaethost arno draw,
A'i yrru 'n ol i mi :
Fe dyf, ag arogl, mi wnaf lw,
Fel d'arogl peraidd di.

Ben Jonson.

FFYDDLONDEB

Gwared fi ! 'r wy'n caru'n awr
Ers tridiau gyda 'i gilydd,
A golwg dal am dridiau 'n hwy,
Os bydd teg y tywydd.

Moel fydd esgyll amser hên
  Cyn y dêl o hyd
I ffyddloned carwr byth
  Yn y byd i gyd.

Ond, ysywaeth, nid oes dim
  O'r glod i'w rhoi i mi ;
Gyda mi nid oedai serch
  Oni bai am dani hi.

Oni bai am dani hi,
  A'r wyneb hwnnw'i hun,
Ni charaswn lai, cyn hyn,
  Na dwsin yn lle un.

Syr John Suckling.

I'R GOG

O hoyw ymwelydd ! clywais di,
  Clywaf a llawenhâf ;
Ai d'alw di 'n aderyn, Gog,
  Ai'n llais crwydredig gaf ?

Pan fwyf yn gorwedd ar y gwellt,
  Daw'th ddeublyg lef i'm clyw ;
Mae fel pe'n gwibio o fryn i fryn,
  A phell ac agos yw.

Ac er na cheni ond i'r ddôl
Am haul a blodau cu,
I minnau dygi chwedlau am
Ryw hudol oriau fu.

Anwylyd Gwanwyn, croeso it !
Fyth nid aderyn ddim,
Ond rhywbeth anweledig—llais
A chyfrin beth wyt im.

Yr un yn nyddiau f'ysgol gynt
Wrandewais ; dyna'r llef
A wnaeth im edrych fil o ffyrdd,
I'r llwyn, a'r coed, a'r nef.

A chrwydro'n aml i'th geisio di
Drwy goed a chaeau wnawn ;
Rhyw serch, rhyw obaith oeddit fyth ;
A'th weled fyth nis cawn.

A'th wrando eto allaf fi,
Caf orwedd ar y ddôl
A gwrando, nes im ddwyn yr aur
Amseroedd hynny'n ol.

Aderyn glwys ! ymddangos fyth
Wna'r ddaear droediwn ni
Fel ansylweddol, ledrith le :
Dy addas gartref di.—*Wordsworth.*

MARY FY MUN

Draw dros y bryniau pell
  Crwydra gwyllt afon,
Draw dros y bryniau pell
  Gorffwys fy nghalon.
Glanach na gem na pherl,
  Tecach ei llun,
Yno mewn tlysni trig
  Mary fy mun.

Draw ar ros Claris bell
  Twynna'r teg aeron,
Hongian oddiar y pren
  Mae ceirios cochion ;
Melysach ei gwefus fêl,
  Tecach na'r un
Y fodrwy o wallt ar rudd
  Mary fy mun.

Prynhawngwaith o Ebrill teg
  Gwelais hi gyntaf ;
Llawer prynhawngwaith fydd
  Cyn y'i hanghofiaf.
Fy nghalon fel corwynt byth
  Ynof y sy'n
Synio, breuddwydio am
  Fary fy mun.

Rhy dyner yw hi, rhy fwyn
Byth i'm gofidio;
Rhy bur yw ei chalon hi
Byth, byth i'm twyllo.
Petwn yn arglwydd gwlad
Neu'r teyrn ei hun,
Fy oes fyddai 'n dywyll heb
Fary fy mun.

Draw dros y bryniau pell
Crwydra gwyllt afon,
Draw dros y bryniau pell
Gorffwys fy nghalon.
Glanach na gem na pherl,
Tecach ei llun,
Yno mewn tlysni trig
Mary fy mun.

John K. Casey.

ANNABEL LEE

Llawer blwyddyn faith yn ol,
Mewn teyrnas ger y lli,
Yr oedd yn byw enethig dlos,
A'i henw oedd Annabel Lee;
A meddwl ei bywyd, fy ngharu oedd,
Ac i minnau ei charu hi.

Nid oeddwn ond plentyn, a phlentyn oedd hon,
Yn y deyrnas ger y lli ;
Ond carem â serch oedd yn fwy na serch,
Myfi a'm Annabel Lee,
Â serch yr aeth sereiff adeiniog y nef
I'w chwennych oddiarnom ni.

A dyna paham, flynyddoedd yn ol,
Yn y deyrnas ger y lli,
Y daeth oerwynt o'r cwmwl du i wywo
Fy mhrydferth Annabel Lee ;
Ac y daeth ei cheraint bonheddig i'w dwyn
Ymaith oddiarnaf fi,
A chau f'anwylyd yn y bedd,
Yn y deyrnas ger y lli.

Nid hanner mor ddedwydd oedd engyl y nef,
A hwy aeth i wrafun i ni —
Ië, dyna paham (a phawb a'i gŵyr
Yn y deyrnas ger y lli)
Y daeth oerwynt o'r cwmwl du yn y nos
I ddeifio a gwywo fy Annabel Lee.

Ond ein serch oedd yn gryfach o lawer na serch
Y rhai oedd yn hŷn na ni,
A challach o lawer na ni ;
Ac ni all nac engyl y nef uwchben,
Na'r ellyllon o dan y lli,

Ni allant ysgar fy enaid byth
Oddiwrth enaid fy Annabel Lee.

Canys ni thywyn lloer a'i phelydr oer
Na freuddwydiaf am Annabel Lee ;
Ac ni chyfyd sêr na welaf fi dêr
Loyw lygaid fy Annabel Lee ;
A'r nos faith yn un, gorweddaf fy hun
Wrth ystlys f'anwylyd, fy mywyd, fy mun,
Yn y beddrod yn ymyl y lli,
Yn y bedd sydd yn sŵn y lli.

Edgar Allan Poe.

HOFF WLAD

Pan ddelo 'r pryd i brofi'n bryd,
Ai pur ai halog fo,
Ai'n ango'r â'n holl ddyled lân
I'n genedigol fro ?
Dy ros yn awr sy wineu 'i gwawr,
A glas yw ton dy li,
Ond drostynt bydd y porffor rhudd,
Cyn y bradychaf di,
Hoff wlad,
Cyn y bradychaf di.

Wrth weld dy gry' fynyddoedd hy,
Pob llyn, pob nant mor hardd,

O fewn fy mron rhyw gymysg don
O boen a balchder dardd ;
Meddyliaf am dy hirfaith gam,
Dy ddewr ferthyron di,
A thaflaf draw y dagrau ddaw—
Nac *wylwn* drosot ti,
Hoff wlad,
Nac *wylwn* drosot ti.

Gwŷr eraill fedd ddyfalu'r wedd
I fynnu'r iawn i ti ;
Â gwaith neu gais, â chledd neu lais,
Ei dilyn boed i mi.
Y fron fo'n ddur gan sêl a chur,
Nid ofn a'i concra hi ;
Ped angeu ddôi, merthyrdod drôi
Yn felys drosot ti,
Hoff wlad,
Yn felys drosot ti.

Sliabh Cuilinn.

GOBEITHION BORE OES

Mor deg meddyliau gwanwyn oes !
Fel dyri hên, yn lli
Gorlawn o gariad, bywyd, ffydd,
Y llifai f'yspryd i.

Gobeithiais achub cam fy ngwlad,
Cael hynod eurglod hardd,
A chael gorffwysfa 'ngwenau merch,
Ac ennill enw bardd.

A'r gobaith eto, drwy bob gwae,
Dywynna'n obaith pell,
Nas gallodd tegwch haf fy oes
Dywyllu 'i oleu gwell.

A'i oleu'n gwylio uwch fy mhen
Mewn maes a chysegr sydd,
A'i lais fel hyfryd seraff lais
Yn seinio 'Cymru Fydd.'

Thomas Davis.

EISTEDDFOD ABERFFRAW

1849

Yn oes Llywelyn safai plas
Ar draeth Aberffraw Môn ;
Ac yn y neuadd wrth y wledd
Arllwysai'r tannau 'u tôn.

A phleser redai'n gynt ei rod,
A chodai'n uwch o hyd,
Lle'r oedd y dewr yn gwrando'r gân,
Lle gwenai'r glân eu pryd.

Dadfeiliodd y neuaddau llon,
Ni cheir mo'u holion mwy ;
Ond da fod heddyw dant a thôn,
Y fan y sefynt hwy.

Ni egyr teyrn mo'i ddorau'n awr,
Na phlas ni rydd ei fri ;
Er hyn mae balchder santaidd dwfn
I'n mad gynhulliad ni.

Ni raid galaru am deyrnas goll,
Nac am ogoniant gwyw ;
Os meirw yw'n brenhinoedd hên,
Mae'n cenedl eto'n fyw !

W. T. Parkins.

COELCERTHI'R MYNYDD

Tân i'r bryniau ! Fflachied nefoedd
Fel â gwawl goruchion coch !
Ni fydd gwyntoedd nos ond chwaon
I'r goelcerth fflam, er chwythu'n groch.
Taniwn ! nes llifeirio'r fflamau
O freiniol lethr yr Wyddfa fry
I donnau llachar Menai obry,
Lle croesodd y Rhufeinig lu.

Coelcerthi'r mynydd a ddyrchafer,
Pentyrrwn hwynt i'r storm a'r gwynt,

Nes disgleirio tonnau'r eigion
  Wrth ruthro heibio ar eu hynt.
Pob rhyw graig, ban drigfa'r niwloedd,
  Saif mewn goleu rhuddgoch fry ;
Pentyrrwn fflamau, ac o'u hamgylch
  Adroddwn chwedlau Cymru Fu.

Felly cadwai'n tadau ẽon
  Lawer gwylnos ddifrif ddwys,
Yn yr oesoedd maith aeth heibio,
  Pan wylynt am eu meirwon glwys.
Yn y gwyntoedd clywn eu lleisiau—
  " Od yw well eich tynged chwi,
" Pan lawenycho gwlad y bryniau,
  " Nac aed o'ch cof ei chedyrn hi."

Felicia Hemans.

D'r Berseg

PENILLION

OMAR KHAYYÂM

SERYDDFARDD PERSIA

I

O'r gwindy gyda'r dydd y torrodd llef—
"Gymdeithion, wele'r wawr ar drothwy'r nef;
"Cyfodwch, llanwed pawb ei fesur gwin,
"Cyn llenwi mesur ei amseroedd ef."

II

Yr haul a deifl ei dennyn am y to;
Kai Khwsraw'r dydd a dywallt ei win o;
Yf win! canys cyhoedda rhingyll gwawr,
"Yfwch, mae'r dyddiau'n prysur fynd ar ffo!"

III

Y dydd a ddaeth i lesni hulio'r pren,
A'i gangen fel llaw Moesen a dry'n wen;
Mae'r byd drwy anadl Iesu'n ymfywhau,
A llygaid y cymylau'n llaith uwchben.

IV

Hyfryd yw'r dydd a chlaear ydyw'r hin,
Glawiodd y cwmwl ar y blodau crin ;
A chwyna'r eos wrth y gwelw ros,
"Mae'n rhaid i tithau wrth ychydig win."

V

Ar rudd y tiwlip gwena gwlith y nen,
A'r fioled yn yr ardd a blyg ei phen ;
Ond hoffach gennyf fi'r blaguryn rhos,
Y rhos a dynn ei wisg am dano'n denn.

VI

Dywed y rhos, "O'm haur wyf hael o hyd,
"Dan chwerthin, chwerthin fyth y dof i'r byd ;
"Torraf y llinyn oddiam enau 'nghod
"Nes bwrw 'nghyfoeth ar y llawr i gyd."

VII

Hyfryd i'r rhos yw'r awel ar ei rudd,
Hyfryd yw d'wyneb hardd ymysg y gwŷdd ;
Am ddoe aeth heibio nid yw'n hyfryd sôn,—
Na soniwn gan fod heddyw'n hyfryd ddydd.

VIII

Gwell gennym gongl a thamaid na'r holl fyd ;
Bwriasom chwant ei radd a'i rwysg i gyd ;
Â'n calon oll prynasom dlodi, do,
Ac yn y tlodi cawsom gyfoeth drud.

IX

Pob rhyw adduned wneuthum, torrais hi,
A chaeais rhagof ddorau parch a bri ;
Na feia arnaf ymddwyn megis ynfyd,
Yr wyf yn frwysg ar win dy gariad di.

X

Dy arogl pêr i'm calon ddwys a ddaeth,
A hithau, gado 'mron a'th ddilyn wnaeth ;
Ni chofia am ei hen berchennog mwy,
Ond megis rhan o'th natur di yr aeth.

XI

Yma'n y diffaith fyd lle trigwn ni,
Crwydro a manwl chwilio y bûm i ;
Ond cypres nis canfûm mor seth a'th gorff,
Na lloer mor oleu a'th wynepryd di.

XII

Ychydig wridog win a llyfr o gân,
A thorth wrth raid, a thithau, eneth lân,
Yn eistedd yn yr anial gyda mi—
Gwell yw na holl frenhiniaeth y Swltân.

XIII

Cyfod, dwg win : ple'r ymddiddanwn ni ?
Dy eiriau heno yw fy lluniaeth i ;
Dwg win rhosynnaidd fel dy ruddiau teg,
Cythryblus ydwyf fel dy fanwallt di.

XIV

Mae'r rhos â chysgod cwmwl ar ei rudd,
Ac awydd cyfedd ar fy nghalon sydd ;
Na huna ; pa raid iti huno weithion ?
Dwg win, f'anwylyd ; mae hi eto 'n ddydd.

XV

Gan nad oes fechni am yfory i ti,
Bydd lawen dithau heno gyda mi ;
Yf win yngoleu'r lloer, fy Lloer, daw'r lloer
Eto i dywynnu heb ein canfod ni.

* * * *

XVI

Cyfod mae'r wawr mor welw a'r eira mân,
A syll am liw yng ngwedd y gwin coch glân ;
Cymer ddau foncyff aloe arogl bêr,
Gwna un yn delyn, a gwna'r llall yn dân.

XVII

Dwg feddyginiaeth calon at fy mant,
O arogl mwsg a gwrid rhosynnau gant ;
Os mynni gyffur rhag y trymfryd trist,
Dwg ruddem win a thelyn sidan dant.

XVIII

Os gwin a rwygodd gochl fy mharch yn ddwy,
Er hyn y gwin nis dïofrydaf mwy ;
Rhyfeddu'r ydwyf at y gwerthwyr gwin,
Beth well a brynant nag a werthant hwy.

XIX

Fy min ar fin y ffŷol a rois i,
I ofyn rhin yr einioes iddi hi ;
Ac yna, fin wrth fin, sibrydodd hon,
" Yf win, cans yma ni ddychweli di."

XX

Yf win ; cei huno'n hir yn erw'r plwy',
Heb ffrind na phrŷod i'th ddiddanu'n hwy ;
Nac adrodd y gyfrinach hon wrth neb :
" Y rhos a wywodd ni flodeua mwy."

XXI

Maith, maith, pan na bôm ni, y pery'r byd,
Heb air o sôn am danom ynddo i gyd ;
Nid oeddem gynt, ac yntau nid oedd waeth ;
Ni byddwn, ond yr un fydd ef o hyd.

XXII

Cyn dyfod Angau ar ei ruthrgyrch dwys,
Pâr ddwyn it win o wrid y rhosyn glwys ;
Nid aur wyt ti, O ynfyd, fel y'th gladdant
I gloddio am danat eilwaith dan y gŵys.

XXIII

Soniant am Nef a Ffynnon Kawsar draw,
Lle mae gwin pur a mêl i bawb a ddaw ;
Llanw fy nghwpan gwin a dyro im,—
Gwell gennyf fi na chael yw tâl ar law.

XXIV

Mwyn, meddant, yw rhianedd y Wlad Well ;
Mwyn, meddaf innau, ydyw'r gwin o'r gell ;
Cymer dy dâl, heb ddisgwyl dim ar goel,—
Fy mrawd, mae twrdd tabyrddau'n fwyn — o bell.

XXV

Dirgelion Tragwyddoldeb nis gwn i,
A darllain gair o'u gwers nis gelli di ;
Soniant am danom ni tu hwnt i'r llen,
Ond, pan ddisgynno'r llen, ple byddwn ni ?

XXVI

Nid oes i neb dramwyfa hwnt i'r llen,
A pheth sydd yno nis gŵyr neb is nen ;
Nid oes in noddfa ond ynghrombil daear—
Yf win ; ar y fath siarad nid oes ben.

XXVII

O, na bai le o orffwys inni'n wir,
I ddyfod iddo wedi'n lludded hir ;
Ac na bai obaith ym mhen mil can' mlynedd
Y tarddem eilwaith fel yr egin ir !

* * * *

XXVIII

O, fy anwylyd dirion torrodd gwawr ;
Cân im dy delyn a dwg win yn awr ;
Trwy ddyfod Mai a myned Rhagfyr taflwyd
Canmil Kai Khwsraw a Jamshîd i lawr.

XXIX

Rho'r cwpan yn fy llaw, tanbaid yw 'mron ;
Llithro fel arian byw mae'n heinioes hon ;
Ac nid yw ffafrau ffawd ond breuddwyd gwag,
Fe ffŷ'r ieuenctid fel llifeiriant tonn.

XXX

Ni phery'n hoes ond bore a phrynhawn,
A phoen a gofid ynddi i gyd a gawn ;
Yna, heb ddatrys o'i dirgelion un,
Â mil o waeau dan y fron yr awn.

XXXI

Pan oedd im hoywder yn y bywyd hwn,
Gwyddwn gyfrinion y cyfanfyd crwn ;
Ond heddyw, eglur y canfyddaf fi,
Fy mywyd aeth ar gil, a dim nis gwn.

XXXII

Yn ifanc ar y doethion y gwrandawn,
A'u holl ddoethineb a wybûm yn llawn ;
A dyma ben y cwbl a ddysgais i :
"Fel dŵr y deuthom, ac fel gwynt yr awn."

XXXIII

Dynion trwy ddysg a thrwy athrylith sy'n
Goleuo megis cannwyll i'w cyd-ddyn,
Ni wyddant gam o'r ffordd trwy'r ddunos hon—
Traethant eu chwedl, a hunant eu hir hun.

XXXIV

Y gŵyr, O Sâkl, a'n rhagflaenodd gynt,
Hunant yn llwch hunandyb wedi eu hynt;
Yf win, a gwrando gennyf innau'r gwir—
A adroddasant oll, nid yw ond gwynt.

XXXV

Na dderbyn dithau mo'u credoau crin,
Ond dyro damaid i'r anghenog blin;
Absen na wna, ac na niweidia neb,
Mi wrantaf iti Nefoedd.—Dwg im win!

XXXVI

Gŵr a gwawl cariad yn ei galon ef,
Ai Synagog ai Masjid fyddo'i dref,
Sgrifennwyd enw hwnnw'n Llyfr y Cariad,
Ac ni phetrusa am Uffern nac am Nef.

XXXVII

Teml eilun fel y Ka'bah, cysegr yw,
A sŵn y Gloch sy sŵn addoliad byw;
Ydyw, mae'r Eglwys a'r Zwnnâr a'r Groes
Oll yn gyfryngau i addoli Duw.

XXXVIII

Medd eilun i'w addolwr, "Pam, O ddyn,
"Y plygi im? O herwydd yn fy llun
"Fe roes yr Hwn a weli ynof ran
"O'i degwch a'i hawddgarwch Ef ei Hun."

XXXIX

Dy geisio, Iôr, mae dyn, drwy'i wŷn a'i wall;
Poed lwm, poed lawn, dy gaffael Di nis gall;
Mae d'air ynghlustiau pawb a phawb yn fyddar,
Yngolwg pawb yr wyt a phawb yn ddall.

XL

Eithr os dy wyneb oddiwrth bawb a geli,
I'r amlwg eilwaith yn dy waith dychweli:
Tydi sy'n dal y drych i Ti dy Hun—
Tydi dy Hun a welir ac a weli.

* * * *

XLI

Fel llif mewn afon, ac fel gwynt ar draeth,
Dydd arall o derm f'einioes treiglo wnaeth;
Am ddau o ddyddiau ni ofidiaf fi,
Am ddydd i ddyfod, ac am ddydd a aeth.

XLII

Bydd lawen yn dy fywyd, na fydd brudd;
A meithrin farn yn lle'r ffolineb sydd;
A chan nad ydyw'r byd i gyd ond diddim,
Cyfrif nad wyt ond diddim, a bydd rydd!

XLIII

Fe benderfynwyd ddoe pa wobr a gei,
A doe nis cyfnewidi ac nis dilei;
Bydd lawen, canys, heb dy gennad di,
Fe bennwyd ddoe pa beth yfory a wnei.

XLIV

Y Pin yn y dechreuad fu'n coffàu
Y drwg a'r da, heb gloffi na llesghau ;
Cyn dichlais dydd y cread y bu'r Arfaeth,
Ac ofer iti wingo na thristàu.

XLV

A chan mai gwir y gair, pa les yw dwyn,
O herwydd dy drabluddiau, och a chŵyn ?
Dygymydd di â'th dynged—ni thry'r Pin
I newid un llythyren er dy fwyn.

XLVI

Ac am y drwg a'r da sy'n natur dyn,
Y gwae a'r gwynfyd sydd ar ran pob un,
Na chyfrif hwynt i'r Rhod—mae honno'n fil
Mwy di-ymadferth na thydi dy hun.

XLVII

Cyn dal meirch gwyllt yr haul yn nhrec eu Rhi,
Cyn gosod deddf Parwîn a Mwshtarî,
Hon oedd y rhan a dyngodd Tynged im ;
Pa fodd y pechais ? Dyma 'nghyfran i.

XLVIII

O begwn Sadwrn i'r dyfnderoedd cudd,
Datrys a wneuthum bob dyryswch sydd ;
Llemais drwy rwymau celwydd, do, a thwyll—
Pob clwm ond clwm Tynghedfen aeth yn rhydd.

XLIX

Trwy len Tynghedfen nid oes ŵr a êl,
Na golwg o'i dirgelwch neb nis gwêl ;
Myfyriais, ddydd a nos, am ddeuddeng mlynedd
A thrigain, ac mae'r cyfan imi'n gêl.

L

I'r cyngor cudd nid oes a ddyry lam ;
Ni chemir dros y terfyn hanner cam ;
Oddiwrth y disgybl at yr athro trof,
A dirym megis minnau pob mab mam.

LI

Tynged â'i gordd a'th yrr fel pêl ar ffo
I ddëau ac i aswy yn dy dro :
Y Gŵr a'th fwriodd i'r blin heldrin hwn,
Efô a ŵyr, Efô a ŵyr, Efô.

LII

Yn wir, rhyw ddernyn gwyddbwyll ydyw dyn,
Tynged yn chware â hwnnw 'i chware 'i hun ;
Ein symud ar glawr Bywyd, ôl a blaen,
A'n dodi 'mlwch yr Angau, un ac un.

LIII

Fel llunio llestr drwy ryw gywreiniaf drefn,
A rhoi can' cusan ar ei arlais lefn,
Crochenydd Byd yn gweithio'r llestr yn gain,
A'i fwrw 'n deilchion ar y llawr drachefn.

LIV

Fo'i Hunan fu'n ei wneuthur ; pam y gyr
Y llestr i ddinistr wedi oed mor fyr ?
Y pen telediw a'r wen luniaidd law,
Trwy ba ryw serch y'u gwnaeth, a llid y'u tyr ?

LV

Y Meistr ei Hun a fu'n cymysgu'n clai,
A pham y myn ddifetha'r cyfryw rai ?
Od ydyw'r llestr yn hardd, paham y'i torrir ?
Ac onid ydyw'n hardd, ar bwy mae'r bai ?

LVI

Fe wyddai'r Gŵr, pan luniai 'nghlai â'i law,
Pa beth a wnawn, wrth fy ngwneuthuriad draw ;
Nid oes un weithred im nas parodd Ef,
A pham y myn fy llosgi Ddydd y Praw ?

LVII

Gwyddost ein gwendid ni a'n helbul flin :
A bair dy law a wêheirdd gair dy fin—
Dy law yn peri in ddal y llestr yn gam,
A'th air yn gwâhardd inni golli'r gwin.

LVIII

Y dydd y cyffry'r Nefoedd ac y cryn,
Yr awr y cyll y sêr eu goleu gwyn,
Gafael ynghwrr dy wisg a wnaf, a gofyn,
"Am ba ryw fai y lleddi'r truain hyn ?"

LIX

Caeaist fy llwybr â maglau fwy na rhi,
Ac meddi, "Os tramgwyddi, daliaf di";
Mae'r byd bob gronyn wrth dy archiad oll,
Eto dywedi mai anufudd fi.

LX

Ple mae dy ddawn, od wyf anufudd was?
Ple mae d'oleuni i'm tywyllwch cas?
Os Nef ni roi ond am dy wasanaethu,
Tâl ydyw hynny—ple mae dy rad ras?

LXI

O ddeuddeg ffydd a thrigain ein byd ni,
Dy gariad, Iôn, yw f'unig grefydd i;
Anghred a chred, ufudd-dod, bai, beth ŷnt?
Gwagedd. Ac nid oes sylwedd ond Tydi.

LXII

Ti'm creaist draw yn nhragwyddoldeb dir,
A dysgaist wersi cariad imi'n glir;
Llychyn o lwch y galon hon a wnaethost
Yn allwedd i drysordy'r sylwedd gwir.

LXIII

Ac ar a ddigwydd im un drem a rôf,
A'i hanes mewn rhyw ddeuair byr a glôf:
"Trwy gariad Duw i lwch y llawr yr âf,
"Trwy gariad Duw o'r llwch drachefn y dôf."

LXIV

Troseddau'r byd pes troseddaswn i,
Hyderwn fyth ar dy drugaredd Di ;
Dywedaist—"Yn nydd angen byddaf borth,"
Ac nid oes angenocach neb na mi.

LXV

Khayyâm, paham yr wyli nad wyt dda ?
Gofidio am y drwg, pa les a wna ?
Nid oes drugaredd i'r neb na wnaeth ddrwg :
Dros ddrwg y mae trugaredd. Na thristâ.

LXVI

Trwy d'allu'r ydwyf fel yr wyf, fy Rhi ;
O'th rad gan' mlynedd maith y'm cedwaist i ;
Can' mlynedd maith y gwneuthum innau braw
Ai mwy fy nghamwedd ai'th drugaredd di.

LXVII

Brwydro â'm chwantau'r ydwyf drwy fy nhaith,
Bu f'anwireddau imi'n alar maith ;
Gwn y maddeui'n rhad, ond erys im
Gywilydd wyneb—gwelaist fy holl waith.

LXVIII

Chwiliais, tu hwnt i'r wybren bellaf un,
Am Bin a Llech, Nef, Uffern, cyn creu dyn :
F'Athro a'm dysgodd i—"Mae'r Pin a'r Llech
"A Nef ac Uffern ynot ti dy hun."

LXIX

Mewn synagog ac ysgol, llan a thref,
Arswydant Uffern a deisyfant Nef;
Ond nid yw'r neb a ŵyr gyfrinach Duw
Yn hau'r fath efrau yn ei galon ef.

LXX

Gwell yn y dafarn dy gyfrinach Di
Na gweddi yn y cysegr hebddi hi;
Ti, cyntaf wyt ac olaf o bawb oll,
Os mynni llosg, os mynni cadw fi.

LXXI

Blinderau'r byd i'm henaid esmwythâ;
Cudd rhag y byd y drygau a'm gwarthâ;
Heddyw dod im dy dangnef, ac yfory
Megis y gweddai i'th drugaredd gwnâ.

LXXII

O ddyn, sy ddelw o'r cread mawr i gyd,
Na ad i goll ac ennill ddwyn dy fryd:
Yf win o gwpan y Tragwyddol Fenestr,
Ac ymryddhâ o ofal y ddau fyd.

LXXIII

Yr entrych fry, gwregys i'm corff yw et,
A ffrwd o'm dagrau ydyw Jîhŵn gref;
Gwreichionen o'm trallodion ydyw Uffern,
Ac ennyd o'm hesmwythder ydyw'r Nef.

* * * *

LXXIV

Fy nghyfaill am yfory na thristawn,
Ond heddyw yn ein hoen ymlawenhawn ;
Yfory o'r hen westy, gyda llu
Seithmil blynyddoedd, ninnau ymadawn.

LXXV

Hen westy'r byd lle'r ŷm dros bryd yn byw,
Rhyw frithle o ddydd a nos yn gymysg yw,
Rhyw wledd lle'r uchel eistedd llawer teyrn,
A bedd lle'r isel orwedd llawer llyw.

LXXVI

Y gaer a daflai i'r nef ei chadarn dw,
Lle crymai teyrnedd beilch mewn ufudd lw,
Gwelais ysguthan ar fagwyrydd hon
Yn cwyno 'i dolef drist, "Cw, cw, cw, cw ?"

LXXVII

Neuadd Bahrâm lle ffrydiai'r gwin yn lli,
Esgorfa'r ewig a ffau'r llew yw hi ;
A thi, Bahrâm, fu'n dal y gwyddfarch gynt,
Gwêl fel y daliodd gwyddfa'r bedd dydi.

LXXVIII

Y glaswellt ir a dyf ar fin y don,
Fe dyf fel pân ar wefus angel, bron ;
Rhown droed yn dirion arno, gall y tardd
O lwch un hardd o dan y dorlan hon.

LXXIX

Bu dydd, bu nos, cyn dy fod di na mi,
A'r nef a drôi yn ei chyfnodau hi ;
O, sang yn ysgafn ar y llawr rhag ofn
Mai cannwyll llygad bun a fethri di.

LXXX

Lle tyf y rhos a'r tiwlip coch ei wawr,
Fe gollodd dewraf deyrn ei waed ryw awr ;
A'r fan y plyg y fioled ŵyl ei phen,
Fe roddes geneth wen ei phen i lawr.

LXXXI

Mae'r Rhod yn cynllwyn heddyw'n hangau ni,
A'i bryd ar ddwyn ein bywyd a roes hi ;
Eisteddwn ar y glaswellt, ni bydd fawr
Na thyf y glaswellt o'th lwch di a mi.

LXXXII

Bu'r godard hwn fel minnau'n serchog ddyn,
Yn gaeth yn rhwymau gwallt-fodrwyau'r fun ;
A'r ddolen hon a weli wrth ei wddf,
Bu honno'n fraich am wddf y deg ei llun.

LXXXIII

Crochenydd ddoe a welais ar fy hynt
Yn dulio'i glai fel hwrdd rhyw agwrdd wynt ;
A'r clai a lefodd yn ei gyfrin iaith :
"Yn ara' deg—bûm innau 'n rhywun, gynt."

LXXXIV

Pan fethrir finnau gan Dynghedfen gref,
Heb gennyf obaith bywyd is y nef,
O'm clai na wneler namyn cwpan gwin,
Ac odid na ddeffrôf pan lanwer ef.

LXXXV

Pa hyd y'n llethir gan flinderau'r dydd ?
Pa waeth ai awr ai blwyddyn inni sydd ?
Llanw di 'n llestri cyn ein llunio ninnau
Yn llestri 'ngweithdy'r crochenyddion fydd.

LXXXVI

Ai griddfan am fy rhan yn drist fy mron,
Ai treulio 'myd a wnaf â chalon lon ?
Llanw fy nghwpan gwin ! myfi ni wn
A dynnaf anadl wedi'r anadl hon.

LXXXVII

Yn nyfnder Rhod y Nefoedd, draw ynghudd,
Cwpan y cyst i bawb ei yfed sydd ;
Tithau, pan ddêl dy dro, na chwyna ddim,
Ond yf yn llawen, canys daeth y dydd.

LXXXVIII

Nid dyn i ofni darfod wyf—ni'm dawr ;
Gwell hynny'n rhan na'm cyfran ar y llawr ;
Fy mywyd a roes Duw yn echwyn im,—
Mi dalaf iddo'i echwyn yn ei awr.

LXXXIX

Ofn angau nid yw namyn d'amwyll di ;
O farw y tardd anfarwol oes i ni ;
Er pan fu f'enaid fyw yn anadl Iesu,
I grafanc Bythol Dranc ni'm dygir i.

XC

Gwybydd mai gado'r bywyd hwn a wnei,
A threiddio llen cyfrinion Duw a gei ;
Bydd lon—ni wyddost o ba le y deuthost :
Yf win—ni wyddost i ba le yr ei.

XCI

Ond Dydd y Farn, medd rhywun, a neshâ,
A'r Cyfaill Goreu fydd yn chwyrn. O, na !
Nid oes ond da o'r Perffaith Dda a ddêl—
Tawela, canys bydd pob peth yn dda.

XCII

Enaid, os diosg pridd y corff fydd raid,
I'r wybr yn ysbryd noeth y bwri naid ;
Y Nefoedd yw dy gartref, a sarhaed
Oedd iti gyfaneddu 'r llety llaid.

XCIII

Hedais i'r byd fel edn o'r anwel dir ;
Mae arnaf hiraeth am ei awyr glir ;
Yma nid oes gyfrannog o'm cyfrinach—
Trwy'r drws y deuthum af yn ôl cyn hir.

XCIV

Fy hen gymdeithion i nid ydynt mwy ;
Angau o un i un a'u cwympodd hwy ;
Yfed gwin einioes wnaethant gyda mi,
A huno 'nghynt na mi o awr neu ddwy.

XCV

Myned fydd raid i minnau ddydd a ddaw ;
Angau a rwyga'r fron â'i greulon law ;
Ac ni ddychwelodd neb i'r byd yn ôl
I adrodd hynt y pererinion draw.

XCVI

Dros fryn a dôl y teithiais gynt, a thrwy
Holl gyrrau'r ddaear a'u cyfannedd hwy ;
Ond mi ni chlywais ddyfod neb yn ôl—
Y ffordd yr aethant ni ddychwelant mwy.

XCVII

Gymdeithion, rhowch im loywwin ar fy min,
A gwefr fy ngwedd fydd ruddem fel y gwin ;
Eneiniwch fi â gwin pan fyddwyf farw,
Ac yna o estyll gwinwydd gwnewch f'ysgrin.

XCVIII

Gwae fi fod llyfr fy mebyd wedi 'i gau,
A chilio gwanwyn pêr fy mwynder mau ;
Aderyn hoyw ifenctid, ni chanfûm
Mohono'n dyfod nac yn ymbellhau.

XCIX

Fy nghalon, beth pe câut y byd yn rhodd,
A'r byd o gwrr.bwy gilydd wrth dy fodd,
A thithau i fynd i ffwrdd fel eira'r anial
A safodd am ryw dridiau ac a ffôdd ?

C

Nid budd i'r Rhod fy nyfod dani hi,
A'm myned ymaith ni chwanega'i bri ;
Ni chlywais reswm chwaith gan neb erioed
Am fy nyfodiad na'm mynediad i.

CI

Yma ni ddeuthwn pei fy newis gawn ;
Pe trefnwn fy mynediad, i ble'r awn ?
Onid mil gwell fuasai'n hyn o fyd
Na ddeuthwn, ac nad elwn, ac na bawn ?

CII

O na bai i Dduw newid Nef a Llawr,
Ac na chawn innau weled hynny'n awr,
A gweled croesi f'enw o'i Lyfr yn llwyr,
Neu ynteu 'ngwared o'm cyfyngder mawr.

CIII

Pe gallwn lywio'r Nefoedd fel Tydi,
Y byd i'w seiliau a faluriwn i ;
Ac yna llunio newydd fyd a wnawn,
Lle caffai'r galon ei dymuniad hi.

CIV

Gymdeithion, pan gyfarffoch eto 'nghyd
I gyd-lawenu 'n hoenus iawn eich bryd,
A phan dywallto'r menestr y gwin pêr,
Cofiwch yn eich bendithion un fydd fud.

CV

A ! fy nghymdeithion, yn y wledd a fo,
Cedwch eich hen gydymaith yn eich co' ;
A'r gloyw win pan yfoch hebof fi,
Trowch wydr a'i ben i lawr pan ddêl fy nhro.

NODIADAU AR OMAR KHAYYÂM

A'I BENILLION

SAIN YR ENWAU PERSIAIDD

Yn nhrawsysgrifiad yr enwau dilynais y dull sy'n awr yn gyffredin, ond yn unig fy mod yn rhoi *w* yn lle *u* i ddynodi sain yr *w* Gymraeg. Gadewais heb eu cywiro rai ffurfiau sydd wedi mynd yn adnabyddus mewn trawsysgrifiad gwahanol, megys Korân, Mahometan, ac enw Omar ei hun, a ysgrifenasid 'Wmar yn ol y dull manylaf.

Seinier *kh* fel yr *ch* Gymraeg, a *ch* fel y *ch* Saesneg yn *church*. Seinier *gh* fel yr *ch* Gymraeg ond yn feddal (fel y mae *dd* yn *th* feddal). Seinier *y*, *j*, *sh*, *f*, *z*, fel y seinir y llythrennau hyn yn Saesneg. Saif ' am fath o anadliad gyddfol; nid oes i Gymro ond ei basio heibio.

OMAR KHAYYÂM

Enw Omar Khayyâm yn llawn oedd Ghiyâth wd-Dîn Abw'l-Fath Omar ibn Ibrâhîm al-Khayyâmî. Ef oedd prif serydd Persia a'r byd yn niwedd yr unfed ganrif ar ddeg; dengys ei lyfr ar *Algebra* wybodaeth feistrolgar o egwyddorion rhif a mesur; yr oedd yn hyddysg mewn athroniaeth, meddyginiaeth a gwyddoniaeth naturiol, ac yn un o athrawon Coleg Nîshâpŵr. Ystyr *Khayyâm* ydyw 'gwneuthurwr pebyll,' a synia rhai mai dyna oedd Ibrâhîm, tad Omar; ond fel y dywed y Dr. E. D. Ross (Batson and Ross, *Rubâ'iyât* td. 72) gellir casglu oddiwrth y ffurf Arabeg al-Khayyâmî mai enw teuluol oedd Khayyâm, canys nid al-Khayyâmî ond al-Khayyâm fuasai'r gair am 'y gwneuthurwr pebyll.'

Ychydig iawn o hanes Omar sydd ar gael. Er bod amryw gyfeiriadau ato mewn llyfrau diweddarach, nid oes, hyd y gwyddys, ond un llyfr o waith cyfoeswr iddo yn crybwyll am dano—hwnnw yw y *Chahâr Maqâla* (y Pedwar Ymddiddan), gan Nizâmî-i-'Arŵdî, un o'i gydnabod. Dywed Nizâmî iddo gyfarfod ag Omar a Mwzaffar-i-Isfizârî mewn ty yn ninas

Balkh yn A.H. 506 (sef A.D. 1112-1113), ac i Omar ddywedyd yn y cwmpeini, "Bydd fy medd i mewn man y bwrw'r coed "eu blodau arnaf ddwywaith yn y flwyddyn." Pan aeth Nizâmî i Nishâpŵr yn A.H. 530 (A.D. 1135-6) yr oedd Omar, medd ef, wedi ei gladdu ers rhai blynyddoedd, ac aeth yntau i weled ei fedd. Fe gymerth arweinydd i ddangos y bedd iddo; ac "yntau a'm dug," medd ef, "i Fynwent Hîra. Mi "drois ar y chwith, ac yr oedd y bedd wrth wal gardd, a "choed gerllyg a choed eirin gwlanog yn estyn eu brigau "drosti, a dail blodau wedi disgyn ar ei fedd hyd oni chuddid "ei lwch gan y blodau. Yna y cofiais y gair a glywswn "ganddo yn ninas Balkh, ac y torrais i wylo, canys ar wyneb "y ddaear, ac yn holl barthau'r byd cyfaneddol, ni welais yn "unman neb tebyg iddo ef."

Y mae Nizâmî yn adrodd hanesyn arall am dano yn proffwydo'r tywydd i'r brenin yn A.H. 508 (A.D. 1114-5). Dyma felly dystiolaeth cyfaill iddo ei fod yn fyw yn 1114, ac wedi marw ers "rhai blynyddoedd" yn 1135. Nid oes, gan hynny, le i ameu tystiolaeth y rhan fwyaf o'r awdurdodau diweddarach, mai yn 1123 y bu Omar farw.

Un amseriad sicr arall yn ei fywyd sydd gennym. Yn y flwyddyn 1074 apwyntiodd y Swltân Malikshâh ddirprwyaeth o'r prif seryddion i "chwilio yr uchelion," a mesur hyd y flwyddyn. O'r gŵyr hyn, nid enwir ond tri—Omar yn gyntaf, ac un or ddau arall oedd Mwzaffar-i-Isfizârî, y gŵr oedd gydag Omar yn ninas Balkh yn 1112. Gwnaethpwyd y cyfrifiad, a dygpwyd ef i rym yn 1079; a diau mai i Omar yn bennaf y perthyn y glod am dano. Rhyfedd fel y mae golygwyr argraffiadau Saesneg o'i bennillion yn adrodd, y naill ar ol y llall, ddywediad Gibbon fod y cyfrif hwn "bron "mor gywir" a'n cyfrif ni. Y gwir yw ei fod yn *gywirach*, er ei fod wedi ei wneuthur bedwar can' mlynedd ynghynt.[1] Fe welir wrth hyn pa mor oleuedig oedd Persia yn yr unfed ganrif ar ddeg, pan oedd caddug yr oesoedd tywyll yn

[1] Yn ein cyfrif ni, a ddygpwyd i rym gyntaf gan y pab Gregori XIII. yn 1582, tynnir tair blwyddyn naid o bedwar can' mlynedd, h.y. 97 sydd o flynyddoedd naid mewn 400 mlynedd; hyd ein blwyddyn ni felly yw $365\frac{97}{400}$ o ddyddiau, neu 365·2425. Rhoes Omar 8 o flynyddoedd naid mewn 33 o flynyddoedd; hyd ei flwyddyn ef felly yw $365\frac{8}{33}$, neu 365·242424 o ddyddiau. Hyd y flwyddyn mewn gwirionedd yw 365·242216. Gwelir felly pa gyfrif yw'r cywiraf.

gordoi'r gwledydd hyn ; a gellir amgyffred paham y mae sŵn mor ddiweddar ym mhenillion Omar Khayyâm.

Adroddir chwedl ddyddorol iawn am dano, a'i gwnâi, pe gwir, yn ŵr tros gant oed yn marw. Yr oedd Omar, meddir, a Nizâmw'l-Mwlk, y prif weinidog, a Hasan-i-Sabbâh, a elwir "yr Hen Wr o'r Mynydd," ill tri yn yr ysgol gyda'i gilydd ; a chytunasant, pwy bynnag o honynt a enillai swydd uchel, ei fod i helpu'r ddau arall. Pan wnaethpwyd Nizâmw'l-Mwlk yn brif weinidog i'r Swltân Alp Arslan, aeth Omar ato a chafodd gynnyg llywodraeth Nîshâpŵr. Ond ni fynnai Omar mo hynny, eithr gofynnodd am ryw "dâl megis cyflog neu "bensiwn" ; a hynny a roddwyd iddo. Aeth Hasan-i-Sabbâh yr un modd i ofyn am ffafr y prif weinidog, a chynygiwyd iddo lywodraeth Ray neu Isfahân. Ond nid oedd Hasan yn fodlon ar hynny ; a gofynnodd am swydd yn y llys. Hynny a roddwyd iddo. Ond amcan Hasan oedd mynd yn brif weinidog ei hun. Canfuwyd ei frad, a bu raid iddo ffoi ; ac wedi hynny daeth yn bennaeth sect lofruddiog yr Ismailiaid, dan y teitl yr Hen Wr o'r Mynydd. Assassiniaid y gelwid ei ddilynwyr, a'u henw hwy a roes y gair *assassin* i ieithoedd Ewrop. Ganwyd Nizâmw'l-Mwlk yn 1017 ; a bu Omar farw tua 1123, a Hasan yn 1124 ; os oeddynt felly tua'r un oed a Nizâmw'l-Mwlk, yr oeddynt ill dau dros gant pan fuant feirw. Derbyniwyd y stori hon ar y cyntaf am ei bod mewn llyfr a honnai fod o waith Nizâmw'l-Mwlk ei hun. Pan welwyd mai yn y bymthegfed ganrif yr ysgrifennwyd y llyfr, gwrthodwyd y stori ; ond yn ddiweddar canfu'r Athro E. G. Browne fod Rashîdw'd-Dîn, mewn llyfr a orffennwyd yn 1310, yn ei hadrodd ar awdurdod un o'r llyfrau a gafwyd yng nghastell yr Assassiniaid. Nid mor hawdd ymwrthod â'r dystiolaeth hon ; eto amheuir y stori gan mor annhebyg ydyw fod dau gydysgolor wedi cyrraedd y fath oedran ; (J.R.A.S., 1899, 411-5). Awgrymodd M. Houtsma o Leyden mai cychwyniad y stori oedd i rywun gamgymeryd Nizâmw'l-Mwlk am brif weinidog diweddarach o'r enw Anŵshirwân, am fod geiriau a briodolir i'r gŵr hwn fel pe'n taflu bod Hasan yn yr ysgol gydag ef. Tuedda Mr. Browne i dderbyn yr awgrym, er ei fod ef ei hun wedi darganfod mai yn 1066-7 y ganwyd Anŵshirwân (*Literary History of Persia*, ii. 192), ac fod yn hysbys fod Hasan yn ddyn mewn oed yn ymuno a'r Ismailiaid yn 1070-1. Ni ddarganfuwyd eto pa ronyn o wirionedd all fod o dan wraidd

stori'r tri chyfaill; ond ymdengys un peth yn lled sicr, sef i Omar gyrraedd oedran mawr. Canys odid na chyrchai at ganol oed pan gyfrifid ef, yn 1074, yn brif serydd Persia, a bu fyw agos i hanner can' mlynedd wedi hynny.

Y mae'r Dr. E. D. Ross, yn ei ragarweiniad i argraffiad y Mri Methuen o'r *Rubâ'iyât*, wedi casglu ynghyd bob cyfeiriad at Omar a welwyd hyd yn hyn yn hen lyfrau Persia. Dyfynnaf yma 'r dywediadau pwysicaf am dano.

Dywed Shahrazŵrî, tua chanol y drydedd ganrif ar ddeg, y gellir ei ystyried yn ddilynydd i Avicenna yng ngwahanol ganghennau athroniaeth; ond mai dyn drwg ac anghymdeithasgar iawn ydoedd. Wedi darllen llyfr seithwaith fe'i hadroddai o'i gof. Yr oedd yn annhueddol i ysgrifennu nac i athrawiaethu; eto enwir dau o'i lyfrau. Yna disgrifir ei wybodaeth ddihafal o holl ddarlleniadau'r Korân. Rhoddir hanes am y diwinydd al-Ghazâlî yn dyfod i'w weled. Yr oedd y Swltân Malikshâh yn ymddwyn ato fel cyfaill, a Shamsw'l-Mwlk, brenin Bwkhârâ o 1067 hyd 1079, yn ei anrhydeddu'n fawr, a pheri iddo gydeistedd ag ef ar ei orseddfainc. Yna rhoddir hanes ei farwolaeth. "Dywedir fod Omar ryw "ddiwrnod yn pigo'i ddannedd â phin aur, ac yn astudio'r "bennod ar uchanianaeth yn *Llyfr Iachâd* Avicenna. Pan "gyrhaeddod yr adran am 'Yr Un a'r Lliaws,' fe roes y pin "rhwng y ddwy ddalen, cyfododd, ac offrymodd ei weddïau, a "gwnaeth ei orchmynion olaf. Ni fwytaodd ac nid yfodd ddim "y dwthwn hwnnw, a phan offrymai ei weddi hwyrol olaf, fe "ymgrymodd hyd lawr, gan ddywedyd, 'O Dduw! yn wir mi "a'th adnabûm hyd eithaf fy ngallu: maddeu i mi gan hynny. "Yn wir fy adnabyddiaeth o honot yw fy [unig] ddyfodfa atat.' "A chan ddywedyd hynny y bu farw; Duw a drugarhao wrtho. "Fe ysgrifennodd benillion prydferth yn Arabeg a Pherseg." Y mae llyfr Shahrazŵrî i'w gael yn y ddwy iaith; yn y copïau Perseg rhoddir fel enghreifftiau o benillion Omar y ddau a rifir xci. a lxiii. yn y cyfeithiad Cymraeg uchod.

Mewn traethawd Sŵfïaidd ar gynnydd yr enaid, a ysgrifennwyd yn 1223, ceir beirniadaeth arno. Sonnir am "y "philosophyddion anffodus a'r materolwyr sydd wedi pen-"syfrdanu a myned ar gyfeiliorn gyda rhyw lenor sydd yn "enwog yn eu plith am ei dalent, ei ddoethineb, ei graffder, "a'i ddysgeidiaeth. A hwnnw ydyw Omar Khayyâm. Er "mwyn amgyffred ei ddigywilydd-dra eithaf a'i lygredigaeth

"ni raid ond darllen y penillion a ganlyn o'i waith." Yna dyfynnir pennill tebyg i rif c. uchod, a rhif lv.

Mewn llyfr o "Hanes Gwyr Dysgedig," gan Ibn al-Kifti, a fu farw yn 1248, dywedir am dano: "Yr oedd Omar al-"Khayyâm, uchelwr o Khwrâsân, ac un o wŷr dysgedicaf ei "ddydd, yn hyddysg yn nysgeidiaeth y Groegiaid. Anogai "geisio yr Un Barnwr trwy buro nwydau'r cnawd er dyrchafu "enaid dyn. Danghosodd yr anghenrhaid o astudio gwlad-"wriaeth yn ol egwyddorion y Groegiaid. Ceir rhai o'r "Swfiaid diweddar yn cytuno ag ystyr lythrennol rhai o'i "benillion, ac y maent wedi eu dwyn i'w cyfundrefn. Eithr "y mae eu hystyr fewnol yn sarff wenwynig i'r Gyfraith "[Santaidd]. Ond am fod ei gyfoedion yn ei ddifenwi o "herwydd ei grefydd, ac hefyd yn datguddio'r cyfrinachau a "guddiasai ef oddiwrthynt, fe ofnodd am ei waed, a ffrwynodd "ei dafod a'i bin. Fe wnaeth y Bererindod, nid o dduwioldeb, "ond rhag ofn, a datguddiodd un o'i gyfrinachau amhûr . . . "Yr oedd heb ei ail mewn seryddiaeth ac athroniaeth, a "daeth yn ddihareb am ei wybodaeth yn y canghennau hyn. "Gresyn na chadwasai ei enw da."

Heblaw enwau rhai o'i lyfrau, ni cheir yn y dyfyniadau ereill nemor ddim ond rhyw chwedlau heb fawr o goel arnynt. Y mae Dr. Ross wedi casglu'r crybwylliadau am ei lyfrau, a chael enwau naw o honynt heblaw'r penillion, sef pedwar ar rif a mesur, tri ar wyddoniaeth naturiol, a dau ar uchanianaeth. Dau o'r naw hyn sydd ar gael: "Rhai o o anhawsterau deffiniadau Euclid" mewn llawysgrifen, a llyfr ar *Algebra*, a gyhoeddwyd ym Mharis yn 1851 dan olygiaeth F. Woepcke.

Daeth y penillion yn adnabyddus gyntaf yn y wlad hon yng nghyfieithiad Saesneg Edward Fitzgerald. Pan gyhoeddwyd hwn gyntaf mewn amlen bapur yn 1859, ni thynnodd ddim sylw; safodd y copïau ar law Mr. Quaritch, a gwerthwyd hwynt o'r diwedd am geiniog yr un. Eithr yn awr (Mehefin 1907) y mae Mr. Quaritch yn cynnyg dau gopi ail llaw ar werth, ac yn gofyn £52 10s. am un, a £56 am y llall. Cyhoeddwyd ail argraffiad yn 1868, a thrydydd a phedwerydd argraffiad wedi hynny, pob un yn amrywio cryn lawer oddiwrth ei gilydd ac oddiwrth yr argraffiad cyntaf. Arall-eiriad, yn hytrach na chyfieithiad, yw gwaith Fitzgerald; fe gymerth bob rhyddid â phenillion Omar, megis estyn un yn

ddau, gwneuthur pennill o ddarnau o wahanol benillion, a dwyn i mewn linellau o waith beirdd Persiaidd eraill, ac hyd yn oed amryw benillion newyddion o'i waith ei hun. Nid cyfieithu oedd ei amcan yn gymaint a chanu; a chanodd gerdd sydd ymysg gemau godidocaf barddoniaeth Saesneg.

Gellir nodi dau beth yn aralleiriad Fitzgerald, sydd, fel y cydnebydd ef ei hun, yn cyfleu camargraff am y penillion gwreiddiol. Dywedai mewn llythyr yn 1858, "Many Quat-"rains are mashed together, and something lost, I doubt, of "Omar's simplicity, which is so much a Virtue in him." Nid yn Omar y cafodd Fitzgerald ei frawddegau dyrys a thywyll. Mewn llythyr arall dywedai, "I doubt I have given but a "very one-sided version of Omar." Amheuaeth ac anobaith a gwrthryfel Omar a geir gan Fitzgerald, ond y mae ffydd, gobaith, cariad, yn llawn mor amlwg yn ei benillion ef ei hun.

Ysgrifennwyd y penillion gan Omar mawn llawer amryfal hwyl a thymer. Yn y casgliadau gwreiddiol y maent wedi eu trefnu, nid yn ol y synnwyr, ond yn ol yr odl, trwy roi diwedd y prifodlau yn nhrefn yr egwyddor. Er bod pob pennill yn gyflawn ynddo 'i hun, ac yn gyffredin yn traethu un syniad, eto y mae'n amlwg fod y naill bennill yn fynych yn awgrymu'r llall, a bod rhyw berthynas rhwng y syniadau a'i gilydd ym meddwl y bardd. Ystyriais gan hynny mai iawn yn y cyfieithiad oedd llunio pryddest Gymraeg o'r penillion, trwy eu trefnu hyd y gallwn yn ol rhediad y meddwl, a'u hasio ag ambell "ac" neu "ond." Y mae i'r bryddest a dyfodd fel hyn dan fy nwylaw bum rhan, sy megis yn dangos allan bum niwrnod yn hanes y bardd.

Tybiai ei gyfieithydd Ffrengig Nicolas mai Sŵfî oedd Omar, ac esboniai ei win fel y gwin dwyfol. Ymwrthyd Fitzgerald a'r dehongliad hwn, a deil mai gwin naturiol oedd gwin Omar, ond ei fod yn ymffrostio mwy ynddo nag a yfai ohono. Y gwir, efallai, yw mai rhan o'i wrthryfel yn erbyn gosodiadau crefydd Mwhammad oedd ei ymffrost yn y gwin. Gwelir hyn yn lled amlwg yn xxiii. a xxiv. "Nid yw cerddi "yfed Ewrop," medd M. Darmesteter, "ond cerddi medd-dod; "eithr cân o wrthryfel yn erbyn y Korân, yn erbyn pen-"boethiaid, yn erbyn gorthrwm natur gan y ddeddf grefyddol, "ydyw rhai Persia. I'r bardd, arwyddlun ydyw'r yfwr o'r "dyn a ryddhawyd (*l'homme émancipé*); i'r cyfriniwr, y mae'r "gwin yn fwy, y mae'n arwyddlun o'r brwysgedd dwyfol."

Arwydd yw gwin Omar, gan mwyaf, o'i wrthryfel yn erbyn y "dychmygion duon sydd yn grwgnach serch a lloniant inni" chwedl Heine. Ond arferir ef yn ffugur ganddo am amryw bethau; megis "gwin einioes," xciv., a gwin cwpan angau, lxxxvii. Weithiau yn ddiameu, saif am win cariad Duw, sef y Tragwyddol Fenestr, lxxii.

Gellir disgrifio Omar fel gwrthryfelwr beiddgar yn erbyn y grefydd sefydledig. Ymwrthodai â'r credoau a dderbynnid gan y cyffredin; gwelai nad oeddynt ond damcaniaethau'r oesoedd cynt, a sylwai ar "hunandyb" y rhai a'u lluniasai, xxxiv., hunandyb dynion a feddyliai'n sicr mai eu tybiau hwy oedd gwirionedd Duw. Nid oedd ganddo ef ei hun fawr o sicrwydd. Ni allai gredu yn adgyfodiad y cnawd, xix.-xxii.; dirmygai baradwys y proffwyd, xxiii., xxiv.; a chwynai na allai gael sicrwydd am anfarwoldeb yr enaid, xxv., xxvi.; eto dyheai am dano, xxvii.; fel Socrates, nid oes arno ofn darfod, os hynny fydd, lxxxviii.; eto ei ffydd yw y caiff dreiddio llen cyfrinion Duw, lxxxix., xc. Felly'r Pregethwr — weithiau'n dywedyd mai "digwydd meibion dynion a ddigwydd i'r "anifeiliaid," iii. 19, ond yn y diwedd yn credu "y dychwel yr "ysbryd at Dduw, yr hwn a'i rhoes ef," xii. 7.

Pa un bynnag a oedd Omar yn Sŵfî proffesedig ai nad oedd, y mae'n amlwg mai Sŵfîaeth oedd sail ei gred. Cyfrinwyr piwritanaidd oedd y Sŵfîaid, a elwid felly am eu bod yn gwisgo *sûf*, sef gwlân, fel protest yn erbyn moeth a balchder y byd. Cododd Sŵfîaeth o anfodlonrwydd ar ffurfioldeb Mahometaniaeth, a dyhewyd am grefydd fwy ysbrydol. Prif elfen crefydd y Sŵfî oedd dal cymundeb personol â Duw, ac ymgolli yn ei gariad Ef; ymwadu'n llwyr ag ef ei hun, a bwrw ymaith bob chwant nid yn unig am y byd hwn ond am y byd a ddaw. Dyfynnaf o lyfr Mr. Browne (*Lit. Hist.* i., 425-6) ddau o ddywediadau rhagflaenoriaid y Sŵfîaid. Dywedai Ibrâhîm Adham a fu farw tuag A.D. 777:

"O Dduw, ti wyddost nad yw'r wyth baradwys yn pwyso dim mwy "yn fy ngolwg nag asgell gwybedyn wrth yr anrhydedd a roist arnaf "drwy roi i mi dy gariad."

Ac fel hyn y dywedai'r broffwydes Râbi'a al-'Adawiyya a fu farw tua 752:

"O Dduw, pa beth bynnag a ddarperaist i mi o bethau'r byd hwn, "dyro i'th gaseion, a pha beth bynnag a ddarperaist i mi yn y byd a "ddaw, dyro i'th garedigion, canys digon i mi wyt Ti dy Hun."

Dyma grefydd wedi cyrraedd tir uwch na 'r rhan fwyaf o brofiad y Seiat. "Methodism," meddai Thomas Carlyle, "with its eye forever turned on its own navel; asking itself "with torturing anxiety of Hope and Fear, 'Am I right? am "I wrong? shall I be saved? shall I not be damned?'—what "is this, at bottom, but a new phasis of *Egoism*, stretched out "into the Infinite; not always the heavenlier for its infinitude!" (*Past and Present*, bk. ii. ch. xv.) Dyna farn Omar Khayyâm hefyd; canys nid yw'r neb a ŵyr gyfrinach Duw, ac sydd â goleuni cariad yn ei galon, medd ef, yn petruso dim am Uffern nac am Nef, xxxvi., lxix. Dyma nod yr emynydd hefyd—"nid rhag ofn y gosb a ddêl, nac am y wobor chwaith."

I rai wedi cyfranogi fel hyn o gyfrinach Duw nid oedd y grefydd gyffredin ond cais musgrell i osod allan y Gwir yr oedd ganthynt hwy brofiad byw ohono; yn wir, nid oedd Mahometaniaeth yn well na rhyw grefydd arall; yr oedd pob crefydd fel ei gilydd, hyd yn oed grefydd ddirmygedig yr eilun-addolwr, yn ymdrech i gael hyd i'r Un Duw, xxxvii., xxxviii. Wrth ei gael Ef mor agos atynt, hawdd oedd i'r cyfrinwyr hyn fynd i gredu fod Duw ym mhob peth ac yn bob peth; dyma athrawiaeth yr *immanence*—Duw yn hanfod yn ei waith, xxxix., xl. Yn lle "Nid oes duw ond Duw," dywedent "Nid oes dim ond Duw." Ymddangosiadau neu gysgodau ydyw pob peth arall: yr unig sylwedd ydyw Duw, lxi.

Y broblem fawr i Omar oedd pa fodd y mae drwg yn y byd. Credai'n ddiysgog fod popeth yn digwydd yn ol ewyllys Duw, a bod honno'n ddigyfnewid. Derbyniai'r athrawiaeth uniongred am yr Arfaeth; yr oedd yn Galviniad i'r pen. Diau fod ei seryddiaeth a'i wyddoniaeth wedi argraffu ar ei feddwl anhyblygrwydd deddf. Gwelai, gan na allai un achos gynhyrchu dau effaith gwahanol, fod yn rhaid i bopeth ddigwydd fel y mae—fod yr effeithiau a fydd yfory wedi eu penderfynu eisoes yn yr achosion sydd heddyw. Gan fod popeth felly wedi ei ragordeinio o'r dechreuad, pa fodd y mae dyn yn gyfrifol am ei weithredoedd? Dyma'r cwestiwn y dywed ef drachefn a thrachefn na all mo'i ateb, ac na welodd neb arall a allai ei ateb chwaith. "Efô a ŵyr," medd Omar; ac megis y dywedai Job, "Mynnwn wybod a pha eiriau y'm "hatebai," pen. xiii. 5, felly y mynnai yntau afael ynghwrr ei wisg a gofyn, lviii. Eto nid yw heb belydryn o oleu ar y

mater: gwobr a chosb, "tâl ydyw hynny"; ond nid *tâl* a rydd cariad, lx., rhydd cariad bopeth. Cariad Duw yw ei unig grefydd ef; anghred a chred, ufudd-dod a bai, nid ynt yn *bod* yn yr ystyr y mae Duw yn bod; yr unig sylwedd yw Duw, lxi. Dysgodd Duw iddo wersi cariad, a rhoes yn ei galon agoriad i drysordy'r sylwedd, lxii., sef profiad o'i gariad Ef. Dyma gyfrinach Duw, ai nid yw'r neb a'i gŵyr yn gofalu am wobr na chosb. Gall ddywedyd "os mynni llosg, "os mynni cadw fi," mewn llwyr ymddiried na fyn cariad ond y goreu. Wrth beidio a'i ystyried ei hun y daw dyn yn rhydd, xlii.; dylai fod uwchlaw gofalu am goll ac ennill iddo'i hun, eithr yfed o win cariad Duw; felly y rhyddheir ef o bob pryder am y byd hwn a'r byd a ddaw, lxxii.

Dyna yn fyr rai o feddyliau Omar. Syniodd lawer â rhyw brudd-der hanner gwatwarus ar fyrder parhâd pethau'r byd; ond yn ei watwariaeth lymaf, megis wrth sôn am y corff o glai yn ddefnydd llestri, y mae rhyw dynerwch, megis "bûm "innau'n rhywun gynt." Ysgrifennodd ei benillion yn ddiau am na allai ymatal rhag dywedyd yr hyn oedd ynddo. Yr oedd yn ddiystyr o ragfarnau'r llu, ac ni rusai eu cythruddo. Nid oedd ofn na gwaseidd-dra ynddo. Ymresymai â'i Grëwr fel â'r brenhinoedd daearol yr ymgyfeillachai â hwynt, ac ni chredai y digiai Ef wrtho. Fel y dywedai Dafydd ap Gwilym, a wrthryfelai yntau yn erbyn catholigiaeth y canol oesoedd,

"Nid ydyw Duw mor greulon
"Ag y dywaid hen ddynion;
"Ond celwydd yr offeiriaid
"Yn darllain hen grwyn defaid."

felly Omar: os *oes* Duw (ac nid amheuodd Omar hyn erioed), rhaid ei fod yn Dduw caredig, yn Un na warafuna lawenydd i'w blant, ac na fydd yn greulon wrthynt. Yn Asia Fahometanaidd, fel yn Ewrop Gristionogol, lluniasid y credoau mewn oesoedd pan fyddai crefyddwyr yn lladd ac yn arteithio'i gilydd; ac nid rhyfedd iddynt honni fod Duw fel hwy eu hunain. Eithr cred Omar oedd mai da yw Duw i bawb; ac yn y ffydd hon gallai edrych ymlaen yn dawel a hyderus.

Yn y penillion gwreiddiol fel yn y cyfieithiad y mae'r ddwy linell gyntaf a'r bedwaredd yn odli, ac weithiau'r drydedd hefyd. Y mae llinellau Omar yn gyffredin yn hwy, a'i odl yn fynych yn gywrain iawn, yn ymestyn dros amryw sillafau.

Buasai llinell hwy yn feichus yn Gymraeg; ac ni hoffa'r Gymraeg "odl foethus." Ond ceisiais ddynwared, lle'r oedd modd, y chware ar eiriau sy mor hoff gan Omar, a dilynais yn fynych ffurf ei frawddegau, eu cyfochraeth a'u cyferbyniaeth. Nid yw'r 105 a gyfieithir uchod ond detholiad o'r penillion. Yn y llawysgrif hynaf ohonynt a gafwyd hyd yma, y mae 158. Ysgrifennwyd y llawysgrif hon yn 1460, a chedwir hi yn Llyfrgell Bodley yn Rhydychen. Cyhoeddwyd argraffiad a *facsimile* o honi gyda chyfieithiad Saesneg gan E. Heron-Allen (London: H. S. Nichols). Mewn casgliadau diweddarach y mae llawer mwy o benillion; cyhoeddwyd amryw faenargraffiadau o'r rhai hyn yn y ganrif aeth heibio. Yn 1867 cyhoeddodd J. B. Nicolas 464 o'r penillion gyda chyfieithiad Ffrangeg; yn 1883 cyhoeddodd E. H. Whinfield 500 o honynt gyda chyfieithiad mydryddol Saesneg (London: Trübner & Co.) Ni all yr holl benillion a geir yn y casgliadau diweddar fod yn awdurdodedig; yn wir, y mae rhai yn amlwg yn efelychiadau gwaelach o benillion Omar, eraill wedi eu rhoi i mewn i ateb ei benillion ef. Priodolir llawer o honynt i feirdd eraill; ac ni all yr ysgolheigion Persiaidd benderfynu wrth eu ffurf pa rai sydd ddiffuant. Nid oes i'r cyfieithydd ond arfer ei farn; ac odid wrth ddewis y rhai goreu na bydd ymhell o'i le.

Gelwir y math hwn o bennill yn *rwbâ'i*, lliosog *rwbâ'iyât*. Arferodd Fitzgerald y gair estronol hwn yn deitl ar ei gyfieithiad. Ni thybiais fod angen ei ddynwared yn hyn mwy na phe dywedaswn 'Gedichte Heine.'

NODIADAU AR Y PENILLION

II. Kai Khwsraw: un o frenhinoedd chwedlonol Persia. Tybiai Syr William Jones mai Cyrus oedd Kai Khwsraw; a chredid hynny hyd yn ddiweddar. Ond gwelir yn awr mai'r un ydyw â Kawa Husrawa yr Avesta, ac felly ei fod yn rhan o draddodiad hynafol iawn.—Browne, *Lit. Hist. of Persia*, i, 35. Kai Khwsraw'r dydd: brenin y dydd, sef yr haul.

III. Llaw Moesen.—Cyfeiriad at yr hanes a geir yn Exodus iv. 6. Crybwyllir y wyrth fwy nag unwaith yn y Korân, ond ni sonnir am wahanglwyf: "Dod dy law yn dy "fynwes, a hi a ddaw allan yn wen, heb un niwed"—pen. xxvii.

Anadl Iesu.—Y mae traddodiad Mahometanaidd mai anadl Iesu sy'n bywhau pob rhyw beth. Dywedir yn y Korân, pen. iii.—"Mi wnaf ger eich bron megis llun aderyn o glai; yna mi anadlaf arno, ac fe ddaw yn aderyn trwy gennad Duw; ac mi iachaf yr hwn sydd ddall o'i enedigaeth, a'r gwahanglwyfus, a chyfodaf y meirw trwy gennad Duw." Diau mai o hanes gwyrthiau'r iachau a'r cyfodi o feirw y tardd y syniad am rinwedd yr anadl. Ceir ef hefyd yn y traddodiadau Cristionogol; er enghraifft yn 'Efengyl' y Pseudo-Matthew, a elwir, yn yr hen gyfieithiad Cymraeg, 'Mabinogi Iesu Grist,' dywedir am y bachgen Iesu, pan frathwyd ei frawd Iago yn ei law gan sarff, "ni wnaeth ddim eithr hwythu "ar i law, ac yn ddiannot y iachaawdd i law." Yn yr un 'Efengyl' ceir hanes Iesu, yn bump oed, yn llunio adar o'r dom, ac yn peri iddynt ehedeg; ond ni sonnir am ei anadl yno. Rhoddir mwy o bwys ar ei anadl yn y traddodiadau Mahometanaidd. Gweler pennill lxxxix.

XXII. Cyfeirir yn y pennill hwn at yr arferiad yn y Dwyrain o gladdu'r trysorau pan ofnid rhuthr ysbeilwyr yn y nos. Wrth reswm, pam elai'r perigl heibio, fe gloddid am danynt eilwaith.

XXIII. Ffynnon Kawsar: yn Arabeg, al Kawthar—ffynnon neu afon ym Mharadwys Mwhammad, a'i dyfroedd yn wynnach na llaeth neu arian, yn felysach na'r mêl, ac yn fwy eu perarogl na'r mwsg; a phwy bynnag a yfai o'r dwfr hwnnw, ni sychedai yn dragywydd.—Sale's *Korân*, pen. cviii., nodyn, a'r *prelim. discourse*, sect. iv.

Lle mae gwin pur: er bod y Proffwyd yn gwahardd gwin i'r ffyddloniaid ar y ddaear, addawai iddynt eu gwala o hono ym Mharadwys.

XXIV. Rhianedd y Wlad Well: yr hŵriaid, neu'r gweryddon llygad-ddu teg sydd wedi eu darparu i'r saint ym Mharadwys y Proffwyd.

XXVIII. Jamshîd: un arall o frenhinoed yr hen chwedloniaeth. Jam oedd ei enw, a theitl yw *shîd*, yn meddwl 'teyrn' neu 'bennaeth.' Dywedai'r Mahometaniaid bore mai Solomon oedd Jam; ond gwyddai'r ysgolhaig Zoroastraidd enwog Ibnu'l Muqaffa', a fu farw tuag A.D. 760, mai ffolineb oedd hyn, a dywedai fod tair mil o flynyddoedd rhwng Jam a

Solomon. Pa fodd bynnag am hynny, yr un yw Jam â Yama, un o dduwiau'r ysgrifeniadau Hindŵaidd; ac felly y mae'r traddodiad am dano yn cyrraedd yn ol i'r cyfnod cyn ymwahanu o hynafiaid y Persiaid a hynafiaid yr Indiaid Ariaidd, rai miloedd o flynyddoedd cyn Crist.—Browne, *Lit. Hist.* i. 113.

XXXIV. Sâkî (yn hytrach, yn ol y trawsysgrifiad manylaf, sâqî): menestr, trulliad, heilyn, *cupbearer*. Yn lxxii. a cv., arferais yn lle sâkî y gair 'menestr,' gair Owain Cyfeiliog yng nghân y Corn Hirlas.

XXXVI. Masjid: *mosque*, addoldy Mahometanaidd. Yr ystyr yw, pa un bynnag ai Iddew anghredadun ai Mahometan crediniol fo'r gŵr.

XXXVII. Ka'bah: y deml ym Mecca, cysegr santeiddiaf crefydd Mwhammad, a chyrchfa'i pherefinion.

Y gloch: cloch eglwys y Cristion. Nid cloch ond rhingyll neu grîwr fydd yn gwahodd y ffyddloniaid i addoldai Mahometanaidd. (Bu agos i'r Proffwyd ei hun fenthyca cloch y Cristion; ond yr oedd gan un o'i ddilynwyr, Bilal wrth ei enw, lais nerthol, a rhoed y gŵr hwnnw ar waith i alw'r addolwyr i'r ysgubor lle cyfarfyddai'r ffyddloniaid cyntaf. Parhaodd y crîwr yn un o sefydliadau'r grefydd.—Margoliouth, *Mohammed*, 222). Nid oes angen crybwyll mai i grefydd y Cristion hefyd y perthyn yr Eglwys a'r Groes a grybwyllir yn y pennill hwn.

Zwnnâr: gwregys a wisgid gan y Zoroastriaid i'w gwahaniaethu oddiwrth y ffyddloniaid.

XLVII. Parwîn: y Pleiades, y saith seren. Mwshtarî: y blaned Iau, *Jupiter*.

LI. Efô yw'r hen ffurf ar y rhagenw, a newidiwyd gan gyfeithwyr y Beibl i Efe. Y mae'r llinell wreiddiol o'r un ffurf a hon, yn diweddu yn yr un modd â'r rhagenw.

LII. Gwyddbwyll: *chess*. Clawr y gelwir yn Gymraeg y bwrdd y chwareuid y chware arno.

LXXII. Y Tragywyddol Fenestr: Duw.

LXXIII. Jîhŵn: yr afon Oxus.

LXXVI. Ystyr y gair *cw* yn y Berseg, ac yn yr hen Gymraeg hefyd, ydyw 'pa le?' Yn nyddiau Omar Khayyâm, e fuasai iaith yr ysguthan yn y pennill mor ddealladwy i Gymro ag i Bersiad, heb nodyn fel hyn i'w hegluro.

LXXVII. Bahrâm : hen frenin, y pumed o'r enw, a deyrnasai A.D. 420-438. Gelwid ef Bahrâm Gŵr, sef Bahrâm yr Asyn Gwyllt, am ei enwogrwydd yn hela'r creadur hwnnw. Y traddodiad am ei ddiwedd oedd mai ei ddal a gafodd, wrth hela'r asyn gwyllt, mewn mignogors neu donnen, lle'i llyncwyd yn fyw, ef a'i farch.

Yn y pennill gwreiddiol, arferir dau air o'r un sŵn ond o wahanol ystyron, sef *gŵr* 'asyn gwyllt,' a *gŵr* 'bedd.' Yn y cyfieithiad, ceisiwyd cyfleu'r effaith drwy arfer *gwyddfarch* sef 'march gwyllt' am y naill, a *gwyddfa*, sef 'claddfa,' '*tomb*,' am y llall. Os gwir a ddywed Darwin, nad oes *geffyl* gwyllt mewn natur, ond o hil ceffylau dof, odid nad am ryw fath o asyn gwyllt yr arferwyd *gwyddfarch* gyntaf gan ein hynafiaid ni.

LXXXIX. Anadl Iesu : gweler y nodyn ar rif iii. uchod.

XCVII. gwefr: *amber*. rhuddem: *ruby*. ysgrîn: arch, *coffin*.

DIWEDD

RHYDYCHEN : FOX, JONES AND CO., ARGRAFFWYR, KEMP HAI



This book should be returned to the Library on or before the last date stamped below.

A fine of five cents a day is incurred by retaining it beyond the specified time.

Please return promptly.

DUE DEC 27 32

WIDENER

FEB 10 1996

HARVARD COLLEGE